

Rhif ymchwil gymdeithasol: 87/2026

Dyddiad cyhoeddi: 24/09/2026

Gwerthusiad o raglenni peilot Diogelu rhag Tlodi a Phencampwyr Cyrhaeddiad: adroddiad interim

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Gwerthusiad o raglenni peilot Diogelu rhag Tlodi a Phencampwyr
Cyrhaeddiad: adroddiad interim

Awduron: Alma Economics



Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics. (2026). Gwerthusiad o raglenni
peilot Diogelu rhag Tlodi a Phencampwyr Cyrhaeddiad: adroddiad interim.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 87/2026.

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwil gwefan
Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth
Cymru o reidrwydd

Rhagor o wybodaeth:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 8099

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	4
Rhestr o ffigurau	5
1. Cyflwyniad a chefnidir	8
1.1 Pencampwyr Cyrhaeddiad	9
1.2 Diogelu rhag Tlodi	10
1.3 Amcanion a gwelliannau gwreiddiol y prosiect	11
1.4 Amcanion y gwerthusiadau o raglenni Pencampwyr Cyrhaeddiad a Diogelu rhag Tlodi	12
1.5 Strwythur yr adroddiad	12
2. Methodoleg	14
2.1 Cam 1: Casglu a dadansoddi data cychwynnol.....	14
2.2 Cam 2: Gweithgareddau gwerthuso Pencampwyr Cyrhaeddiad	14
2.3 Cam 3: Gweithgareddau gwerthuso Diogelu rhag Tlodi	15
2.3.1 Arolwg a gynhaliwyd mewn ysgolion Diogelu rhag Tlodi ac ysgolion rheolydd	15
2.3.2 Ymgysylltu ansoddol â thimau arweinyddiaeth ysgolion a staff ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi.....	16
2.4 Dadansoddiad	17
2.5 Cyfyngiadau	18
2.5.1 Cyfyngiadau ar werthuso Pencampwyr Cyrhaeddiad	18
2.5.2 Cyfyngiadau ar werthuso Diogelu rhag Tlodi	18
3. Canfyddiadau Pencampwyr Cyrhaeddiad	19
3.1 Trosolwg o weithgareddau partneriaeth	20
3.1.1 Ysgol Penrhos, Ysgol Gynradd Maendy, ac Ysgol Gynradd Gymunedol Glenboi	20
3.1.2 Ysgol Uwchradd Islwyn ac Ysgol Uwchradd Cathays	21
3.1.3 Ysgolion cynradd Tregatwg, Trewiliam a Bryn Celyn.....	22
3.1.4 Ysgol Uwchradd Whitmore, Ysgol Bryn Alyn ac Ysgol Aberdaugleddau	23
3.1.5 Ysgol Coed-y-gof, Ysgol y Bedol ac Ysgol Pencae	24
3.2 Damcaniaeth newid	25
3.2.1 Ynglŷn â'r fframwaith damcaniaeth newid.....	25
3.2.2 Damcaniaeth newid Pencampwyr Cyrhaeddiad	25
3.2.2.1 Mewnbynnau a gweithgareddau	25
3.2.2.2 Allbynnau	26

3.2.2.3 Deilliannau ac effeithiau	26
3.3 Canfyddiadau ymchwil sylfaenol	27
3.3.1 Cyd-destunau ysgol	27
3.3.1.1 Amddifadedd economaidd-gymdeithasol	27
3.3.1.2 Rhwystrau ychwanegol i ddysgu	27
3.3.1.3 Rhaglenni a blaenoriaethau ychwanegol.....	28
3.3.2 Sefydlu'r bartneriaeth	28
3.3.2.1 Cymhelliant dros ymuno	28
3.3.2.2 Damcaniaeth gychwynnol	29
3.3.3 Llunio'r cynllun gweithredu.....	30
3.3.3.1 Cynlluniau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.....	30
3.3.3.2 Llais y dysgwyr	30
3.3.4 Effaith ganfyddedig	30
3.3.4.1 Deilliannau i ddysgwyr.....	31
3.3.4.2 Deilliannau i staff yr ysgol.....	32
3.3.4.3 Polisiâu ysgol ehangach	33
3.3.4.4 Ymgysylltu â rhieni	33
3.3.5 Myfyrdodau – rhwystrau a galluogwyr i'w gwaith	33
3.3.5.1 Rhwystrau	33
3.3.5.2 Galluogwyr	34
3.3.6 Parhad newidiadau	35
3.3.7 Argymhellion ar gyfer ehangu'r rhaglen	36
4. Canfyddiadau Diogelu rhag Tlodi	38
4.1 Gweithredu'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi	38
4.1.1 Cyd-destunau ysgol	38
4.1.1.1 Safbwyntiau ar heriau sy'n gysylltiedig â thlodi	38
4.1.1.2 Cyfranogiad ysgolion mewn rhaglenni lleihau tlodi.....	39
4.1.2 Gweithredu'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi.....	42
4.1.2.1 Y cyfnod paratoi a chyn-archwilio.....	43
4.1.2.2 Gweithdy hyfforddi'r hyfforddwr	44
4.1.2.3 Archwilio	46
4.1.2.4 Myfyrdodau cyffredinol ar weithredu'r rhaglen.....	49
4.1.2.5 Argymhellion gan Children North East	50
4.1.2.6 Cynlluniau gweithredu ysgolion.....	54

4.2 Deilliannau'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi.....	55
4.2.1 Deilliannau i staff ysgol	55
4.2.2 Deilliannau ehangach ar gyfer polisïau ysgolion.....	57
4.2.3 Deilliannau i rieni/gofalwyr	60
4.2.4 Deilliannau i ddysgwyr	62
4.2.5 Canlyniadau anfwriadol a ffactorau cymedroli	63
4.2.6 Angen cymorth ychwanegol.....	64
5. Casgliadau ac argymhellion	66
5.1 Casgliadau	66
5.1.1 Casgliadau o'r gwerthusiad o'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad.....	66
5.1.2 Casgliadau o'r gwerthusiad o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi.....	68
5.1.3 Amcanion heb eu cyflawni	70
5.2 Argymhellion Pencampwyr Cyrhaeddiad.....	70
6. Y camau nesaf	73
Atodiad A: Amcanion a methodoleg fanwl yr ymchwil.....	74
Amcanion ymchwil.....	74
Nodau ac amcanion gwreiddiol y prosiect	74
Diwygiadau i gynllun a chwmpas yr ymchwil	74
Methodoleg.....	75
Cam 1: Casglu a dadansoddi data cychwynnol	75
Adolygiad pen desg.....	75
Cyfweliadau cwmpasu.....	76
Cam 2: Gweithgareddau gwerthuso Pencampwyr Cyrhaeddiad.....	76
Cam 3: Gweithgareddau gwerthuso Diogelu rhag Tlodi	76
Arolwg a gynhaliwyd mewn ysgolion oedd yn cymryd rhan y rhaglen Diogelu rhag Tlodi ac ysgolion rheolydd.....	77
Ymgysylltu ansoddol â thimau arweinyddiaeth a staff ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi.....	78
Dadansoddiad.....	79
Atodiad B: Damcaniaeth newid Pencampwyr Cyrhaeddiad	81

Rhestr o dablau

Tabl 1. Gwaith ymgysylltu ansoddol a gyflawnwyd:gwerthusiad o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi	17
Tabl 2. Gweithgarwch ymgysylltu wedi'i gynllunio yn erbyn ymgysylltu gwirioneddol ar draws ysgolion yr astudiaethau achos.....	79

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Cyfranogiad mewn rhaglenni sy'n lleihau effaith tlodi ar addysg (n = 79 – pawb) ..	40
Ffigur 2: Bod yn rhan o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi (n = 79 – pawb).....	41
Ffigur 3: Cymryd rhan yn y gwaith gweithredol o gyflwyno'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu Rhag Tlodi).....	42
Ffigur 4: Pa mor ddefnyddiol y canfuwyd gweithdy hyfforddi'r hyfforddwr (n = 18 – ymatebwyr wedi'u hyfforddi fel archwilydd Diogelu rhag Tlodi)	45
Ffigur 5: Hyder yn rôl yr archwilydd (n = 18 – ymatebwyr wedi'u hyfforddi fel archwilydd Diogelu rhag Tlodi)	45
Ffigur 6: Anhawster canfyddedig wrth gwblhau'r archwiliadau (n = 14 – ymatebwyr o ysgolion lle cwblhawyd yr archwiliadau)	47
Ffigur 7: Addasrwydd canfyddedig hyd yr archwiliadau (n = 14 – ymatebwyr o ysgolion lle cwblhawyd yr archwiliadau).....	48
Ffigur 8: Heriau canfyddedig wrth gyflawni'r archwiliadau (n = 14 – ymatebwyr o ysgolion lle cwblhawyd yr archwiliadau).....	49
Ffigur 9: Darparu argymhellion gan Children North East (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi).....	50
Ffigur 10: Pa mor ddefnyddiol y canfuwyd bod argymhellion gan Children North East (n = 23 – ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael argymhellion).....	51
Ffigur 11: Meysydd a gwmpesir gan argymhellion Children North East (n = 23 – ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael argymhellion)	52
Ffigur 12: Datblygu cynllun gweithredu ysgol (n = 23 – ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael argymhellion)	54
Ffigur 13: Diogelu rhag Tlodi – deilliannau i staff ysgol (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi).....	57
Ffigur 14: Diogelu rhag Tlodi – deilliannau i ysgolion (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi).....	59
Ffigur 15: Newidiadau mewn ysgolion o ganlyniad i'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi)	60
Ffigur 16: Diogelu rhag Tlodi – deilliannau i rieni (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi).....	61

Ffigur 17: Diogelu rhag Tlodi – deilliannau i ddysgwyr (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi).....	63
Ffigur 18: Canlyniadau anfwriadol y rhaglen Diogelu rhag Tlodi (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi).....	64

Rhestr o dermau

Bylchau cyrhaeddiad

Mae bylchau cyrhaeddiad yn cyfeirio at wahaniaethau mesuradwy mewn canlyniadau addysgol, fel sgoriau profion neu gymwysterau, rhwng grwpiau o ddysgwyr.

Cyrhaeddiad

Mae cyrhaeddiad (addysgol) yn cyfeirio at y lefel addysg y mae dysgwr wedi'i chyflawni, a fesurir fel arfer trwy gymwysterau ffurfiol a chanlyniadau arholiadau fel TGAU, Safon Uwch, neu gymwysterau cyfatebol.

CNE

Children North East

DiD

Dadansoddiad gwahaniaeth mewn gwahaniaeth

eFSM

Dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim

FMECA

Dadansoddiad modd methiant, effeithiau a chritigolrwydd

FSM

Prydau ysgol am ddim

NAEL

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

PDG

Y Grant Datblygu Disgyblion

PISA

Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr

TGAU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

VRAP

Cynllunio gweithredu sy'n ymatebol i fod yn agored i niwed (*Vulnerability Responsive Action Planning*)

MALIC

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

1. Cyflwyniad a chefnidir

Mae cyrhaeddiad addysgol yn ffactor hollbwysig sy'n pennu cyfleoedd bywyd unigol, gan ddylanwadu ar ragolygon o ran cyflogaeth, enillion, a symudedd cymdeithasol. Yng Nghymru, mae tlodi plant parhaus ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn parhau i danseilio deilliannau addysgol i gyfran sylweddol o ddysgwyr. Mae tua un o bob tri o blant yng Nghymru yn byw mewn cartref incwm isel ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)). Mae anfantais economaidd-gymdeithasol, fel y'i cydnabyddir yn y Strategaeth Tlodi Plant ([2024](#)) ar gyfer Cymru, yn ffactor allweddol sy'n ysgogi cyrhaeddiad academiaidd is, lefelau uwch o absenoldeb, a risg uwch o wahardd o'r ysgol. Yng Nghymru, mae dysgwyr sy'n profi anfantais barhaus, ar gyfartaledd, hyd at 29 mis y tu ôl i'w cyfoedion o ran dysgu erbyn diwedd yr ysgol uwchradd ([Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol \(EHRC\), 2023](#)). Mae cyrhaeddiad addysgol hefyd yn gysylltiedig â deilliannau iechyd a llesiant ar hyd bywyd unigolyn. Mae ymchwil yn dangos y gall addysg ddylanwadu ar iechyd drwy ei heffaith ar gyflogaeth ac incwm, yr ymddygiadau iechyd a'r wybodaeth y mae'n cael effaith arnynt, a'r amgylchiadau cymdeithasol y mae'n esgor arnynt ([Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023](#)).

Mae cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim, sy'n seiliedig ar incwm rhieni a derbyn budd-daliadau penodol ([Llywodraeth Cymru, 2025](#)), yn parhau i fod yn ddangosydd cryf o anfantais economaidd-gymdeithasol, a adlewyrchir mewn cyfraddau gwahardd ac absenoldeb uwch, canlyniadau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) is, a chanlyniadau gwaeth ym mhroffion Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) a phrentisiaethau ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)). Mae tua un o bob pum dysgwr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) yng Nghymru ([StatsCymru, 2024](#)), ac un o bob pedwar yn y DU gyfan ([Llywodraeth y DU, 2024](#)). Er bod prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu'n gyffredinol i bob dysgwr oedran cynradd yng Nghymru waeth beth fo'u hincwm, mae meini prawf cymhwysra yn seiliedig ar incwm a budd-daliadau rhieni yn parhau i fod yr un fath ar draws pob cyfnod ac yn parhau i fod yn un o'r prif fesuryddion o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ers pandemig COVID-19, mae bylchau cyrhaeddiad addysgol sy'n gysylltiedig â thlodi yng Nghymru wedi ehangu, ac mae dysgwyr o gefndiroedd incwm isel yn disgyn ar ei hôl hi ymhellach. Dangosodd canlyniadau PISA yn 2022 ddirywiad mwy sydyn mewn safonau darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yng Nghymru ers 2020 o'u cymharu â'r rhan fwyaf o wledydd eraill, gan adael Cymru y tu ôl i weddill y DU ([Y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol \(IFS\), 2024](#)).

Fodd bynnag, nid yw'r heriau hyn wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled Cymru; mae rhai o'r bylchau cyrhaeddiad mwyaf yn bodoli yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Er enghraifft, adroddodd Sir Fynwy, un o'r ardaloedd â'r crynodiad isaf o amddifadedd, fwch cyrhaeddiad o 41% yng Nghyfnod Allweddol 4 ([Ymchwil y Senedd, 2018](#)).

Mae ffactorau strwythurol yn tanategu'r anghydraddoldebau hyn. Mae dysgwyr sy'n profi tlodi yn aml yn wynebu rhwystrau, fel costau addysgol cudd (gwisg ysgol, triapiau ysgol a gweithgareddau allgyrsiol) a stigma ynghylch anfanteision economaidd-gymdeithasol. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu y gall ysgolion â chrynodiadau uwch o blant sy'n byw mewn tlodi weithiau gynnig cwricwla culach, gan ganolbwyntio'n fwy ar lythrennedd a rhifedd sylfaenol ar draul dysgu cyfannol ([ORCA, 2018](#)).

Yn y cyd-destun hwn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddwy raglen a gynlluniwyd yn benodol i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi sy'n llesteirio cyrhaeddiad addysgol mewn ysgolion. Ceisiodd y rhaglen [Pencampwyr Cyrhaeddiad](#) leihau bylchau cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â thlodi drwy ddulliau mentora cymheiriaid a arweinir gan benaethiaid profiadol, gan weithio'n uniongyrchol gydag uwch-arweinwyr mewn ysgolion sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol sylweddol. Mae [Diogelu'r Diwrnod Ysgol rhag Tlodi](#) (o hyn ymlaen, Diogelu rhag Tlodi) yn rhaglen ysgol gyfan a arweinir gan archwiliadau gyda'r nod o gofnodi lleisiau a phrofiadau bywyd dysgwyr a'u teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, gan lywio polisïau ac ymarfer yr ysgol, lleihau costau'r diwrnod ysgol i deuluoedd, a meithrin ethos ysgol sy'n edrych ar addysg drwy lens tlodi. Yn yr adrannau canlynol, rydym yn cynnig trosolwg manwl o bob menter cyn amlinellu nodau a strwythur yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio sut y gweithredwyd y rhaglenni hyn yn ymarferol ac yn archwilio safbwyntiau cyfranogwyr ar eu heffeithiau canfyddedig cynnar.

1.1 Pencampwyr Cyrhaeddiad

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r cynllun peilot Pencampwr Cyrhaeddiad yn 2023 fel menter sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddeilliannau addysgol. Ceisiodd y rhaglen leihau bylchau cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â thlodi drwy gefnogi dulliau mentora cymheiriad a arweinir gan arweinwyr a staff ysgolion. Wedi'i hwyluso gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), gwnaeth y rhaglen recriwtio penaeithiaid profiadol (a elwir yn 'Bencampwyr Cyrhaeddiad'), saith i ddechrau yn ei chyfnod peilot cyntaf, i weithio'n uniongyrchol gydag uwch-arweinwyr mewn ysgolion sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol sylweddol. Dewiswyd y Pencampwyr Cyrhaeddiad hyn yn seiliedig ar eu llwyddiant amlwg wrth gau bylchau cyrhaeddiad yn eu cyd-destunau eu hunain a chawsant y dasg o gefnogi arweinwyr ysgolion eraill i wneud yr un peth.

Cyflwynwyd y rhaglen mewn dau gam. Yn ystod Cam 1 (Ionawr–Gorffennaf 2023), partnerodd pob pencampwr ag un ysgol, gan gyd-ddatblygu cynlluniau gwaith pwrpasol i fynd i'r afael â rhwystrau tlodi mewn lleoliadau addysgol ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)). Gan adeiladu ar y model cynnar, ehangodd Cam 2 (2024–2025) gyrhaeddiad a strwythur y rhaglen. Roedd yr pencampwyr yn gweithredu mewn triawdau, pob un yn cynnwys partneriaeth o hyd at dair ysgol (pum triawd i gyd), a oedd â'r nod o alluogi dysgu cydweithredol a meithrin deialog broffesiynol ar draws cyd-destunau. Cynhaliwyd cyfarfodydd bob tymor yn rheolaidd i adolygu'r cynnydd a wnaed, mireinio dulliau, a rhannu arferion effeithiol ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)).

Roedd y fenter wedi'i halinio â blaenoriaethau addysg cenedlaethol, gan gynnwys Addysg yng Nghymru: [Cenhadaeth ein Cenedl](#) a'r [Strategaeth Tlodi Plant](#) (2024). Y bwriad oedd atgyfnerthu pwyslais system gyfan Llywodraeth Cymru ar arweinyddiaeth fel dull i wella tegwch, tra hefyd yn gweithredu ymrwymiad 2022 y Gweinidog Addysg i alluogi cymorth gan gymheiriaid i arweinwyr mewn lleoliadau difreintiedig ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)). Roedd y rhaglen wedi'i chysylltu'n benodol â'r [Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion](#), gan adeiladu ar rwydweithiau cymheiriaid i godi safonau ([Llywodraeth Cymru, 2024](#)). Drwy roi'r offer a'r hyder i uwch staff weithredu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar degwch, nod y rhaglen

oedd cryfhau gallu sefydliadau i oresgyn rhwystrau economaidd-gymdeithasol. Mae'n gysylltiedig â phwyslais y Genhadaeth Genedlaethol ar arweinyddiaeth a phroffesiwn o ansawdd uchel ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)) ac â dull system gyfan sy'n adeiladu ar y cwrwclwm newydd drwy sicrhau bod pob arweinydd yn canolbwyntio ar degwch ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)). Mae'r cysylltiadau a wnaed uchod yn adlewyrchu'r sail resymegol o ran polisi sy'n tanategu'r rhaglenni hyn. Archwilir tystiolaeth o'u heffeithiolrwydd yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, o fewn terfynau'r hyn y mae'r data sydd ar gael yn eu caniatáu.

Daeth y cynllun peilot i ben ym mis Gorffennaf 2025, a daeth Llywodraeth Cymru i benderfyniad i beidio ag ymestyn y fenter.

1.2 Diogelu rhag Tlodi

Mae [Diogelu'r Diwrnod Ysgol rhag Tlodi](#) (o hyn ymlaen, Diogelu rhag Tlodi) yn ddull a ddatblygwyd i gasglu lleisiau a phrofiadau bywyd dysgwyr sy'n byw mewn tlodi, gyda'r nod o lywio polisiau ac ymarfer ysgolion, lleihau costau'r diwrnod ysgol i deuluoedd, a chynyddu ymgysylltu a chyfranogiad. Mae'r dull yn canolbwyntio ar ymgynghori â dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff a llywodraethwyr, gan gynhyrchu canfyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gall ysgolion weithredu arnynt i gael gwared ar rwystrau ariannol ac arferion sy'n stigmatiddio o fewn lleoliadau addysgol.

Caiff y rhaglen ei chyflwyno gan [Children North East](#) (CNE) a dechreuodd yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr yn 2014 cyn cael ei chyflwyno'n ehangach ledled y DU. Comisiynodd Llywodraeth Cymru raglen Diogelu rhag Tlodi beilot ar draws chwe chymuned ddysgu yng Nghymru, a gyflawnwyd mewn tri cham rhwng mis Medi 2024 a mis Mai 2026. Cymerodd cyfanswm o 42 o ysgolion ran yn y rhaglen beilot: chwe ysgol uwchradd yn gweithredu fel arweinwyr clwstwr a 36 ysgol ychwanegol (ysgolion cynradd yn bennaf) yn cymryd rhan fel aelodau clwstwr.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ariannu a monitro'r rhaglen beilot a chafodd y cyfrifoldebau cyflawni eu rhannu rhwng CNE ac ysgolion bartner a gymerodd ran. Arweiniodd CNE ar gydlynw'r rhaglen ac ar weithgareddau ymgynghori a chefnogi, tra oedd ysgolion a gymerodd ran yn gyfrifol am gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol, gweithgareddau archwilio, a chyfranogiad ehangach yn y rhaglen. Nod y rhaglen beilot yw ymgorffori'r dull o fewn addysg Cymru fel modd ar gyfer mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu sy'n gysylltiedig â thlodi, yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y [Strategaeth Tlodi Plant](#) a'r agenda tegwch ehangach a amlinellir yn [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl](#). Gweithredwyd y rhaglen beilot dros ddau gam. Roedd y cyntaf, a ddaeth i ben yn 2025, yn cynnwys partneriaethau un-i-un rhwng pencampwyr ac ysgolion i gyd-ddatblygu cynlluniau gwaith wedi'u targedu i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi. Ehangodd yr ail gam, a estynnwyd i 2026–2027, y model i driawdau o ysgolion, gan hyrwyddo dysgu cydweithredol a deialog broffesiynol ar draws grŵp ehangach. Yn y cam presennol, mae pedwar clwstwr ychwanegol yn ymuno â'r rhaglen, gan gynnwys un clwstwr sy'n cynnwys un clwstwr o ysgolion arbennig ac un arall sy'n ymgorffori Uned Cyfeirio Disgyblion, ac mae hefyd yn cwmpasu ardal ehangach o Gymru.

Oherwydd bod rhaglen beilot Cymru yn ei chamau cynnar o hyd, nid oes unrhyw dystiolaeth o ran deilliannau ar gael eto ar gyfer ei gweithredu yng Nghymru. Fodd bynnag, canfu tystiolaeth o weithredu'r rhaglen mewn rhannau eraill o'r DU bresenoldeb a chyrhaeddiad gwell ymhlith dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mynediad cynyddol at weithgareddau cyfoethogi, defnydd mwy strategol o gyllid y premiwm disgybl, a newid diwylliannol yn agweddau staff tuag at dlodi ([Mazzoli a Todd, 2016](#)). Roedd yr heriau'n cynnwys gwrthwynebiad staff i gydnabod stigma anfwriadol, llai o ymgysylltu gan ysgolion sydd eisoes yn gwasanaethu cyfrannau uchel o ddysgwyr difreintiedig, a phroses anghyflawn o weithredu'r rhaglen lle'r oedd diffyg cefnogaeth gan arweinwyr (ibid).

Canfu dadansoddiad gwahaniaeth mewn gwahaniaeth (DiD) o ddata ysgolion Gogledd-ddwyrain Lloegr o 2015 i 2019 ([Beeson, Wildman a Wildman, 2024](#)) hefyd fod sgoriau profion a chynnydd wedi gwella'n sylweddol mewn mathemateg a darllen Saesneg ar gyfer dysgwyr dan anfantais a dysgwyr nad ydynt dan anfantais, gydag effeithiau'n dod i'r amlwg ar ôl rhyw ddwy flynedd, er na nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gyfer ysgrifennu na gramadeg.

1.3 Amcanion a gwelliannau gwreiddiol y prosiect

Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiadau o broses ac effaith gynnar rhaglenni peilot Pencampwyr Cyrhaeddiad a Diogelu rhag Tlodi. Archwiliodd y ddau werthusiad brofiadau timau arweinyddiaeth ysgolion a staff ysgolion i asesu sut mae pob rhaglen yn mynd i'r afael â rhwystrau i addysg sy'n gysylltiedig â thlodi yng Nghymru.

Nod gwreiddiol yr ymchwil oedd cymhwyso dull gwerthuso realaidd wrth werthuso pob rhaglen i nodi'r hyn sy'n gweithio, i bwy, ac ym mha gyd-destunau. Fodd bynnag, yn ystod y broses weithredu, adolygwyd yr amcanion a'r fethodoleg yn dilyn dau ddatblygiad allweddol, a drafodwyd â Llywodraeth Cymru ac y cytunwyd arnynt gyda hi:

- diwedd ar ymgysylltiad ei phartner cyflenwi, sef Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL)
- cyfyngiadau gwaith maes yn ymwneud â recriwtio, amseru, ac ymgysylltu ysgolion ar gyfer Diogelu rhag Tlodi

Roedd y datblygiadau hyn wedi golygu nad oedd dull gwerthuso realaidd a oedd wedi'i ymgorffori'n llwyr yn ymarferol mwyach, h.y. gwerthusiad sy'n ceisio egluro nid yn unig a yw rhaglen yn gweithio ai peidio, ond pam ei bod yn gweithio, i bwy, ac o dan ba amodau. O ystyried y cyfyngiadau hyn, addaswyd y dull gwerthuso i flaenoriaethu hyfywedd a pherthnasedd polisi. Felly, mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar y ffordd y gweithredwyd yr ymyrraeth, pa brofiad ohoni y cafwyd gan gyfranogwyr, a pha newidiadau cynnar a ganfuwyd, yn hytrach na chynnig casgliadau pendant am achosiaeth neu effaith gymharol. Darperir cyfrif manwl o'r amcanion cychwynnol a'r diwygiadau i'r ymchwil yn Atodiad A: Amcanion a methodoleg fanwl yr ymchwil.

1.4 Amcanion y gwerthusiadau o raglenni Pencampwyr Cyrhaeddiad a Diogelu rhag Tlodi

Roedd gan y gwerthusiad dri nod cyffredinol:

1. asesu profiadau gweithredu a hyfywedd canfyddedig cyflwyno pob model i ysgolion a/neu glystyrau ychwanegol
2. archwilio'r ffordd y cyflwynwyd pob rhaglen a nodi canlyniadau cynnar a gwersi canfyddedig, yn enwedig mewn perthynas ag arweinyddiaeth ysgolion, ymarfer ysgolion, a gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar degwch
 - asesu pa mor effeithiol y mae'r broses o gyflwyno'r prosiect Pencampwyr Cyrhaeddiad wedi cefnogi arweinwyr ysgolion a'u hysgolion i ddatblygu a gweithredu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar degwch
 - nodi deilliannau sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig newidiadau mewn diwylliant ysgol, arferion cynhwysiant ac agweddau staff
3. cynnig mewnwelediadau polisi y gellir eu gweithredu, gan ystyried cyfyngiadau'r data sydd ar gael
 - nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion effeithiol o bob rhaglen i lywio addasiadau gweithredol a dyluniadau rhaglen yn y dyfodol
 - cynnig mewnwelediadau ac argymhellion polisi sydd wedi'u hanelu at leihau rhwystrau addysgol sy'n gysylltiedig â thlodi

1.5 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Mae Pennod 2 yn nodi'r dull methodolegol
- Mae Pennod 3 yn amlinellu'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â Phencampwyr Cyrhaeddiad
- Mae Pennod 4 yn amlinellu'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â Diogelu rhag Tlodi

Mae'r canfyddiadau ym mhenodau 3 a 4:

- yn achub ar safbwyntiau timau arweinyddiaeth ysgolion a staff ysgolion yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan, a gasglwyd drwy gyfweiliadau (ar gyfer y ddwy raglen), arolygon, a grwpiau ffocws (ar gyfer Diogelu rhag Tlodi yn unig)
- yn dechrau gyda Phencampwyr Cyrhaeddiad ac yna symud ymlaen i Ddiogelu rhag Tlodi
- yn cael eu cyflwyno fesul thema, yn hytrach nag yn ôl gweithgarwch ymchwil (arolwg a chyfweiliadau)
- ar gyfer Pencampwyr Cyrhaeddiad, mae'r canfyddiadau'n canolbwyntio ar brofiadau ac adfyfrio arweinwyr ysgolion ar y rhaglen, gan gynnwys deilliannau canfyddedig ac argymhellion ar gyfer mentrau yn y dyfodol

- ar gyfer Diogelu rhag Tlodi, mae'r canfyddiadau'n canolbwyntio ar brofiadau arweinwyr ysgolion a staff wrth weithredu'r rhaglen, ynghyd ag unrhyw ddeilliannau cynnar a ganfyddir sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi
- Mae Pennod 5 yn crynhoi'r prif gasgliadau sy'n deillio o'r ymchwil, wedi'u gwahanu yn ôl rhaglen
- Mae Pennod 6 yn trafod y camau nesaf, gan adlewyrchu'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar ymestyn y rhaglen beilot Diogelu rhag Tlodi i bedwar clwstwr ychwanegol

2. Methodoleg

Dilynodd y gwerthusiad ddull graddol, gan archwilio'r ddwy raglen ar y cyd i ddechrau cyn gwahanu'n llinynnau gwahanol yn canolbwyntio ar Bencampwyr Cyrhaeddiad a Diogelu rhag Tlodi. Cafodd dulliau ymchwil eu teilwra i bob rhaglen fel y bo angen. Darperir amlinelliad o'r cyfnodau ymchwil a'r gweithgareddau cysylltiedig isod. Am esboniad mwy manwl o'r fethodoleg, cyfeiriwch at Atodiad A: Amcanion a methodoleg fanwl yr ymchwil, sy'n manylu ar bob cam o'r ymchwil a'r heriau a wynebwyd.

2.1 Cam 1: Casglu a dadansoddi data cychwynnol

Roedd y cam hwn yn cynnwys adolygiadau pen desg ar wahân o Bencampwyr Cyrhaeddiad a Diogelu rhag Tlodi, datblygu damcaniaeth newid ar gyfer Pencampwyr Cyrhaeddiad, a chyfweiliadau cwmpasu â thri swyddog Llywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â'r ddwy raglen, un cynrychiolydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL) ar gyfer Pencampwyr Cyrhaeddiad, a dau gynrychiolydd Children North East (CNE) ar gyfer Diogelu rhag Tlodi.

2.2 Cam 2: Gweithgareddau gwerthuso Pencampwyr Cyrhaeddiad

Aeth y tîm ymchwil i ddigwyddiad Pencampwyr Cyrhaeddiad a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2025. Hwylusodd y tîm sesiwn a oedd yn cynnwys ymarferion myfyriol ar lwyddiannau, heriau a dysgu, yn ogystal ag adolygiad cydweithredol o ddamcaniaeth newid y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad.

Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfweiliadau hefyd ag arweinwyr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen rhwng mis Medi a mis Hydref 2025. At ei gilydd, cyfwelwyd ag wyth arweinydd ysgol, tri mentor, a phump unigolyn a oedd yn cael eu mentora ar draws pum partneriaeth. Am i'r data gael ei gasglu ar ôl i'r rhaglen ddod i ben, roedd y gydran hon o'r gwerthusiad yn dibynnu'n fawr ar atgofion arweinwyr ysgolion o'u cyfranogiad. Er bod hyn yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar sut brofiad oedd gan y cyfranogwyr o'r rhaglen a pha newidiadau yr oeddent yn teimlo ei bod wedi'u hachosi, nid oedd yn caniatáu arsylwi'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth wrth iddi ddatblygu nac ar gyfer olrhain datblygiadau dros amser.

Roedd trafodaethau â chyfranogwyr yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys cymhellion cychwynnol cyfranogwyr dros ymuno â'r rhaglen, eu disgwyliadau cynnar ynghylch sut y byddai Pencampwyr Cyrhaeddiad yn ysgogi newid, datblygu cynlluniau gweithredu, a'r deilliannau canfyddedig ar gyfer dysgwyr, staff ysgolion a pholisïau ysgolion. Archwiliwyd hefyd safbwyntiau ar y graddau y gellir ehangu'r rhaglen ac argymhellion ar gyfer mentrau yn y dyfodol. Yn ogystal, defnyddiwyd mewnwelediadau o adroddiad heb ei gyhoeddi gan NAEL i ategu bylchau mewn cwmpas ar gyfer y partneriaethau hynny lle na chyfwelwyd ag unrhyw gyfranogwyr.

Llywiodd canfyddiadau'r gweithgareddau hyn adroddiad interim a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025. Wedi hynny, cwblhawyd gwerthusiad y Pencampwyr Cyrhaeddiad, gyda gweddill y prosiect yn canolbwyntio ar y gwerthusiad o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi.

2.3 Cam 3: Gweithgareddau gwerthuso Diogelu rhag Tlodi

Roedd y gwerthusiad o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi yn cynnwys dwy brif elfen: (i) arolwg yn targedu personél ysgolion mewn ysgolion Diogelu rhag Tlodi ac ysgolion eraill, (ii) ymgysylltu ansoddol trwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda thimau arweinyddiaeth ysgolion a staff ysgolion mewn ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi. Ar y cyfan, roedd y cyfranogiad yn fwy cyfyngedig nag a ragwelwyd. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio pob llinyn yn ei dro, cyn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau allweddol.

2.3.1 Arolwg a gynhaliwyd mewn ysgolion Diogelu rhag Tlodi ac ysgolion rheolydd

Targedodd yr arolwg staff ysgolion ac uwch-arweinwyr ar draws ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi ac ysgolion nad oeddent yn cymryd rhan. O fewn yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan, fe'i hanelwyd at staff a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno'r rhaglen a'r rhai nad oeddent yn ymwneud â hi. Bwriadwyd i ysgolion nad oeddent yn cymryd rhan wasanaethu fel grŵp cymharu a dim ond is-set o gwestiynau a ofynnwyd iddynt yn ymwneud â'u canfyddiadau o'r ffordd mae tlodi'n dylanwadu ar gyrhaeddiad addysgol. Cynlluniwyd yr arolwg i redeg mewn dwy don (hydref 2025 a gwanwyn 2026) i asesu newidiadau dros amser.

Dosbarthwyd yr arolwg ar draws pob un o'r 42 o ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi, ochr yn ochr â set o 80 o ysgolion rheolydd cyfatebol a ddewiswyd ar sail rhanbarth, maint yr ysgol, a chyfran y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Drwy ymgysylltu â staff ysgolion mewn ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi ac mewn ysgolion rheolydd, y nod oedd taflu goleuni ar y pynciau canlynol:

- canfyddiadau ac ymwybyddiaeth o rwystrau sy'n gysylltiedig â tlodi i gyrhaeddiad addysgol: safbwyntiau a dealltwriaeth o'r ffordd mae tlodi'n effeithio ar ddysgu a chyfleoedd myfyrwyr
- cymryd rhan mewn mentrau sydd â'r nod o leihau effaith tlodi ar addysg, gan gynnwys Diogelu rhag Tlodi
- profiadau wrth weithredu Diogelu rhag Tlodi
- canlyniadau cynnar canfyddedig y rhaglen Diogelu rhag Tlodi ar gyfer dysgwyr, staff, rhieni/gofalwyr a chymuned yr ysgol ers ei chyflwyno

Cynlluniwyd yr arolwg i gymryd dim mwy na 15 munud i'w gwblhau ac fe'i cynhaliwyd ar Microsoft Forms, gyda'r ymatebion yn cael eu casglu rhwng mis Medi a mis Hydref 2025.

Cwblhawyd yr arolwg gan 80 o unigolion o 23 o ysgolion, ac roedd 22 ohonynt yn ysgolion a oedd yn ymwneud â Diogelu rhag Tlodi (52% o'r ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y

rhaglen Diogelu rhag Tlodi), a dim ond un ymateb a ddaeth o ysgol reolydd (cyfradd ymateb o 1.25%), a gafodd ei heithrio o'r sampl, gan arwain at gyfanswm sampl effeithiol o $n = 79$. Roedd yr ysgolion hyn wedi'u lleoli ar draws pum awdurdod lleol: Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, a Wrecsam. Ysgolion meithrin, babanod ac iau oedd y rhan fwyaf ($n = 14$), ac yna ysgolion uwchradd (11–16 oed) ($n = 5$) ac ysgolion babanod ac iau cyfun ($n = 2$). O ran cyfrwng iaith, roedd 11 ysgol yn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd pedair yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd pedair yn ysgolion dwy ffrwd, roedd un yn ddwyieithog (Math B), ac roedd un yn ysgol cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Roedd cyfran gyfartalog y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn 26%, gydag amrediad o 3% i 66%. Maint cyfartalog yr ysgol oedd 393 o ddisgyblion, gyda maint cyffredinol yr ysgol yn amrywio o 21 i 1,543 o ddysgwyr.

O'r 79 o ymatebwyr terfynol, nododd 36 (43%) eu bod yn athrawon, 25 (30%) eu bod yn benaethiaid, penaeithiaid lleoliadau, neu aelodau eraill o'r uwch-dîm arwain, ac 14 (17%) eu bod yn gynorthwyyr addysgu, cynorthwyyr addysgu lefel uwch, neu gynorthwyyr cymorth dysgu. Nododd wyth ymatebydd (10%) rolau eraill, gan gynnwys rheolwr safle, staff gweinyddol, swyddog presenoldeb, CADY a swyddog diogelu, tra oedd yn well gan un ymatebydd (1%) beidio â dweud.

Er i'r arolwg gael ei gynllunio'n wreiddiol i alluogi dadansoddiad hydredol a chymhariaeth ag ysgolion nad oeddent yn cymryd rhan, ni chyflawnwyd y naill na'r llall o'r elfennau hyn yn ymarferol. O ganlyniad, mae'r dystiolaeth o'r arolwg a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn defnyddio un don o ymatebion gan sampl a hunanddewiswyd o ysgolion a gymerodd ran. Felly, dylid darllen canfyddiadau fel rhai sy'n adlewyrchu barn a phrofiadau'r ymatebwyr, yn hytrach nag fel tystiolaeth o effaith neu newid y rhaglen dros amser.

Adroddir ar gyffredinrwydd wrth adrodd ar ganlyniadau arolygon gan ddefnyddio'r ystodau disgrifiadol canlynol:

- mwyafrif helaeth = mwy nag 85% o'r ymatebwyr
- mwyafrif = 70% i 84%
- dros hanner = 55% i 69%
- tua hanner = 46% i 54%
- llai na hanner / tua thraean = 30% i 45%
- lleiafrif = 15% i 29%
- lleiafrif bach = is na 15%

Defnyddir yr ystodau hyn fel confensiwn adrodd yn unig ac ni ddylid eu cymryd i awgrymu bod canfyddiadau'n gynrychioliadol o unrhyw boblogaeth ehangach y tu hwnt i'r ymatebwyr eu hunain.

2.3.2 Ymgysylltu ansoddol â thimau arweinyddiaeth ysgolion a staff ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi

Yn dilyn yr arolwg, cynhaliwyd ymdrechion ymgysylltu ansoddol gyda'r nod o gynhyrchu chwe astudiaeth achos, un fesul cymuned ddysgu. Dewiswyd ysgolion a oedd yn arweinwyr clystyrau ar gyfer pob un o'r chwe chlwestwr Diogelu rhag Tlodi i wasanaethu fel sail ar gyfer

pob astudiaeth achos, gyda'r bwriad o archwilio'r ffordd roedd Diogelu rhag Tlodi yn cael ei weithredu'n ymarferol, profiadau staff o roi'r rhaglen ar waith, ac unrhyw ganlyniadau cynnar a welwyd.

Yn ymarferol, roedd cyfyngiadau o ran capasiti a blaenoriaethau sy'n cystadlu yn cyfyngu ar y graddau y gallai ysgolion ymgysylltu â'r gwerthusiad. Yn ymarferol, roedd cyfyngiadau ar gapasiti ysgolion a blaenoriaethau sy'n cystadlu yn cyfyngu ar y graddau yr ymgysylltwyd â'r gwerthusiad. Casglwyd data o dair ysgol i gyd, ac nid oedd y cyfranogiad cystal ag y bwriadwyd iddo fod. O ganlyniad, ni chynhyrchwyd unrhyw astudiaethau achos oherwydd ymgysylltu cyfyngedig a gwybodaeth anghyflawn. Cyflwynir canfyddiadau ansoddol yn thematig ar draws ysgolion, a dylid eu dehongli fel rhai darluniadol o brofiadau nifer fach o gyfranogwyr yn hytrach nag fel rhai cynrychioliadol o'r holl glystyrau ac ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.

Am ddadansoddiad mwy cyflawn o'r ymgysylltu a gynlluniwyd yn erbyn yr ymgysylltiad a gyflawnwyd, cyfeiriwch at Atodiad A: Amcanion a methodoleg fanwl yr ymchwil.

Tabl 1. Gwaith ymgysylltu ansoddol a gyflawnwyd:gwerthusiad o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi

Sampl	Ymgysylltu
Ysgol 1	Cyfweliadau â thîm arweinyddiaeth yr ysgol n = 2 Grŵp ffocws gyda staff yr ysgol n = 1
Ysgol 2	Cyfweliadau â thîm arweinyddiaeth yr ysgol n = 1 Grŵp ffocws gyda staff yr ysgol n = 1 Cyfweliadau dilynol â thîm arweinyddiaeth yr ysgol n = 1
Ysgol 3	Cyfweliadau â thîm arweinyddiaeth yr ysgol n = 1

2.4 Dadansoddiad

Cynhaliwyd dadansoddiad ar wahân ar gyfer pob rhaglen:

- Pencampwyr Cyrhaeddiad:
 - roedd y dadansoddiad yn defnyddio canfyddiadau cyfweliadau ag arweinwyr ysgolion, wedi'u hategu gan dystiolaeth o'r adolygiad pen desg a thrafodaethau digwyddiadau
 - dadansoddwyd pob cyfweliad ag arweinwyr ysgolion gan ddefnyddio dadansoddiad thematig, a oedd yn cynnwys nodi themâu allweddol o fewn yr wybodaeth a gasglwyd ac ar ei thraws
 - o ystyried amrywiaeth gweithgareddau'r rhaglen sy'n deillio o gynllun gweithredu pob partneriaeth ysgol, fe wnaethom hefyd gymhwyso dadansoddiad o gynnwys i ddogfennu'r gweithgareddau, ochr yn ochr â llunio themâu ehangach

- nod y canfyddiadau yw taflu goleuni ar safbwyntiau arweinwyr yr ysgol ar eu cymhelliant i gymryd rhan, yr hyn a weithiodd yn dda a'r heriau a wynebwyd, y sail resymegol dros ddewis gweithgareddau, a'r effaith ganfyddedig ar ddysgwyr, staff yr ysgol a'r ysgol ehangach
- gan ei fod wedi'i gadarnhau na fyddai'r fenter yn parhau, talwyd sylw i ddysgu gwersi ar gyfer rhaglenni tebyg yn y dyfodol
- Diogelu rhag Tlodi:
 - roedd y dadansoddiad yn defnyddio data arolwg ac ymgysylltu ansoddol â thimau arweinyddiaeth ysgolion a staff ysgolion
 - dadansoddwyd data'r arolwg gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol, tra oedd data o gyfweiliadau a grwpiau ffocws yn cael ei ddadansoddi'n thematig, gan nodi themâu allweddol o fewn y deunydd a gasglwyd ac ar ei draws
 - roedd dau llyn y dadansoddiad yn ymdrin â phynciau tebyg, gan gynnwys adborth ar weithgareddau Diogelu rhag Tlodi a phrofiad cyffredinol o'r rhaglen, galluogwyr a heriau, i ba raddau y canfyddir bod y dull yn ddefnyddiol, newidiadau a welwyd oherwydd cyfranogiad, a'r effaith ganfyddedig ar ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff yr ysgol

2.5 Cyfyngiadau

Dylid cydnabod nifer o gyfyngiadau wrth ddehongli canfyddiadau'r ddau werthusiad ac amlinellir y rhain isod.

2.5.1 Cyfyngiadau ar werthuso Pencampwyr Cyrhaeddiad

Comisiynwyd y gwerthusiad o'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad yn hwyr yn y fenter, gyda gwaith maes yn digwydd ar ôl i'r broses o gyflwyno'r rhaglen ddod i ben.

O ganlyniad, nid oedd yn bosibl casglu safbwyntiau cyfranogwyr tra oeddent yn datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu yn weithredol, ac roedd amseriad y gwerthusiad hefyd yn golygu nad oedd yn bosibl asesu newidiadau 'cyn ac ar ôl' na dod i gasgliadau am effeithiau tymor hwy. Yn y pen draw, mae'r cyfyngiadau hyn yn dangos y dylid dehongli canfyddiadau o'r llynyn Pencampwyr Cyrhaeddiad fel cyfrifon ôl-weithredol o brofiadau cyfranogwyr, yn hytrach nag fel tystiolaeth gadarn o effeithiau'r rhaglen.

Yn ogystal, roedd y gwerthusiad yn dibynnu'n bennaf ar adroddiadau a hunan-adroddwyd ac adroddiadau ôl-weithredol, a allai fod wedi effeithio ar gywirdeb neu gyflawnrwydd myfyrdodau'r cyfranogwyr. Yn olaf, roedd gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gyfyngedig. Cynhaliwyd cyfweiliadau ag arweinwyr ysgolion sy'n gyfrifol am weithredu Pencampwyr Cyrhaeddiad yn unig, sy'n golygu nad oedd safbwyntiau staff eraill yr ysgol, rhieni/gofalwyr a dysgwyr wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad.

2.5.2 Cyfyngiadau ar werthuso Diogelu rhag Tlodi

Mae prif gyfyngiadau'r gwerthusiad Diogelu rhag Tlodi yn ymwneud â chyfaint a chwmpas y data a gasglwyd. Ffactor cyd-destunol allweddol oedd amseru, oherwydd bod

gweithgareddau gwerthuso wedi'u cyflwyno ar ôl i'r broses o gyflwyno'r rhaglen ddechrau, a allai fod wedi cyfrannu at ymgysylltu cyfyngedig drwy ychwanegu at y baich ar gyfranogwyr.

Er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru a CNE i gyflwyno'r tîm ymchwil a phwysleisio pwysigrwydd y gwerthusiad, ac er gwaethaf ymdrechion y tîm ymchwil ei hun i gynnal cyfathrebu rheolaidd, cyhoeddi nodiadau atgoffa, a chynnig hyblygrwydd o ran sut y gallai cyfranogiad ddigwydd, arhosodd ymgysylltu'n isel ar draws yr holl weithgareddau ymchwil cynradd. Roedd cyfranogiad hefyd wedi'i ddewis gan yr unigolion, gan ddibynnu ar unigolion a sefydliadau yn meddu ar yr amser, y diddordeb a'r gallu i ymgysylltu. Gyda'i gilydd, mae'r cyfraddau ymateb isel a natur hunan-ddewisol cyfranogiad yn golygu nad oes modd cyffredinol canfyddiadau ar draws y rhaglen.

Oherwydd y gweithgarwch ymgysylltu cyfyngedig, nid oedd yn ymarferol ymgymryd â cham dilynol, a oedd â'r bwriad o asesu deilliannau drwy gymharu data cyn ac ar ôl. Oherwydd didffyg ymatebion gan ysgolion rheolydd, ynghyd â'r gyfradd ymateb isel yn y don arolwg gyntaf, nid oedd cymhariaeth hydredol ystyrion yn ymarferol ac ataliodd gymhariaeth gadarn rhwng y grwpiau a gymerodd ran a'r grwpiau rheolydd. O ganlyniad, ni ellid asesu newidiadau yn effeithiau'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi dros amser, yn ogystal â gwahaniaethau mewn canfyddiadau o dlodi rhwng ysgolion sy'n cymryd rhan ac ysgolion nad ydynt yn cymryd rhan. Ar yr un pryd, roedd y ffaith nad oedd digon o ysgolion yn y llinyn ansoddol yn dewis cymryd rhan yn golygu nad oedd ymarfer ymgysylltu dilynol hydredol yn hyfyw.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, nid yw'r adroddiad yn gallu asesu'n ddibynadwy sut y datblygodd deilliannau dros amser, gwneud cymariaethau ystyrion rhwng ysgolion, na sefydlu pa elfennau o'r rhaglen oedd fwyaf effeithiol mewn gwahanol leoliadau. Mewn ymateb, gwnaed penderfyniad i ymestyn y gwerthusiad i gwmpasu ehangiad y rhaglen beilot, sy'n cwmpasu pedair cymuned ddysgu ychwanegol. Darperir rhagor o fanylion ym mhennod olaf yr adroddiad hwn, Y camau nesaf.

3. Canfyddiadau Pencampwyr Cyrhaeddiad

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r canfyddiadau o werthusiad y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad. Mae'n defnyddio mewnwelediadau allweddol o gyfweiliadau ag arweinwyr ysgolion, wedi'u hategu gan wybodaeth gyd-destunol o'r adolygiad pen desg a thrafodaethau wyneb yn wyneb pan fo'n berthnasol. Cyflwynir y themâu yn nhrefn y dyfnder y cawsant eu trafod yn ystod y cyfweiliadau, a chaiff y canfyddiadau a adroddwyd amlaf eu trafod yn gyntaf.

Roedd y trafodaethau'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys eu cymhelliant cychwynnol dros ymuno â'r rhaglen, damcaniaeth gychwynnol y cyfranogwyr ar sut y byddai Pencampwyr Cyrhaeddiad yn sbarduno newid, mewnwelediadau i'r ffordd y lluniwyd y cynlluniau gweithredu, a deilliannau canfyddedig ar gyfer dysgwyr, staff yr ysgol a pholisïau'r ysgol. Yn ogystal, mae'n amlinellu barn arweinwyr ysgolion ar ddulliau posibl o ehangu'r rhaglen ac yn crynhoi eu hargymhellion ar gyfer mentrau tebyg yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru.

3.1 Trosolwg o weithgareddau partneriaeth

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau gweithredu pum partneriaeth. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig yn bennaf ar adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), 'Mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad: adroddiad o effaith ymestyn rhaglen beilot Pencampwyr Cyrhaeddiad' (heb ei gyhoeddi), ac wedi'i ategu gan ganfyddiadau o gyfweiliadau i esbonio'n fanylach y sail resymegol dros ddewis gweithgareddau.

3.1.1 Ysgol Penrhos, Ysgol Gynradd Maendy, ac Ysgol Gynradd Gymunedol Glenboi

Yn y triawd hwn, dilynodd yr ysgolion broses gam wrth gam a oedd yn cynnwys cydweithio rhwng arweinwyr, modelu data, a llais dysgwyr. Cytunodd arweinwyr ar flaenoriaethau cyffredin, gwnaethant ymweld ag ysgolion ei gilydd i ddeall gwahanol gyd-destunau, a gwnaethant ddefnyddio arolwg sylfaenol ar y cyd i greu man cychwyn cyffredin. Awgrymodd y partner a gyflogwyd fel mentor i ddechrau ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i ddadansoddi data [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#) (MALIC), a mireiniodd y grŵp hyn gyda'i gilydd i gynllunio'r camau nesaf.

Adroddodd arweinwyr ysgolion fod llais y dysgwyr yn ategu'r gwaith arweinyddiaeth a data. I ddechrau, rhannodd y dysgwyr straeon am sut yr effeithiodd tlodi ar eu bywydau beunyddiol a'u dysgu, yna fe wnaethon nhw gwrdd yng Nghaerdydd i gymharu profiadau a chytuno ar flaenoriaethau drwy fforwm dysgwyr. Cynhaliodd dysgwyr pob ysgol drafodaethau hefyd, wedi'u cefnogi gan iaith syml ac awgrymiadau gweledol, a ystyriwyd eu bod yn helpu i nodi problemau lleol er mwyn tynnu sylw at wahaniaethau cyd-destunol a llywio penderfyniadau ysgol yn ddiweddarach. I adeiladu eu model, cyfunodd arweinwyr feysydd MALIC (megis incwm, tai, iechyd, mynediad at wasanaethau, a chydlyniant cymunedol) â dull dadansoddi methiannau wedi'i addasu o ddadansoddiad modd methiant, effeithiau a chritigolrwydd (FMECA) NASA, i gynhyrchu sgoriau risg rhifiadol. Dewiswyd dadansoddi methiannau fel ffordd strwythuredig o archwilio pwyntiau methiant posibl mewn cynllun neu system, fel y gellir rhagweld a lleihau risgiau. Amcangyfrifodd yr offeryn hwn y tebygolrwydd o lwyddiant neu fethiant ar gyfer gwahanol ymyriadau wrth nodi sut y gallai problemau fel trafndiaeth annibynadwy neu dai ansefydlog atal dysgwyr rhag mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fe wnaethant hefyd ddatblygu C MAP, teclyn a gefnogir gan ddeallusrwydd artiffisial a ddadansoddodd ddata MALIC i nodi gwendidau lleol a'u cysylltu â meysydd â blaenoriaeth wedi'u rhestru.

Rhoddodd cynlluniau gweithredu a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial argymhellion wedi'u teilwra i bob ysgol. Dywedodd arweinwyr ysgolion, er bod rhai wedi cadarnhau problemau presennol, fel bylchau mewn mynediad at wasanaethau, eu bod mewn rhai achosion wedi datgelu cyfleoedd newydd. Er enghraifft, mewn un ardal â chyfradd anarferol o uchel o fusnesau bach newydd, awgrymodd y canfyddiadau y gallai datblygu sgiliau entrepreneuriaidd fod yn arbennig o berthnasol i fyfyrwyr. Cyfrannodd y canfyddiad hwn at gynllun gweithredu'r ysgol, gan arwain at ddeilliannau, fel siop fwyd ysgol a phantri cymunedol, oedd wedi'u hymgorffori yn themâu'r cwricwlwm, lle roedd myfyrwyr yn

cynllunio, cynhyrchu a gwerthu nwyddau. Teimlai arweinwyr yr ysgol fod y prosiect nid yn unig wedi cefnogi mynediad at fwyd a lleihau stigma ond hefyd wedi creu rhywfaint o incwm ychwanegol i'r ysgol.

Roedd gweithredu'r cynlluniau gweithredu a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial yn cyfuno camau gweithredu tymor byr a hirdymor. Gwnaeth rhai ysgolion newidiadau ar unwaith, fel gwella mynediad at fwyd a rheolau gwisg ysgol, ac ehangu cwnsela a chefnogaeth gan gymheiriaid. Canolbwyntiodd eraill ar faterion amgylcheddol fel lleihau sbwriel a thai oer. Parhaodd ysgolion hefyd â chymorth ymarferol, fel banciau bwyd ac ymgyrchoedd cyfnewid gwisg ysgol, a defnyddiodd offer dadansoddol i flaenoriaethu anghenion sefydliadol a system ehangach. Teimlai'r cyfranogwyr hefyd fod y gweithgareddau hyn wedi helpu i leihau stigma, er bod hyn wedi'i adrodd gan y cyfranogwyr eu hunain ac nad oedd tystiolaeth fesuradwy yn ei gefnogi.

Dewiswyd gweithgareddau o dan gwmpas mynd i'r afael â heriau dyfnach, systemig yn hytrach na materion tymor byr neu ynysig na all ysgolion ddylanwadu arnynt yn uniongyrchol. Y nod oedd datblygu model ymarferol, addasadwy ar gyfer ysgolion, gan ganolbwyntio ar broblemau a allai, os na fyddent yn cael eu datrys, gael canlyniadau hirdymor. Roedd y dull hefyd yn pwysleisio teilwra ymyriadau i gyd-destunau lleol, defnyddio adnoddau'n effeithlon, a mynd i'r afael â ffactorau fel iechyd y cyhoedd ac amodau amgylcheddol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau beunyddiol a dysgu dysgwyr.

3.1.2 Ysgol Uwchradd Islwyn ac Ysgol Uwchradd Cathays

Canolbwyntiodd y bartneriaeth hon ar wella deilliannau i ddysgwyr dan anfantais drwy ymgorffori tegwch mewn arferion sicrhau ansawdd ysgolion a thrwy ailstrwythuro cymorth bugeiliol a thargedig fel bod dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cael sylw a chymorth yn gyson.

Cynhaliodd arweinwyr ymweliadau cymheiriaid i nodi arferion trosglwyddadwy ac yna ffurfiolwyd dau ddull a oedd yn ategu ei gilydd. Yn Ysgol Cathays, cafodd dysgwyr oedd yn profi tlodi eu cynnwys ym mhob proses sicrhau ansawdd, a defnyddiwyd cylch cynllunio gweithredu sy'n ymatebol i fod yn agored i niwed (VRAP) i gasglu data llesiant, presenoldeb a chyrhaeddiad ochr yn ochr â chael sgysiau â dysgwyr i benderfynu ar y camau gweithredu. Yn Ysgol Islwyn, penodwyd staff yr ysgol nad ydynt yn addysgu yn bencampwyr ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a rhoddwyd y dasg iddynt o fentora, hyfforddi a goruchwyllo presenoldeb ac agweddau dysgu, tra oedd archwiliad Diogelu rhag Tlodi yn nodi costau cudd (e.e. costau gwisg ysgol a chludiant), a blaenoriaethwyd cyllid y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) tuag at fentor pwrpasol i ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar gyfer pob blwyddyn grŵp ac i ddarparu tiwtora preifat i ddysgwyr CA4. Yn ogystal, ailstrwythurodd yr ysgol ei chymdeithas rhieni ac athrawon i dargedu ymdrechion codi arian ac ymgysylltu rhieni tuag at gefnogi teuluoedd sy'n wynebu caledi ariannol. Archwiliodd y ddwy ysgol diwtora wedi'i dargedu a chreu sianeli cymorth niwtral, fel cyfeiriad e-bost canolog i ddadbersonoli ceisiadau am gymorth ariannol, neu drwy'r pencampwyr pwrpasol ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, i leihau stigma.

Yn Ysgol Cathays, roedd llais y dysgwyr yn ymestyn y tu hwnt i ymgynghori. Roedd grwpiau o ddysgwyr wedi'u targedu sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau sicrhau ansawdd a VRAP a grybwyllir uchod, i lunio cynlluniau cymorth ac adborth athrawon (e.e. craffu ar waith, arsylwadau gwersi, dilysu mewnol Estyn). Yn Ysgol Islwyn, tynnwyd sylw at y model pencampwyr fel modd o ddarparu pwynt cyswllt sefydlog i ddysgwyr a theuluoedd, gyda phresenoldeb a rhwystrau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu huwchgysfeirio trwy gyswllt rhwng timau bugeiliol a chwricwlwm.

Disgrifiodd y bartneriaeth yr hyn yr oeddent yn ystyried yn arwyddion cynnar calonogol. Yn Ysgol Cathays, cynyddodd presenoldeb dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim 2.2%, a dangosodd sicrhau ansawdd gynnydd cadarnhaol. Cynhyrchodd cyfarfodydd VRAP gynlluniau gweithredu, gan helpu staff i weld yr hyn a weithiodd a gwneud addasiadau cyflym. Yn Ysgol Islwyn, roedd mwy o bencampwyr dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wrthi'n cael eu cyflwyno, gyda chynllun cyflwyno llawn ar gyfer y tymor nesaf. Dechreuodd tiwtora wedi'i dargedu ar gyfer rhai dysgwyr CA4, a helpodd yr archwiliad Diogelu rhag Tlodi i ail-lunio gweithgarwch codi arian a lleihau stigma ynghylch cymorth ariannol. Roedd y ddwy ysgol yn cydnabod budd defnyddio cyllid PDG ar gyfer rolau parhaol ac ymgorffori gwiriadau tegwch mewn sicrhau ansawdd rheolaidd yn lle prosiectau tymor byr.

3.1.3 Ysgolion cynradd Tregatwg, Trewiliam a Bryn Celyn

Nod y triawd hwn o ysgolion cynradd oedd lleihau rhwystrau i ddysgu sy'n gysylltiedig â thlodi trwy ddull sy'n seiliedig ar ymchwil ac sydd wedi'i angori yn y gymuned. Roedd y dull a gymerodd yr ysgolion yn cyfuno adolygiadau o dystiolaeth, ymweliadau gan gymheiriaid (gan gynnwys ag Iwerddon ac UDA) – a ariannwyd ar wahân ac na alluogwyd gan y cynllun peilot penodol hwn – ac adborth gan ddysgwyr, staff, llywodraethwyr a phartneriaid i ddylunio strategaethau sy'n briodol i'r cyd-destun. Fe wnaethant fframio penderfyniadau drwy hierarchaeth anghenion Maslow ([Maslow, 1943](#)), gan flaenoriaethu bwyd, diogelwch a pherthyn, a chanolbwyntio ar gryfhau ansawdd addysgu, arferion presenoldeb perthynol – hyrwyddo presenoldeb drwy gydberthnasau cadarnhaol a diwylliant ysgol cefnogol – a chymorth amlasiantaethol cydlynol.

Canolbwyntiodd eu gwaith cychwynnol ar egluro diffiniadau cyffredin o dermau allweddol, fel tlodi, tegwch, a 'chau'r bwllch'. Myfyriodd pob ysgol yn fewnol ar yr hyn y mae'r cysyniadau hyn yn ei olygu yn ei chyd-destun ei hun cyn dod ynghyd i gymharu safbwyntiau. Fe wnaethon nhw hefyd ymgysylltu â dysgwyr mewn trafodaethau am ddiogelwch, llesiant a thegwch, gan ddefnyddio fframwaith Estyn ar lesiant a chynhwysiant fel canllaw. O'r fan honno, dechreuodd yr ysgolion ddatblygu camau gweithredu penodol i'r cyd-destun.

Y prif ffocws a rennir oedd archwilio aildychmygu'r diwrnod ysgol, h.y. archwilio'r ffordd y gallai amseroedd cychwyn a gorffen gefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn well. Gan dynnu ar arsylwadau o raglen [Cyflwyno Cyfle Cyfartal mewn Ysgolion](#) Iwerddon ac ymchwil sy'n bodoli eisoes, fel [Thinking Allowed on Schooling](#) gan Mick Waters, fe wnaethant adeiladu achos busnes ar gyfer addasu'r diwrnod ysgol i ddiwallu anghenion eu

cymunedau'n well. Rhoddwyd blaenoriaeth i hyn oherwydd, ym mhob lleoliad, roedd yn ymddangos bod dysgwyr wir yn ei chael yn anodd ddod i'r ysgol ar amser.

Maes ffocws allweddol arall oedd archwilio cost tlodi i ysgolion, gan archwilio sut roedd strwythurau ariannu ar draws tri awdurdod lleol yn effeithio ar gyllidebau a'r gallu i ddiwallu anghenion dysgwyr. Adroddwyd y dadansoddiad hwn i Lywodraeth Cymru yn y gobaith o lywio adolygiadau ariannu yn y dyfodol. Ymchwiliodd y grŵp hefyd i fodel [ysgolion partneriaeth gymunedol](#), gan dynnu ar ymweliad cydweithiwr â Florida i weld sut roedd modelau o'r fath yn gweithredu yno, ac olrhain sut roedd y syniadau hyn yn cael eu datblygu o fewn eu hawdurdod lleol eu hunain.

Adroddodd arweinwyr ysgolion a gymerodd ran yn ansoddol effeithiau cynnar a oedd yn berthnasol i well parodrwydd dysgwyr i ddysgu, llai o ddigwyddiadau ymddygiad, ac ymgysylltu cryfach wrth i gymorth llesiant gael ei ymgorffori. Mae'r effeithiau a adroddwyd yn adlewyrchu'n agos amcanion craidd ysgolion bro, gan dynnu sylw at gysylltiad posibl rhwng y gwelliannau a welwyd a'r dull a ddilynir gan ysgolion bro. Er bod y rhaglen wedi dod i ben, cafodd y tîm ymchwil wybod am gamau nesaf y bartneriaeth, sy'n cynnwys dyfnhau arferion sy'n ystyrlon o fodel Maslow, cynnal systemau presenoldeb perthynol, ehangu partneriaethau cymunedol, ac eirioli dros aliniad polisi drwy'r Adolygiad Haen Ganol i gefnogi addysg amlasiantaethol, seiliedig ar le, ar raddfa fawr.

3.1.4 Ysgol Uwchradd Whitmore, Ysgol Bryn Alyn ac Ysgol Aberdaugleddau

Canolbwyntiodd y triawd hwn o ysgolion uwchradd ar adolygu asesiadau i wella deilliannau i ddysgwyr dan anfantais ar draws tri chyd-destun rhanbarthol gwahanol. Nod cychwynnol y prosiect oedd cyflwyno model wythnos asesu ysgol gyfan, wedi'i ysbrydoli gan arferion asesu a welwyd mewn ysgol yn y Barri, lle mae pob dysgwr yn cwblhau arholiadau yn ystod wythnos bwrpasol cyn y Nadolig, gyda gwers adolygu cyn pob asesiad. Y syniad oedd darparu cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr ddatblygu sgiliau astudio a deall gwerth asesiadau o fewn y diwrnod ysgol. Yn ystod yr ymweliadau, cyfnewidiodd y grŵp strategaethau ehangach hefyd ar faterion fel gwaharddiadau ar ffonau symudol a dysgu yn yr awyr agored, gan gydnabod bod gwelliant academiaidd hefyd yn dibynnu ar ymgysylltu a chysondeb.

Cafodd y pwyslais ar asesu ei yrru yn ei flaen gan yr arsylwad bod dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn tanberfformio mewn asesiadau oherwydd materion fel cyfrifoldebau teuluol, gwaith rhan-amser neu amodau astudio annigonol (megis diffyg lle neu dawelwch). Oherwydd bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn fwyaf amlwg mewn asesiadau, roedd yr ysgolion yn blaenoriaethu strategaethau academiaidd dros gymorth fugeiliol, yr oedd eisoes yn gryf yn eu barn hwy. Tynnodd arsylwadau mewn ysgol yn y Barri sylw at arferion effeithiol, gan gynnwys dyrannu amser gwersi ar gyfer adolygu ac addysgu strategaethau astudio yn benodol, gan roi sylw arbennig i ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim nad oes ganddynt o bosibl y cyfleoedd hyn gartref.

Cysylltodd arweinwyr benaethiaid gwyddoniaeth, mathemateg a Saesneg ar draws ysgolion i rannu addysgeg gwahanol bynciau, eu gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, adnoddau, ac arferion monitro. Cafodd fframwaith asesu a rennir ei gydlunio a'i dreialu yn Ysgol Bryn Alyn drwy wythnos asesu ar y cyd, gan alluogi cymedroli ar draws yr ysgolion. Cynhwyswyd carfanau difreintiedig o fewn monitro cyfadrannau fel bod ystyriaethau tegwch wedi'u hymgorffori mewn sicrhau ansawdd arferol yn hytrach na'u trin fel menter ar wahân.

3.1.5 Ysgol Coed-y-gof, Ysgol y Bedol ac Ysgol Pencae

Archwiliodd y triawd hwn sut y gellid addasu addysgeg i ddiwallu anghenion dysgwyr yr effeithir arnynt gan dlodi yn well fel rhan annatod o addysgu a dysgu. Canolbwyntiodd eu hymchwiliad ar y cyd, 'Ein Cynefin, Ein Cyfrifoldeb', ar ddysgu seiliedig ar ymholi yn yr awyr agored ac ar gael gwared ar rwystrau sy'n gysylltiedig â chostau o fewn trefn yr ysgol fel y gallai pob dysgwr brofi ymdeimlad cryfach o berthyn. Mae pob ysgol yn gwasanaethu cymunedau lle mae anfantais yn realiti beunyddiol, a hysbysodd y grŵp y tîm ymchwil mai sail eu cydweithrediad yw cred gyffredin bod ailystyried addysgu trwy lens tegwch yn gam hanfodol ar gyfer gwella ymgysylltu, llesiant a dysgu.

Roedd cam cychwynnol y gwaith yn cynnwys arolygon gyda dysgwyr a staff. Adroddwyd bod dysgwyr wedi tynnu sylw at y ffaith bod tlodi wedi dylanwadu ar eu profiad ysgol mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys cost teithiau, mynediad at wisg ysgol ac offer hanfodol, argaeledd bwyd, cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol, mynediad at gyfleusterau, a'r angen am gymorth emosiynol cyson. Roedd achosion pan ddisgrifiodd dysgwyr gywilydd, gan deimlo eu bod wedi cael eu "heithrio" pan nad oeddent yn gallu fforddio cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol. Roedd ymatebion y staff yn adleisio'r pryderon hyn, gan nodi bod rhai dysgwyr wedi cyrraedd yn flinedig, yn llwglyd neu'n orbryderus, a oedd yn effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio a chymryd rhan. Pwysleisiodd athrawon yr angen am arferion ystafell ddosbarth a oedd yn amddiffyn urddas dysgwyr wrth eu helpu i fod yn barod i ddysgu.

Mewn ymateb i'r mewnwelediadau hyn, cyd-luniodd y triawd gytundeb staff i gefnogi dull cyson a oedd yn 'diogelu rhag tlodi' ar draws yr ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys mynediad cynnil at fwyd a gwisg ysgol, croesawu'r rhai a gyrhaeddodd yn hwyr heb farn, a sicrhau y gallai pob dysgwr gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol. Roedd datblygiad addysgegol yn canolbwyntio ar 'Ein Cynefin, Ein Cyfrifoldeb', gydag athrawon yn cynllunio dilyniannau dysgu awyr agored dwyieithog, wedi'u harwain gan ymholi, wedi'u cysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd dysgu proffesiynol yn defnyddio tystiolaeth am fetawybyddiaeth a dysgu hunanreoleddig i wella hyder dysgwyr a'u gallu i fod yn annibynnol, yn enwedig yn achos y rheini sy'n rheoli straen sy'n gysylltiedig ag anfantais. Drwy gynllunio ar y cyd, ymweliadau ac ymarfer myfyriol, mae'r triawd wedi nodi eu bod wedi meithrin dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgu yn y byd go iawn ysgogi dysgwyr, meithrin cydberthnasau, ac ymgorffori cydraddoldeb mewn addysgu beunyddiol.

Disgrifiodd staff yr ysgolion gynnydd canfyddedig mewn ymgysylltu, fel canolbwyntio gwell a llai o encilio cymdeithasol, yn enwedig pan oedd dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol ar ffurf profiadau. Adroddwyd bod cymorth emosiynol a chymdeithasol well yn helpu i fynd i'r afael â gorbryder, embaras a hunanymwybyddiaeth

sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau cartref. Roedd y gwaith hefyd yn annog athrawon i fyfyrion ddyfnach ar eu haddysgeg eu hunain – er enghraifft, ailystyried sut maen nhw'n ymateb i ddisgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr a chydabod y ffactorau sy'n gysylltiedig â thlodi a all lunio profiadau dyddiol dysgwyr. Darparodd cytundeb staff a rennir y triawd fframwaith ymarferol ar gyfer ymateb i'r anghenion hyn a sicrhau bod cynhwysiant, mynediad a llesiant yn ganolog i ymarfer bob dydd.

3.2 Damcaniaeth newid

3.2.1 Ynglŷn â'r fframwaith damcaniaeth newid

Mae fframwaith damcaniaeth newid yn dangos sut mae polisi, ymyriad neu raglen yn arwain at newid. Mae'n amlinellu sut y bwriedir i adnoddau a fuddsoddwyd (mewnbynnau) a gweithgareddau arwain at gynhyrchion uniongyrchol (allbynnau), y disgwylir iddynt yn eu tro gyfrannu at amcanion polisi ehangach (deilliannau ac effeithiau). Yn y dadansoddiad hwn, mae'r ddamcaniaeth newid yn nodi sut y gellid cyflawni nodau Pencampwyr Cyrhaeddiad a sut y gellid creu newid ystyrlon. Mae hefyd yn darparu sylfaen ddamcaniaethol sy'n sail i fethodoleg y gwerthusiad. Y tu hwnt i'w rôl fel offeryn gwerthuso, mae'r ddamcaniaeth newid yn adnodd gwerthfawr i arweinwyr polisi canolog ac arweinyddiaeth ysgolion, gan lywio eu hymdrechion i leihau effeithiau negyddol tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Datblygwyd damcaniaeth newid Pencampwyr Cyrhaeddiad ar y cyd â chyfranogwyr Pencampwyr Cyrhaeddiad yn ystod sesiwn a hwyluswyd wyneb yn wyneb ym mis Gorffennaf 2025. Cyflwynir y ddamcaniaeth newid yn fanylach yn Atodiad B: Damcaniaeth newid Pencampwyr Cyrhaeddiad.

3.2.2 Damcaniaeth newid Pencampwyr Cyrhaeddiad

3.2.2.1 Mewnbynnau a gweithgareddau

Yn y ddamcaniaeth newid ar gyfer Pencampwyr Cyrhaeddiad, mae'r **mewnbynnau'n** cynrychioli'r cronfeydd, yr adnoddau a'r canllawiau sy'n tanategu'r rhaglen. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- cyllid: Cyllid i dalu am amser staff ac arweinyddiaeth i alluogi cyfranogiad
- staffio: Amser ac arbenigedd y penaethiaid sy'n cymryd rhan
- cydgysylltu gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL): Adolygu, monitro a chydlynu gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol
- arweiniad a hyfforddiant: Wedi'u darparu gan NAEL (rhaglen sefydlu deuddydd)

Mae'r **gweithgareddau'n** cynrychioli'r camau gweithredu a'r prosesau y mae'r rhaglen yn cael ei chyflawni drwyddynt ac mae mewnbynnau'n cael eu trosi'n allbynnau drwyddynt. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- recriwtio a phenodi ysgolion: Dewis ysgolion gydag arweinwyr ymroddedig i gymryd rhan yn y rhaglen

- partneriaeth a ffurfio triawdau: Creu rhwydweithiau cydweithredol bach o hyd at ddwy ysgol (yn y cyfnod peilot cychwynnol) neu dair ysgol (yn yr ail gyfnod peilot)
- mentora rhwng cymheiriaid: Partneriaid o'r un anian yn rhannu arbenigedd ac yn cydweithio ar faterion a rennir
- trafodaethau bord gron (Cam 1 yn unig): Mae penaethiaid yn mynychu trafodaethau bord gron gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg i roi gwybod am y gwersi a ddysgwyd

3.2.2.2 Allbynnau

Mae'r **allbynnau'n** cynrychioli cynhyrchion pendant gweithgareddau pob partneriaeth. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- dysgu cydweithredol: Partneriaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymwybyddiaeth, sgiliau a hyder wrth fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi
- arweinwyr wedi'u hyfforddi: Cafodd penaethiaid a gymerodd ran eu hyfforddi trwy sesiynau profiad dysgu proffesiynol dan arweiniad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol
- cynlluniau gweithredu: Mae partneriaethau'n datblygu strategaethau penodol i'r cyddestun sy'n mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi a nodwyd ac yn adeiladu ar arferion llwyddiannus a brofwyd
- rhannu gwybodaeth o fewn y rhaglen: Dysgu a thystiolaeth a rennir o fewn triawdau a rhyngddynt

3.2.2.3 Deilliannau ac effeithiau

Mae'r deilliannau a'r effeithiau yn cynrychioli'r newidiadau tymor byrrach a thymor hwy y mae'r rhaglen yn ceisio eu cyflawni, yn y drefn honno.

Dyma **ddeilliannau** bwriadedig y rhaglen:

- newidiadau cychwynnol mewn ymddygiad ac agweddau: Newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau ymhlith arweinwyr tuag at dlodi a'i effeithiau ar addysg
- arweinwyr sydd wedi'u huwchsgilio: Trwy ddysgu cydweithredol rhwng cymheiriaid
- ymdeimlad cryfach o hunan-effeithiolrwydd: Wrth ddefnyddio'r strategaethau cywir i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad
- addasiadau cychwynnol o ymarfer: Newidiadau cynnar mewn dulliau ysgolion o gefnogi dysgwyr o gartrefi incwm is
- cydberthnasau proffesiynol cryfach: Datblygu rhwydweithiau cymorth cymheiriaid rhwng arweinwyr ysgolion ac ar draws awdurdodau lleol

Mae'r **effeithiau** tymor hwy bwriadedig ar gyfer y rhaglen fel a ganlyn:

- newidiadau parhaus mewn ymddygiad a diwylliant: Tystiolaeth o newidiadau parhaus mewn diwylliant ac arferion ysgolion sy'n fwy cynhwysol a sensitif i faterion sy'n gysylltiedig â thlodi

- newidiadau mewn arweinyddiaeth addysgol: Diwylliant o gymorth gan gymheiriaid a gwelliant cydweithredol mewn detholiad o ysgolion Cymru
- arferion gorau sefydledig: Dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn llywio strategaethau gwella ysgolion ehangach
- dysgu ar draws y system: Rhannu arferion arloesol ar draws system addysg Cymru

3.3 Canfyddiadau ymchwil sylfaenol

3.3.1 Cyd-destunau ysgol

3.3.1.1 Amddifadedd economaidd-gymdeithasol

Pan ofynnwyd iddynt am nodweddion nodedig eu hysgolion, dywedodd bron pob cyfranogwr fod rhyw fath o amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar eu dyletswyddau. Nodwyd cyfrannau uchel o ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim fel y prif ddangosydd o dlodi yn eu cymunedau. Fodd bynnag, nododd sawl pennaeth hefyd fod gwir raddau'r amddifadedd yn mynd y tu hwnt i'r ffigurau hyn, oherwydd bod llawer o deuluoedd sydd ychydig uwchlaw'r trothwy cymhwysra yn dal i brofi caledi ariannol sylweddol.

“Mae gennym ni dros 1,000 o ddysgwyr ac mae ein dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar hyn o bryd newydd gynyddu, felly rydym ni nawr ar 24%. Y flwyddyn academaidd ddiwethaf roedden ni ar ryw 21.5%, felly mae cynnydd wedi bod. Mae gennym ryw 32% o ddysgwyr sy'n pontio i fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Ac mae hynny bob amser yn frwydr i ni, oherwydd mae hynny'n golygu'n llythrennol, os oes gen i 32% o blant sy'n pontio a 21% o blant sydd eisoes yn gymwys am brydau ysgol am ddim, yna mewn gwirionedd mae gen i dros 50% o blant ar y ffin honno â thlodi” (Arweinydd ysgol)

Mae tlodi yn effeithio ar ddysgwyr mewn gwahanol ffyrdd. Adroddodd rhai cyfranogwyr ei fod yn effeithio ar barodrwydd i ddysgu, gyda rhai plant yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr ac yn llwglyd ac yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio yn y dosbarth neu berfformio'n dda mewn arholiadau oherwydd ffactorau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Roedd hefyd yn gysylltiedig â phroblemau fel tai gwael, ansicrwydd bwyd a straen rhieni, a all hefyd gyfrannu at heriau ymddygiadol yn yr ysgol. Tynnodd un cyfranogwr sylw hefyd at agwedd ryng-genedlaethol ar dlodi, gyda'u hysgol yn gwasanaethu dysgwyr o deuluoedd sydd wedi profi dirywiad economaidd hirdymor. Mae hyn wedi llunio dyheadau a disgwyliadau cyffredinol dysgwyr, gyda staff yn sylwi y gall amddifadedd gyfyngu ar ymdeimlad plant o'r hyn y gellir ei gyflawni.

“Mae tlodi wedi effeithio ar eu meddylfryd ynglŷn â'r hyn sy'n bosibl [...] Os ydych chi'n rhoi canmolïaeth i blant, dydyn nhw ddim yn tueddu i'w dderbyn yn dda iawn. Dydyn nhw ddim yn eich credu chi o gwbl.” (Arweinydd ysgol)

3.3.1.2 Rhwystrau ychwanegol i ddysgu

Y tu hwnt i amddifadedd economaidd-gymdeithasol, adroddodd cyfranogwyr fod rhwystrau ychwanegol hefyd yn deillio o fyrhoedledd a symudiad parhaus dysgwyr. Yn aml, nid yw

ysgolion yn cael eu hystyried yn amgylcheddau sefydlog, ac mae'n rhaid i athrawon addysgu plant a allai drosglwyddo rhwng ysgolion ac ardaloedd o fewn un flwyddyn academaidd, gan wneud eu gwaith yn anos.

“Mae mwy o newydd-ddyfodiaid wedi dod i mewn sy'n dod o gefndiroedd hollol wahanol i'r hyn sy'n draddodiadol i'r ardal.... Nid oedd 15% o blant yr ysgol gyda ni ar ddechrau'r flwyddyn.” (Arweinydd ysgol)

Adroddwyd bod gwahaniaethau ieithyddol yn rhwystr pellach mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Er enghraifft, nododd cyfranogwr fod mwyafrif helaeth eu myfyrwyr ysgol yn amlieithog ac yn dal i ddatblygu eu sgiliau Saesneg, tra soniodd cyfranogwr arall, pennaeth ysgol cyfrwng Cymraeg, nad yw'r rhan fwyaf o'u dysgwyr yn siaradwyr Cymraeg, gan gyflwyno her ychwanegol nad yw wedi'i datrys.

“Mae mwyafrif y dysgwyr yn ein hysgol yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Mae elfen ieithyddol yn rhan o ddysgu hefyd. Mae targedu tlodi pan nad yw iaith gartref yr un fath ag yn yr ysgol yn her ynddo'i hun.” (Arweinydd ysgol)

3.3.1.3 Rhaglenni a blaenoriaethau ychwanegol

Mewn perthynas â rhaglenni tebyg eraill y maent wedi bod yn rhan ohonynt, nododd dau gyfranogwr eu bod yn gweithio ar y rhaglen Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Difreintiedig (RADY), a soniodd un am gymryd rhan yn y fenter Diogelu rhag Tlodi.

3.3.2 Sefydlu'r bartneriaeth

3.3.2.1 Cymhelliant dros ymuno

Pan ofynnwyd iddynt am eu cymhelliant dros ymuno, nododd y cyfranogwyr ddau brif reswm. Y cyntaf, a oedd yn fwy cyffredin ymhlith y rhai a neilltuwyd i rôl y mentor i ddechrau, oedd ymdeimlad o hygyrddedd proffesiynol. Yn yr achosion hyn, teimlai'r cyfranogwyr fod eu profiad wedi'u rhoi mewn sefyllfa dda i gymryd rhan a rhannu eu harbenigedd ag ysgolion eraill, yn enwedig y rheini y tu allan i'w clwstwr. Deilliodd yr ymdeimlad hwn o hygyrddedd naill ai o'u henw da proffesiynol eu hunain, mentrau blaenorol yr oeddent wedi'u harwain, neu gyfranogiad blaenorol mewn rhaglenni o gwmpas tebyg, fel RADY.

“Y rheswm roeddwn i am gymryd rhan oedd oherwydd fy mod i eisiau rhannu fy ymarfer. Rwy'n unigryw fel pennaeth ac roeddwn i eisiau rhannu'r arferion â phobl eraill oherwydd mae yna lawer o bethau rwy'n eu clywed a'u darllen, ac rwy'n credu nad ydyn nhw'n iawn. Tybiaethau ydyn nhw ac nid ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth [...] Roeddwn i am ddod yn wirfoddolwr yn y bôn.” (Arweinydd ysgol)

Roedd yr ail reswm, a oedd yn fwy cyffredin ymhlith y rhai a gymerodd ran yn y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad fel menteion, yn gysylltiedig â'r cymhelliad ariannol. Roedd penaethiaid yn ystyried y rhaglen yn gyfle i sicrhau cyllid i gefnogi dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a helpu i gau'r bwlch cyrhaeddiad. Roeddent hefyd yn ei ddeall fel menter ategol a oedd yn cyd-fynd â'u diddordebau a'u cyfrifoldebau proffesiynol, gan roi amser â thâl iddynt gamu'n ôl o ddyletswyddau dyddiol a llunio strategaethu.

“Roedd cymhelliad ariannol yn bendant, oherwydd gallem ddefnyddio'r cyllid hwnnw wedyn i gefnogi'r dysgwyr hynny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Roedd hynny'n wirioneddol allweddol i mi. Roedd wedi caniatáu i mi ganolbwyntio ar hyn i gyd, a rhoddodd hefyd y cyllid i ni i'n galluogi i wneud hynny. Y rheini oedd y prif ysgogwyr i ni.” (Arweinydd ysgol)

3.3.2.2 Damcaniaeth gychwynnol

I'r rhan fwyaf o gyfranogwyr, roedd y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad wedi'i dychmygu i ddechrau fel un a oedd yn cynnwys elfen gydweithredol yn bennaf. Fe'i canfuwyd fel rhaglen oedd wedi'i chynllunio i greu cyfleoedd i gyfarfod, trafod a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol o'r un anian, gan rannu gwybodaeth a dysgu o lwyddiannau eraill – rhywbeth a ystyriwyd yn beth da yn ei hanfod. Elen arall a ystyriwyd yn arbennig o werthfawr o'r cychwyn cyntaf oedd y cyfle i gydweithio ledled Cymru, gan ymestyn ymgysylltu yn ddaearyddol y tu hwnt i'w clwstwr neu awdurdod lleol uniongyrchol. Cydnabu rhai cyfranogwyr, er eu bod yn wybodus yng nghyd-destun eu hysgol eu hunain, fod camu y tu allan i'w clwstwr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu mwy.

“Mae cydweithio ag ysgolion eraill yn bwysig iawn oherwydd, yn amlwg, gallwch chi edrych ar eich senario eich hun ac weithiau rydyn ni [penaethiaid] mewn swigen fawr. Rydyn ni'n adnabod ein hysgolion yn drylwyr, ond os ydyn ni'n edrych ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad ledled Cymru, mae angen i ni edrych hefyd ar yr hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r wlad.” (Arweinydd ysgol)

“Roedd y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad yn rhywbeth roeddwn i wir yn awyddus i fod yn rhan ohoni oherwydd y lefel uchel o amddifadedd sydd gennym ni yma ac oherwydd y byddai gen i'r cyfle i gwrdd â phenaethiaid a chydweithwyr o'r un anian o bob cwr o Gymru. Roedd hynny'n brofiad gwirioneddol bwysig i mi allu dysgu ohono. Hefyd, roeddwn i am ddechrau meddwl yn ddyfnach am sut y gallwn ni ddechrau edrych ar ddiogelu ein hysgolion rhag tlodi, a fydd yn her fawr yn y dyfodol.” (Arweinydd ysgol)

Ar wahân i'r elfen gydweithredol, a oedd wedi'i hymgorffori'n strwythurol yn y rhaglen o'r cychwyn cyntaf, ni wnaeth y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr adrodd am unrhyw ddamcaniaethau cychwynnol eraill ynghylch sut y byddai'r rhaglen yn gweithio, nac am ba agweddau penodol ar dlodi y byddent yn anelu at fynd i'r afael â nhw. Roedd y mwyafrif yn parhau i feddu ar safbwynt agnostig. Disgrifiodd dau gyfranogwr hyn fel nodwedd gadarnhaol, gan awgrymu ei fod yn adlewyrchu cydnabyddiaeth o natur gyfnewidiol tlodi a pharodrwydd i aros yn agored i faterion a allai fod wedi cael eu hanwybyddu fel arall.

“Pan ddechreuais i, doedden ni ddim yn gwybod beth roedden ni'n mynd i'w ddarganfod. Rydw i'n meddwl dyna pam ei fod yn ddarn mor ddefnyddiol o waith. Oherwydd rydw i'n meddwl weithiau, eich bod chi'n gwybod yr atebion i'r problemau, ond mae'n anodd cael unrhyw un arall i wrando ar yr hyn sydd angen digwydd.” (Arweinydd ysgol)

3.3.3 Llunio'r cynllun gweithredu

Adroddodd bron pob cyfranogwr fod eu cynlluniau gweithredu wedi'u llunio gan ryw gyfuniad o ddata lleol, ymgynghori, arsylwi a barn broffesiynol, yn hytrach na chan reddf yn unig. Roedd y broses o lunio cynllun gweithredu yn cynnwys naill ai ymgynghori â thystiolaeth bresennol neu ymgysylltu'n uniongyrchol â'u hamgylchedd ysgol, neu, mewn rhai achosion, y ddau.

3.3.3.1 Cynlluniau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Fel arfer, byddai'r broses o lunio eu cynllun gweithredu yn dechrau gydag arweinwyr yn ymweld â lleoliadau ysgol ei gilydd ac yn trafod sut y byddent yn nodi blaenoriaethau. Roedd hefyd yn aml yn cynnwys arolygon sylfaenol gyda dysgwyr, staff ac weithiau rhieni/gofalwyr i gofnodi'r man cychwyn ar gyfer pob ysgol ac archwilio blaenoriaethau. Ategodd rhai ysgolion hyn gyda dulliau strwythuredig o ddadansoddi a blaenoriaethu ymyriadau. Er enghraifft, y bartneriaeth a ddefnyddiodd ddeallusrwydd artifisial i fodelu data MALIC, a dulliau fel "dadansoddiad critigol o fethiannau" i nodi a neilltuo sgoriau risg i gamau gweithredu posibl. Yn yr un modd, defnyddiwyd offer fel [Boxall Profile](#) mewn un achos i asesu ymgysylltu a llesiant dysgwyr, gan ddarparu tystiolaeth fesuradwy i lywio penderfyniadau a dyrannu adnoddau.

3.3.3.2 Llais y dysgwyr

Adroddodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod dysgwyr wedi bod yn rhan o ddylunio a gweithredu camau gweithredu i wahanol raddau. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe wnaethant gyfrannu gyda'u safbwyntiau drwy arolygon, trafodaethau ac arsylwadau o amgylcheddau ysgol eraill. Gwnaed hyn i helpu partneriaethau i lunio eu prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch ymyriadau a chmau gweithredu sydd ar ddod.

Nododd rhai cyfranogwyr fod llais y dysgwyr wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar eu cynllun gweithredu, gan gynnwys llywio datblygiad mentrau. Er enghraifft, adroddodd cyfranogwr fod y penderfyniad i ganolbwyntio ar ddysgu yn yr awyr agored wedi deillio'n uniongyrchol o argymhellion dysgwyr Blwyddyn 6. Weithiau, roedd mewnbyn dysgwyr yn tynnu sylw at faterion nad oeddent wedi'u rhagweld, fel cysylltiadau rhwng tlodi a bwlio, a oedd yn llywio addasiadau i drefn yr ysgol, gan gynnwys cyflwyno "dechreuadau meddalach" i'r diwrnod ysgol i gefnogi llesiant a pharodrwydd i ddysgu.

"Gwnaethon ni ddiwrnod hyfforddi, gan anfon ein holl staff a dysgwyr o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 i ysgol yn y Gogledd. Fe wnaethon nhw i gyd ddysgu gyda'i gilydd, gan lunio cyfres o brofiadau dysgu a gwersi. Roedden nhw'n awyddus i ganolbwyntio ar ddysgu yn yr awyr agored ac roedd pob dosbarth yn gwneud prosiect gwahanol am hynny." (Arweinydd ysgol)

3.3.4 Effaith ganfyddedig

Pan ofynnwyd iddynt am effaith Pencampwyr Cyrhaeddiad o fewn amgylchedd eu hysgol, eglurodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (gyda rhai eithriadau) ei bod yn anodd pennu canlyniadau uniongyrchol a mesuradwy. Roedd hyn naill ai oherwydd nad oedd yr

ymyriadau a weithredwyd wedi'u cynllunio ar gyfer mesur meintiol, nad oeddent yn addas ar gyfer gwerthusiad o'r fath, neu oherwydd ei bod hi'n rhy gynnar i asesu effaith, o ystyried mai dim ond ychydig fisoedd ynghynt yr oedd y rhaglen wedi dod i ben.

“Rydw i'n meddwl bod y rhaglen yn fwy cynnil na hynny, mae'n fwy na'i mewnbynnu i ystadegyn, on'd yw hi? Mae'n anos nag achos ac effaith, on'd yw hi? Ni allwn gysylltu plant yn dod at ei gilydd yn uniongyrchol â phresenoldeb gwell. Mae gennym ffactorau eraill i wneud hynny er mwyn gwella deilliannau.” (Arweinydd ysgol)

Er gwaethaf yr her hon, roedd arweinwyr ysgolion yn hyderus ar y cyfan fod y rhaglen wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol bron yn gyfan gwbl i ddysgwyr, staff yr ysgol, a pholisïau ehangach yr ysgol.

3.3.4.1 Deilliannau i ddysgwyr

Y canlyniad cadarnhaol a nodwyd amlaf i ddysgwyr oedd eu hymgysylltiad cynyddol â mentrau ysgol. Nododd y cyfranogwyr fod cynnwys dysgwyr yn werthfawr am ddau brif reswm. Yn gyntaf, profodd ymdrechion ymgysylltu eu hun yn fuddiol yn ei hanfod; pan gymerodd dysgwyr ran, boed drwy ymchwil neu ymgynghori uniongyrchol, fe wnaethant ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth, gan helpu i lunio strategaethau a blaenoriaethau. Yn ail, fe wnaeth lefel uwch o gyfranogiad ddyfnhau dealltwriaeth y dysgwyr eu hunain o dlodi, ei wahanol ffurfiau, a'r ffyrdd y mae'n effeithio ar eu cymheiriaid, gan feithrin empathi ac ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb cymdeithasol.

“Datblygodd y plant hŷn ymwybyddiaeth well o dlodi [...] Fe wnaethon ni weithio ar draws dosbarthiadau i ddeall safbwyntiau'r plant o ran beth sy'n digwydd os nad oes gan deuluoedd ddigon o arian ar gyfer pethau sylfaenol [...] fe wnaethon ni hefyd geisio cysylltu hynny â'n pantri bwyd, ch'mod, mae'r pantri bwyd yno i helpu os oes angen yr help hwnnw ar bobl.” (Arweinydd ysgol)

Adroddodd rhai cyfranogwyr hefyd am bresenoldeb gwell, a gwnaethant briodoli hyn i ddatblygiadau cadarnhaol mewn perthynas â llesiant dysgwyr. Esboniodd un cyfranogwr, trwy waith a ddatblygwyd trwy Bencampwyr Cyrhaeddiad, fod dysgwyr bellach yn dangos mwy o sefydlogrwydd emosiynol ac agwedd fwy cadarnhaol tuag at ddysgu, gan arwain at ymgysylltu cryfach â bywyd yr ysgol. Gwelwyd bod y gwelliant hwn yn ganlyniad i sicrhau mynediad cyfartal i weithgareddau, teithiau a phrydau bwyd. Tynnodd cyfranogwr arall sylw at y ffaith bod dull mentora wedi helpu'r ysgol i gynnal cydberthnasau cryf â dysgwyr a hybu eu cymhelliant i ddysgu.

“Cawsom hefyd rai ystadegau diddorol i awgrymu, yn y grŵp blwyddyn lle gwnaethom weithredu ein model newydd, fod y dirywiad mewn agwedd at ddysgu yn llawer arafach ac mewn gwirionedd cynyddodd y presenoldeb 2.5% ar gyfartaledd. Efallai fod hynny'n swnio fel nifer cymharol fach, ond o ran presenoldeb mae'n eithaf arwyddocaol.” (Arweinydd ysgol)

Cysylltodd dau gyfranogwr welliannau mesuradwy a adroddwyd â chyrhaeddiad ac, yn benodol, â pherfformiad ar draws pynciau allweddol, er mwyn un achos na fyddent yn gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng achos ac effaith â'r rhaglen.

“Rydyn ni'n dal i ddadansoddi'r hyn a wnaethon ni'r llynedd, yr hyn y byddwn ni'n parhau i'w wneud, a'r hyn fydd yn newid eleni. Nid yw bob amser yn hawdd sefydlu achos ac effaith, ond rwy'n credu bod y dulliau mentora rydyn ni wedi'u mabwysiadu wedi codi dyheadau'r dysgwyr hynny ac wedi'u cefnogi mewn amrywiol ffyrdd.”
(Arweinydd ysgol)

Nid adroddwyd am unrhyw ganlyniadau anfwriadol, ond adroddodd rhai cyfranogwyr nad oeddent wedi cyflawni'r deilliannau yr oeddent wedi bwriadu eu cyflawni mewn perthynas â heriau sydd wedi hen ymwreiddio. Nododd un, er gwaethaf dechrau'r diwrnod ysgol yn hwyrach ac yn fwy ymlaciedig, fod problemau o ran bod yn hwyr yn arferol yn parhau, gyda rhai dysgwyr yn parhau i gyrraedd ar ôl i'r dosbarthiadau ddechrau.

3.3.4.2 Deilliannau i staff yr ysgol

Wrth fyfyrrio ar effaith Pencampwyr Cyrhaeddiad ar staff eu hysgol, ymatebodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod y rhaglen wedi dylanwadu ar eu hymwybyddiaeth a'u safbwynt tuag at dlodi. Mewn rhai partneriaethau, arweiniodd y newid hwn mewn agwedd at ddulliau addysgeg mwy ymatebol, nid yn unig yn gyfyngedig i addysgu ei hun, ond hefyd at gydnabyddiaeth ddyfnach o'r heriau dyddiol y gall dysgwyr eu hwynebu oherwydd tlodi. Mewn eraill, fe helpodd athrawon i ddeall mwy am y cysylltiad rhwng anghenion sylfaenol, llesiant emosiynol, a pharodrwydd i ddysgu. Mewn un achos, adroddodd y pennaeth fod staff yr ysgol bellach yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddarparu cymorth i ddysgwyr o ganlyniad i'r rhaglen.

“Rydym bellach yn fwy ymatebol i wrando ar y plant [...]. Yn meddwl am y goblygiadau iddyn nhw o ddydd i ddydd [...]. Mae angen i ni, fel athrawon, feddwl yn ddyfnach am anghenion pob plentyn yn yr ysgol hon.” (Arweinydd ysgol)

“Yn bersonol, mae wedi gwneud i mi feddwl yn ehangach fel arweinydd am oblygiadau cymdeithas ar yr ysgol [...] nid dim ond addysgu mathemateg a llythrennedd mae'n ei olygu, mae her enfawr, enfawr ehangach yma.” (Arweinydd ysgol)

Mewn rhai achosion, adroddodd cyfranogwyr nad oedd unrhyw effaith weladwy ar staff eu hysgol, yn bennaf oherwydd bod egwyddorion Pencampwyr Cyrhaeddiad eisoes wedi'u hymgorffori yn eu hysgol. Fodd bynnag, cydnabu un cyfranogwr, er y gallent hoffi credu eu bod wedi gwneud cynnydd diwylliannol yn eu proffesiwn, ei bod yn anodd deall newidiadau o'r fath yn llawn ac yn aml dim ond yn yr hirdymor y maent yn amlwg.

Disgrifiodd y cyfranogwr hwn faint o athrawon sy'n dod o gefndiroedd gwahanol iawn i rai eu dysgwyr, a all ei gwneud hi'n heriol cydymdeimlo'n llawn â phrofiadau dysgwyr os nad yw cynnydd o'r fath wedi'i fewnoli'n ddwfn.

“Mae ysgolion yn lleoedd dosbarth canol iawn. Mae athrawon yn dod o gefndiroedd dosbarth canol i raddau helaeth, a dyna un o'r problemau mwyaf yn hyn i gyd yw ceisio helpu eich staff i werthfawrogi'r math o gefndiroedd y mae rhai o'n plant yn dod ohonynt [...]. Beth yw'r effaith, mae hynny'n beth anodd iawn i'w fesur. Oherwydd bydd y rhan fwyaf o athrawon yn dweud wrthyich chi eu bod nhw'n gofalu am

ddysgwyr, ac mae'n debyg bod y rhan fwyaf o athrawon yn gwneud hynny, ond faint maen nhw o reidrwydd yn ymrwymo i hynny yw rhywbeth anodd iawn i mi ei fesur.” (Arweinydd ysgol)

3.3.4.3 Polisiâu ysgol ehangach

Adroddwyd hefyd am ddylanwad ar bolisiâu ysgolion ehangach, gydag ysgolion yn cael eu hannog i wneud addasiadau ymarferol i gefnogi dysgwyr a theuluoedd. Gweithredodd un bartneriaeth fentrau fel ymgysylltu dysgwyr â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a goroeswyr canser i wella deilliannau iechyd cymunedol a darparu gwybodaeth am grantiau ac adnoddau i fynd i'r afael â materion fel tai oer. Mewn un ysgol, arweiniodd gweithgareddau'r Pencampwyr Cyrhaeddiad at greu siop fwyd a phantri cymunedol, a oedd yn ymwneud â dysgwyr yn cynllunio, cynhyrchu a gwerthu eitemau, gan gynhyrchu incwm i'r ysgol wrth osgoi ffyrdd traddodiadol o godi arian a allai fod yn faich ar deuluoedd. Mewn ysgol arall, fe ysgogodd staff i ystyried buddiannau'r plant yn fwy gweithredol wrth gynllunio, gan anelu at gynyddu ymgysylltu, ac atgyfnerthwyd dull sy'n canolbwyntio ar degwch trwy dargedu cymorth at ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

3.3.4.4 Ymgysylltu â rhieni

Nid adroddodd unrhyw ysgolion am gyfranogiad uniongyrchol rhieni/gofalwyr yng ngweithredoedd y partneriaethau. Mewn un achos, tynnodd cyfranogwr sylw at bwysigrwydd ymgysylltu'n fwy â rhieni fel rhywbeth i'w wella yn eu hysgol yn y dyfodol. Nododd cyfranogwr arall rai effeithiau anuniongyrchol ar ymgysylltu â rhieni, gyda rhieni/gofalwyr yn y bartneriaeth hon yn nodi wrth bennaethiaid ysgolion fod eu plant yn siarad am yr hyn yr oeddent yn ei ddysgu, ac, mewn rhai achosion, roedd rhai dysgwyr â phresenoldeb is yn fwy awyddus i fynychu'r ysgol.

3.3.5 Myfyrdodau – rhwystrau a galluogwyr i'w gwaith

3.3.5.1 Rhwystrau

Pan ofynnwyd iddynt a oedd eu damcaniaethau ar y cychwyn wedi newid erbyn diwedd y rhaglen, ymatebodd sawl cyfranogwr eu bod bellach wedi datblygu dealltwriaeth ddyfnach o bwysau rhwystrau systemig. Myfyriodd un cyfranogwr ar y ffaith nad oeddent wedi rhagweld maint yr heriau y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol, megis y ffaith bod rhai dysgwyr yn cael mynediad cyfyngedig at weithgareddau allgyrsiol a diffyg cefnogaeth gan rhieni, gan gydnabod bod rhai pethau y tu hwnt i ddylanwad yr ysgol.

Disgrifiodd un arall ddod ar draws ffurfiau newydd o dlodi nad oeddent yn cael eu cydnabod o'r blaen mewn lleoliadau gwledig, sef her annisgwyl nad oeddent yn teimlo'n barod ar ei chyfer. Nododd cyfranogwr arall, gyda'r rhaglen bellach wedi dod i ben, eu bod yn wynebu'r dasg o barhau â'u gwaith heb fudd cyllid ychwanegol.

“Ie, rydw i'n meddwl ei bod wedi gwneud i mi fod ag angen am fwy ohoni nawr ei bod wedi dod i ben. Roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n cymryd amser i feithrin cydberthnasau ymddiriedus gyda chydweithwyr yn y cyfnod hwn. Roedd yn brofiad gwych yn y flwyddyn honno.” (Arweinydd ysgol)

Yn ogystal, myfyriodd un cyfranogwr, o ganlyniad i'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad, eu bod wedi dod i'r sylweddoliad bod prosiectau a ddatblygwyd gan bartneriaethau eraill yn ddiddorol ac yn berthnasol, er mai'r her barhaus oedd troi'r hyn sy'n anghyfarwydd i ddechrau yn wybodaeth a rennir, gan sicrhau bod arferion arloesol yn cael eu cydnabod yn ehangach. Adroddwyd bod safon y penaethiaid a oedd yn rhan o'r rhaglen yn uchel iawn, ac roedd hyn wedi cryfhau'r rhaglen.

“Mae rhai o'r pethau y mae timau eraill o bencampwyr yn eu gwneud yn ddiddorol ac yn berthnasol iawn, ond nid ydynt yn hysbys i ni. A dyna'r peth. Sut ydyn ni'n cael gwybod amdanynt? Y rhai roeddem yn eu hadnabod a'r rhai nad oeddem yn eu hadnabod. Roeddent yn benaethiaid da iawn, ch'mod, roeddent wir o'r safon orau.”
(Arweinydd ysgol)

Roedd rhai achosion o rwystrau i gydweithio ac elfennau o amharu ar y bartneriaeth. Er enghraifft, nododd un cyfranogwr fod cymryd rhan yn y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad ar adegau wedi dod yn faich iddynt, oherwydd pellter daearyddol, a oedd yn golygu teithio a goramser ar eu rhan nhw, gan gyfyngu ar y gallu i weithio gyda'i gilydd fel tîm. Codwyd heriau hefyd i ysgolion a ymunodd â phartneriaeth sefydledig yn ail flwyddyn y peilot, gan fod hyn weithiau'n ei gwneud hi'n anodd i'r ysgol newydd deimlo'n rhan iawn o'r cydweithrediad.

Nododd y cyfranogwyr hefyd fod ysgol wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r cynllun peilot oherwydd pwysau o ganlyniad i arolwg Estyn. Teimlai rhai fod y sefyllfa hon yn tynnu sylw at densiwn rhwng pwyslais Llywodraeth Cymru ar annog mentrau arloesol, hirdymor a phwyslais Estyn ar flaenoriaethau mwy uniongyrchol.

Mynegodd rhai cyfranogwyr hefyd ddymuniad i Lywodraeth Cymru ymwneud yn fwy â'r rhaglen. Roedd rhywfaint o rwystredigaeth nad aeth rhai gweithgareddau a gynlluniwyd, fel trafodaethau am bolisi, yn eu blaen fel y bwriadwyd yn ail flwyddyn y rhaglen beilot, ac roeddent yn teimlo bod eu cyfleoedd i rannu dysgu ar lefel polisi yn fwy cyfyngedig nag yr oeddent wedi'i obeithio. Awgrymodd rhai y gallai hyn fod oherwydd newid mewn blaenoriaethau ar lefel y llywodraeth a newidiadau mewn personél allweddol.

3.3.5.2 Galluogwyr

Yr hyn a atgyfnerthwyd yn gryf drwy gydol y broses oedd gwerth dysgu rhwydweithiol. Drwy'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad, daeth cyfranogwyr i werthfawrogi nerth meithrin cydberthnasau ymddiriedus â chydweithwyr. Yn arbennig, pwysleisiodd y cyfranogwyr, er bod y fenter wedi'i chynllunio'n wreiddiol fel perthynas rhwng mentoriaid a menteion, fod y triawdau yn y pen draw wedi gweithio fel partneriaethau cyfartal, a buont yn rhannu gwybodaeth ac yn dysgu rhwng ei gilydd.

Roedd yr amser, y gofod a'r cymorth ariannol neilltuedig a ddarparwyd gan y rhaglen yn caniatáu iddynt fyfyrar ar eu hymarfer ac archwilio syniadau newydd ar y cyd. Nododd un cyfranogwr ei fod yn rhoi'r rhyddid i ysgolion ganolbwyntio ar yr hyn oedd bwysicaf iddyn nhw, a ddisgrifiwyd fel “gadael y chwain allan o'r jar”. Gwelwyd bod safon uchel ganfyddedig yr arweinwyr dan sylw yn cyfrannu at gryfder y rhwydwaith, gan greu, er am gyfnod byr yn unig, gymuned o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio i'r safon uchaf yn eu maes.

“Mae cael y cyfle i weithio gydag athrawon gwahanol ar draws gwahanol gyfnodau, ac ar draws addysg uwchradd a chynradd, hefyd yn bwysig iawn. Roedd yn ddiddorol gweld sut rydych chi'n cael y rhyddid i wneud y gwaith rydych chi'n teimlo sy'n bwysig yn eich ysgolion. Mae fel eich bod chi'n gadael y chwain allan o'r jar.” (Arweinydd ysgol)

3.3.6 Parhad newidiadau

Roedd mwy o gyfranogwyr yn hyderus iawn y byddai canlyniadau eu gwaith drwy'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod y rhaglen. Fel y nodwyd yn gynharach, nid oedd yr hyder hwn yn seiliedig ar welliannau mesuradwy mewn metrigau fel presenoldeb, ond yn hytrach ar newidiadau yn y ffordd y maent yn gweithredu. Serch hynny, nododd dau gyfranogwr y posibilrwydd o derfynu'r rhaglen fel rhwystr i gynnal yr ymdrechion hyn yn yr hirdymor.

“Rydw i'n meddwl ei fod yn drueni mawr, mewn gwirionedd. Rydw i'n credu mai newydd gychwyn yn unig oedd y prosiect hwn, fel gydag unrhyw brosiect ymchwil a'r broses o'i weithredu. Dydych chi ddim yn mynd i weld y canlyniadau ar unwaith. Ac rydw i'n meddwl, a oes unrhyw ffordd y gellir parhau â'r rhaglen, byddai hynny'n wych [...] Rydym ni wedi gwneud popeth y gallwn, ac rydym wedi dysgu o'r broses. Rydw i'n meddwl ein bod ni wedi dysgu. Yn y flwyddyn, yr hyn y mae angen i ni ei wneud nesaf hefyd, rydym wedi trwsio ambell i beth dros dro, ond mae angen i ni weld, ble allwn ni fynd â hyn nawr? Ac mae ymchwil bellach i'w gwneud.” (Arweinydd ysgol)

Yn fwy penodol, roedd amrywiaeth fawr o ran y deilliannau hirdymor canfyddedig. Adroddodd un cyfranogwr fod y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad wedi gwneud eu hysgol yn fwy “ymatebol” i anghenion dysgwyr ac wedi'u hannog i feddwl yn ehangach am oblygiadau cymdeithas ar fywyd yr ysgol. Nododd cyfranogwr arall y bydd y mentrau sy'n ymwneud â dysgu yn yr awyr agored a thrwy brofiad yn mynd rhagddynt, oherwydd bod staff wedi dod yn fwy hyderus wrth arsylwi ac asesu cynnydd dysgwyr y tu hwnt i waith ysgrifenedig traddodiadol.

Tynnodd cyfranogwr arall sylw at y ffaith bod gofalu am ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi dod yn gyfrifoldeb ymgorfforedig yn eu hysgol, gyda dirprwy bennaeth wedi'i benodi'n ffurfiol yn bencampwr ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Yn ogystal, mae cymdeithas rhieni ac athrawon newydd wedi'i sefydlu gyda llywodraethiant clir a phwyslais ar dargedu'r ffordd y caiff arian ei ddefnyddio.

Yn olaf, adroddodd un cyfranogwr y bydd yr offeryn deallusrwydd artiffisial a ddatblygwyd gan eu triawd fel rhan o'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad yn parhau i gael ei fireinio a'i wella, gyda'r nod o'i wneud ar gael i ysgolion eraill fel offeryn adnoddau am ddim. Mae un ysgol hefyd yn bwriadu cydweithio â'r bwrdd iechyd lleol i gyflwyno mentrau iechyd lefel isel drwy'r ysgol, gan gefnogi teuluoedd a gwella iechyd cymunedol.

“Byddwn i'n dweud ein bod ni nawr yn fwy ymatebol i wrando ar y plant yn siarad am eu hanghenion. Nid yw bob amser yn ymwneud â chanolbwyntio ar ddysgu ac addysgu, ond hefyd meddwl am beth yw'r goblygiadau iddyn nhw o ddydd i ddydd.

Drwy'r sgysiaau a gawson ni pan aethon ni i bob un o'r ysgolion gwahanol, roedden ni'n gallu siarad â'r plant a gwrando arnyn nhw [...] Rydw i'n meddwl ein bod ni fel athrawon, rydyn ni'n mynd ati i addysgu mathemateg a llythrennedd tra bod angen i ni feddwl yn ddyfnach am anghenion pob plentyn yn yr ysgol hon." (Arweinydd ysgol)

3.3.7 Argymhellion ar gyfer ehangu'r rhaglen

Wrth fyfyrion ar eu gwaith drwy'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad, nododd penaethiaid hefyd y potensial i ehangu eu gwaith i ysgolion ledled Cymru, er eu bod yn cydnabod y gallai dulliau ac amodau galluogi amrywio ar draws ysgolion. Er enghraifft, argymhellodd cyfranogwr y gellid cynyddu eu defnydd wedi'i dargedu o'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG), ynghyd â chyfranogiad strwythuredig gan y gymdeithas rhieni ac athrawon, trwy fframweithiau a mesurau atebolrwydd clir. Mynegodd un arall hyder y gellid addasu eu hofferyn deallusrwydd artiffisial i'w ddefnyddio'n ehangach gan ysgolion yng Nghymru. Cynigiodd cyfranogwr gwahanol ddatblygu pecyn cymorth cenedlaethol o strategaethau profedig, gan gynnwys eu dull o addysgu sgiliau adolygu ac asesu i ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Yn ogystal, awgrymodd un arall brif ffrydio cydweithio ymhlith arweinwyr ysgolion i gefnogi'r gwaith o ledaenu arferion, wrth ei symleiddio trwy rwydweithiau ar-lein i oresgyn cyfyngiadau logistaidd.

"Rydw i'n credu bod y gwaith rydyn ni wedi'i wneud ar y strwythur a dyrannu mentor prydau ysgol am ddim pwrpasol i bob grŵp blwyddyn mewn ysgol gyfun, gan ddefnyddio arian PDG, yn rhywbeth y gellid ei ehangu'n bendant. Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw beth rydyn ni wedi'i wneud sydd o reidrwydd yn benodol i ni." (Arweinydd ysgol)

Tynnodd cyfranogwyr sylw hefyd at rôl strategaethau symlach a chost isel a allai gefnogi ehangu'r rhaglen. Gellir mabwysiadu arferion syml a deall materion, fel ceisio lleihau'r stigma y gallai dysgwyr tlawd ei wynebu a hyrwyddo hygyrchedd mewn arferion dyddiol ac arferion ysgol, yn eang hefyd.

"Yr hyn y gellid ei weithredu'n hawdd ledled Cymru yw trin plant i gyd yr un fath, yn enwedig plant ysgolion cynradd, drwy gael gwared ar unrhyw fath o stigma. Gwyddwn ei fod yn swnio'n amlwg, ond mae angen ei ddweud. Mae angen iddo fod. Ni ddylai pob plentyn deimlo cywilydd os ydyn nhw'n hwyr, ond maen nhw'n gwneud hynny mewn gwirionedd. Nid oes gan rai wisg ysgol. Nid oes gan rai ddim bwyd, neu dydyn nhw ddim wedi ymolchi. Fydd e byth yn fai'r plentyn hwnnw. Ac nid bai eu [teulu] nhw yw e chwaith. Nid yw amgylchiadau llawer o bobl yn dda. Felly, rydw i'n credu, ledled Cymru, fod cael gwared ar y stigma ar y plentyn yn allweddol i wella llesiant y plentyn." (Arweinydd ysgol)

O ran terfynau, pwysleisiodd y cyfranogwyr fod llwyddiant pob rhaglen beilot yn dibynnu ar ffactorau cyd-destunol ehangach, gan bwysleisio bod cymorth systemig ehangach yn hanfodol ar gyfer newid. Fel arall, ni fydd ymyriadau dysgu ac addysgu yn llwyddiannus ar eu pen eu hunain. Tynnodd un cyfranogwr sylw at gymorth ehangach o amgylch y teulu a'r gymuned fel ffactor llwyddiant hanfodol, gan gynnwys gwasanaethau fel rhaglenni ar ôl yr ysgol, tai, cymorth gyda rhianta, a gofal cymdeithasol. Tynnwyd sylw hefyd at ymgysylltu â

dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac aelodau'r gymuned mewn ffordd sensitif fel ffactor pwysig wrth ddeall tlodi a chyd-ddatblygu ymatebion priodol. Un enghraifft a grybwyllwyd oedd cadw'r ysgol ar agor yn ystod gwyliau'r haf i ddarparu clwb 'Bwyd a Hwyl' – rhaglen a oedd yn seiliedig ar yr ysgol a ariannwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru a oedd yn darparu prydau bwyd iach, addysg maeth, gweithgarwch corfforol a gweithgareddau cyfoethogi i blant difreintiedig yn ystod gwyliau'r ysgol – a chymorth ar gyfer plant anabl.

“Er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau tlodi, rhaid gwneud dau beth. Yr elfen gyntaf yw'r hyn rydyn ni wedi'i wneud yn y prosiect, sy'n effeithio ar ddysgu ac addysgu – athrawon yn gwybod pwy yw'r plant yr effeithir arnynt, a'r ymyriadau sy'n cael effaith. Yr ail ran yw bod yn rhaid cael cymorth ehangach o amgylch y teulu, ochr y gymuned ac ati. Rydw i'n meddwl y byddai'n eithaf hawdd datblygu'r un cyntaf mewn ysgolion ledled Cymru. Nid yw'r elfen arall mor hawdd oherwydd yn aml mae ysgolion yn meddwl nad eu gwaith nhw yw cefnogi pethau ehangach [...] Er mwyn i ddysgu ac addysgu fod yn llwyddiannus, rhaid i'r ail un fod yn llwyddiannus hefyd, ond mae hyn yn dibynnu ar feddylfryd yr ysgol. Os ydych chi'n datblygu dysgu ac addysgu i fynd i'r afael â thlodi yn unig, ni fydd yn llwyddiannus oni bai eich bod chi'n gwneud pethau ychwanegol i gefnogi teuluoedd.” (Arweinydd ysgol)

4. Canfyddiadau Diogelu rhag Tlodi

Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau o'r gwerthusiad o raglen beilot Diogelu rhag Tlodi. Mae'n defnyddio cyfweiliadau ag arweinwyr ysgolion a staff sy'n ymwneud â chyflenwi gweithredol y rhaglen, grwpiau ffocws gyda staff ysgolion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi, a data arolwg a gasglwyd o ysgolion oedd yn cymryd rhan. Dim ond yn eu cyfanrwydd y mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu hadrodd, oherwydd bod maint y sampl yn rhy fach i gynnal unrhyw ddadansoddiad o segmentau.

O ystyried y lefelau isel o ymgysylltu â chyfweiliadau a grwpiau ffocws, nid yw'n bosibl cyflwyno canfyddiadau yn nhrefn amllder. Pan gyflwynir canfyddiad heb wrthddadl, ni ddylid cymryd hyn i ddangos cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr, ond yn hytrach absenoldeb anghytundeb. Pan fynegwyd safbwyntiau sy'n gwrthdaro, cyflwynir y ddau safbwynt. At ei gilydd, dylid dehongli canfyddiadau fel rhai sy'n cyfleu profiadau'r ymatebwyr ac nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn gynrychioliadol o'r holl ysgolion a gymerodd ran.

4.1 Gweithredu'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi

4.1.1 Cyd-destunau ysgol

Archwiliodd y maes archwilio cyntaf gyd-destun pob ysgol, gan geisio deall yr hyn a ysgogodd y penderfyniad i fabwysiadu'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi. Gofynnwyd i arweinyddiaeth a staff yr ysgol am yr heriau sy'n gysylltiedig â thlodi a oedd yn bresennol yn eu hysgol a'r mesurau sydd eisoes ar waith i fynd i'r afael â nhw. Gofynnwyd i arweinwyr ysgolion hefyd am eu cymhellion dros gymryd rhan yn y rhaglen.

4.1.1.1 Safbwyntiau ar heriau sy'n gysylltiedig â thlodi

Cyfeiriodd arweinwyr ysgolion y cyfwelwyd â nhw at ystod o heriau sy'n gysylltiedig â thlodi yr oedd dysgwyr a'u teuluoedd yn eu hwynebu. Fel arfer, dechreuodd trafodaethau gyda'r mater o anfantais economaidd-gymdeithasol yn gyffredinol, gyda chyfraddau cymhwysra o ran cael prydau ysgol am ddim wedi'u nodi fel y prif ddangosydd ar draws ysgolion. Y tu hwnt i ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, roedd arweinwyr ysgolion hefyd yn gyson yn nodi'r "bobl sy'n gweithio sydd mewn tlodi" fel grŵp heb wasanaeth digonol sylweddol, a ddiffinnir fel aelwydydd mewn cyflogaeth sy'n profi caledi ariannol ond sy'n syrthio y tu allan i feini prawf cymhwysra ffurfiol ac sy'n llai tebygol o geisio cymorth.

"Rydym mewn demograffeg sydd â thlodi uchel – byddwn i hyd yn oed yn dweud mai llawer o bobl sy'n gweithio sydd mewn tlodi. Mae llawer o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar brydau ysgol am ddim, ond yn aml mae ein pryder gyda'r bobl ychydig uwchben y trothwy hwnnw: y bobl hynny sy'n gweithio, ond yr ydym yn eu galw'n bobl sy'n gweithio sydd mewn tlodi, oherwydd eu bod yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at rai o'r pethau y gallwn eu cynnig." (Arweinydd ysgol)

Nododd arweinwyr a staff ysgolion sawl rhwystr i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Daeth cludiant i'r amlwg fel rhwystr arbennig o arwyddocaol, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig lle mae dysgwyr wedi'u gwasgaru ar draws ardal ddaearyddol eang ac yn dibynnu ar

drafnidiaeth i gyrraedd yr ysgol. Mewn un ysgol, nodwyd bod newidiadau i bolisi cludiant yr awdurdod lleol wedi lleihau teithio am ddim i nifer sylweddol o ddysgwyr. Nodwyd gwasgariad daearyddol hefyd fel ffactor sy'n codi'r gost o drefnu teithiau, gyda chostau cludiant yn uwch nag mewn lleoliadau mwy trefol oherwydd y pellteroedd y mae'n rhaid teithio. Ar wahân i gludiant, nododd staff gost gwisgoedd ysgol, tripiâu ysgol, a chynhwysion ar gyfer gwersi technoleg bwyd fel rhwystrau pellach.

“Mae'n debyg mai'r peth mwyaf y mae pob ysgol yn y De yn delio ag ef ar hyn o bryd yw'r newidiadau i gludiant. Arferai fod gennych hawl i gludiant i'r ysgol os oeddech chi'n byw 2.5 milltir i ffwrdd, ond mae'r trothwy hwnnw bellach wedi'i godi i 3 milltir. Mae gennym ryw 60 i 70 o ddysgwyr sy'n dod o dan y categori hwnnw ac nad oes ganddyn nhw hawl i gludiant mwyach. Rydym wedi bod yn monitro hyn o safbwynt presenoldeb i weld a yw wedi gwneud gwahaniaeth eleni.” (Arweinydd ysgol)

Cyfeiriodd arweinwyr ysgolion hefyd at ystod o effeithiau anuniongyrchol tlodi ar ddysgwyr a'u teuluoedd. Soniwyd am stigma, gydag arweinydd yn nodi y gallai teuluoedd osgoi hawlio prydau ysgol am ddim, yn enwedig mewn ysgolion lle mae nifer isel o bobl yn achub arnynt a lle mae cael eich adnabod yn teimlo'n fwy amlwg. Tynnodd staff sylw hefyd at effeithiau ar hyder, gwydnwch a dyhead disgyblion, gan nodi gostyngiad ar ôl COVID-19 ymhlith dysgwyr dan anfantais.

“Mae yna ychydig o stigma o hyd ynghylch dod i mewn i gymryd dillad ail-law. Mae rhai rhieni'n hapus i ddod i dyrchu. Rydyn ni wedi rhoi pethau ar reiliau a'u gwneud ar gael mewn gweithgareddau codi arian, ond mae gennym ni domen o ddillad ail-law yn dal i fod yma. Ac eto, pan fyddwn yn holi rhieni, maen nhw'n dweud wrthym fod gwisg ysgol yn ddrud. Mae angen i ni weithio ar ddod o hyd i ffordd well o'u cael nhw i'r teuluoedd sydd eu hangen.” (Arweinydd ysgol)

4.1.1.2 Cyfranogiad ysgolion mewn rhaglenni lleihau tlodi

Disgrifiodd staff ysgolion ystod o fesurau a gyflwynwyd i fynd i'r afael â'r heriau hyn, cyn ymuno â'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi. Y systemau y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd systemau ar gyfer defnyddio statws prydau ysgol am ddim yn weithredol: llywio cynlluniau eistedd, sbarduno cwestiynau dilyniannol ynghylch presenoldeb ar yr un diwrnod ar gyfer dysgwyr absennol, a dadgyfuno data yn ôl statws prydau ysgol am ddim i lywio addysgu, y gwaith o reoli ymddygiad, a'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch arweinyddiaeth. Roedd y darpariaethau ymarferol yn cynnwys cynlluniau bysiau cost isel ar gyfer gweithgareddau ar ôl yr ysgol, cynlluniau rhoi gwisg ysgol wedi'u cydlynu ag ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol, taliadau teithiau cynharach neu fwy hyblyg, darparu cynhwysion ar gyfer gwersi coginio, darparu brecwast am ddim, a chyllid ar gyfer teithiau i ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Addasodd rhai ysgolion arferion ystafell ddosbarth hefyd trwy adnoddau wedi'u haddasu, seddi strategol a chwestiynau wedi'u targedu, a chyflogi staff pwrpasol fel swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i helpu teuluoedd i gael mynediad at yr hyn oedd ganddynt hawl iddo.


“Yn fy ngwersi Saesneg, mae'r effaith a'r cynnydd rydw i wedi'u gweld wedi dod o eistedd i lawr go iawn a meddwl yn ofalus am fy nghynlluniau eistedd ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. I'r rheini a allai gael trafferth gyda

phroblemau ymddygiad, rydw i wedi sicrhau eu bod nhw ar flaen y dosbarth; i'r rheini sy'n llai hyderus, rydw i wedi'u gosod yn unol â hynny hefyd.” (Arweinydd ysgol)

Adroddodd ymatebwyr yr arolwg o ysgolion a gymerodd ran, ochr yn ochr â'u hymgysylltiad â'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi, fod eu hysgolion hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni gyda'r nod o leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad (Ffigur 1 below). Nododd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr fod eu hysgol yn darparu prydau bwyd am ddim (n = 77; 97%) a chlybiau brecwast am ddim (n = 76; 96%). Nododd dros hanner eu bod wedi cymryd rhan mewn ymyriadau a ariannwyd gan y Grant Datblygu Disgyblion (n = 53; 67%) a rhaglenni ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned (n = 50; 63%), tra oedd tua hanner yn nodi eu bod wedi cymryd rhan mewn cymorth a ariannwyd gan y Grant Hanfodion Ysgol (n = 39; 49%). Adroddodd traean am ymwneud ag ysgolion bro (n = 26; 33%).

Ffigur 1: Cyfranogiad mewn rhaglenni sy'n lleihau effaith tlodi ar addysg (n = 79 – pawb)

Cwestiwn: Pa rai o'r rhaglenni canlynol sydd â'r nod o leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol sydd ar waith yn eich ysgol ar hyn o bryd? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 79) ar gyfranogiad ysgolion mewn rhaglenni sy'n mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Nododd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr fod clybiau prydau ysgol am ddim a brecwast am ddim yn weithredol yn eu hysgol ar hyn o bryd. Dilynwyd hyn gan ymyriadau a ariannwyd gan y Grant Datblygu Disgyblion, rhaglenni ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, cymorth y Grant Hanfodion Ysgolion, ac ysgolion bro.

O ran cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi (

Ffigur 2 below), er bod mwyafrif yr ymatebwyr (n = 61; 76%) wedi nodi bod eu hysgol yn rhan o'r rhaglen, dywedodd lleiafrif sylweddol (n = 16; 20%) nad oeddent yn gwybod. Mae'n werth nodi mai cynorthwyrwyr addysgu oedd y gyfran fwyaf o ymatebion "Dydw i ddim yn gwybod" (n = 9), a allai awgrymu nad yw ymwybyddiaeth o gyfranogiad mewn rhaglenni ysgol gyfan bob amser yn cael ei chyfleu'n gyson ar draws rolau staff. Yn nodedig, adroddodd dau ymatebydd yn anghywir nad oedd eu hysgol yn rhan o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi, er eu bod yn cael eu cyflogi gan ysgol a oedd yn cymryd rhan.

Ffigur 2: Bod yn rhan o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi (n = 79 – pawb)

Cwestiwn: A yw eich ysgol wedi cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi hon?



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 79) ar gyfranogiad ysgolion yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod eu hysgol wedi cymryd rhan, gyda lleiafrif yn nodi nad oeddent yn gwybod, a lleiafrif bach yn nodi nad oedd eu hysgol wedi cymryd rhan.

Ar draws trafodaethau â thimau arweinyddiaeth ysgolion, deallwyd i ddechrau bod y rhaglen yn cyd-fynd â blaenoriaethau presennol yn hytrach na chynrychioli ffocws newydd i'r ysgol. Rhoddodd arweinwyr ysgolion sawl rheswm dros gymryd rhan. Roedd un arweinydd am adolygu a chryfhau arferion presennol yr ysgol. Disgrifiodd un arall ymwybyddiaeth hirdymor o amddifadedd uchel yn eu cymuned ac awydd i fabwysiadu dull mwy strwythuredig, seiliedig ar dystiolaeth, o ymdrin â materion fel costau teithiau, gwisg ysgol, gwaith cartref, a darpariaeth ar ôl yr ysgol. Ymunodd trydedd ysgol fel rhan o fenter glwstwr a arweiniwyd gan ei hysgol uwchradd, a oedd yn ceisio deall cefndiroedd economaidd-gymdeithasol dysgwyr sy'n cyrraedd o wahanol ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol yn well.


"Mewn gwirionedd, dim ond i wirio bod yr hyn rydyn ni'n ei wneud o werth i'n myfyrwyr, ond hefyd i weld a oes unrhyw awgrymiadau neu syniadau y gallem eu defnyddio i wella'r diwrnod ysgol i'n teuluoedd a'n disgyblion. Un o'n prif flaenoriaethau gwella yw edrych ar sut y gallwn helpu ein myfyrwyr i deimlo mwy o ymdeimlad o berthyn, sydd â dylanwad cadarnhaol ar lawer o bethau, presenoldeb yn benodol." (Arweinydd ysgol)

“O fewn yr ysgol, roedden ni wastad yn dda o ran sut roedden ni'n delio â phrydau ysgol am ddim a thlodi, ond, os ydw i'n onest, roedd hi'n ymwneud â'i wneud yn fwy swyddogol – ei gynnwys ar gynllun gwella'r ysgol, ar agendâu adrannol, a meithrin atebolrwydd gydag arweinwyr canol ac athrawon i ddweud, ‘A allwch chi ddweud wrthym ni yr hyn rydych chi'n ei wneud?’.” (Arweinydd ysgol)

Yn bennaf, cyrhaeddodd yr arolwg (Ffigur 3 isod) staff nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno'r rhaglenbelow. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr (n = 32; 52%) o ysgolion a gymerodd ran yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi nad oeddent wedi cymryd rhan yn y broses o weithredu'r rhaglen. Nododd lleiafrif o ymatebwyr ryw lefel o gyfranogiad, naill ai mewn rôl arweiniol (n = 13; 21%) neu fel rhan o'r tîm (n = 10; 16%).

Ffigur 3: Cymryd rhan yn y gwaith gweithredol o gyflwyno'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu Rhag Tlodi)

Cwestiwn: Ydych chi'n ymwneud â'r gwaith gweithredol o gyflwyno'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi yn eich ysgol?



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 61) ar gyfranogiad yn y gwaith gweithredol o gyflwyno'r rhaglen. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn cymryd rhan. Nododd cyfrannau llai eu bod wedi cymryd rhan, naill ai'n arwain neu'n cydllynu'r ddarpariaeth neu fel rhan o'r tîm gweithredu, gyda rhai'n dewis peidio ag ateb y cwestiwn.

4.1.2 Gweithredu'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi

Roedd maes archwilio pellach yn cynnwys profiad y rheini a oedd yn ymwneud â'r gwaith gweithredol o gyflwyno'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi. Daeth ymatebion i'r arolwg ar y thema hon gan is-set o ymatebwyr a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth (n = 23), tra oedd mewnwelediadau ansoddol yn adlewyrchu safbwyntiau uwch-arweinwyr a'r rheini oedd yn arwain y broses o weithredu'r rhaglen yn eu hysgolion. O ystyried nifer isel yr ymatebwyr, dylid dehongli canfyddiadau yn yr adran hon yn ofalus.

4.1.2.1 Y cyfnod paratoi a chyn-archwilio

Roedd disgrifiadau arweinwyr ysgolion o sut y cyflwynwyd y rhaglen Diogelu rhag Tlodi yn eu hysgol yn gymysg. Adroddodd rhai arweinwyr ysgolion y cyfwelwyd â nhw am ddealltwriaeth gychwynnol gref o'i diben a'i phroses, a briodolwyd i gyfranogiad uniongyrchol mewn cyfarfodydd cynnar â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a chyfathrebu ymlaen llaw â Children North East. Ar gyfer yr ysgolion hyn, roedd rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau yn cael eu hystyried yn glir o'r cychwyn cyntaf.

“Ni oedd yr ysgol arweiniol yn ein clwstwr, a helpodd hynny ni'n fawr. [...] Roedd hynny'n golygu bod yr wybodaeth a gawsom yn glir iawn. Es i i'r sesiynau hyfforddi gyda chynrychiolwyr o'r clwstwr, ac o'r diwrnod cyntaf roedd yn amlwg pam roedden ni'n gwneud y gwaith hwn a'r hyn yr oedd angen i ni ei wneud.”
(Arweinydd ysgol)

Adroddodd eraill, yn enwedig arweinwyr ysgolion a ymunodd yn ddiweddarach, am ansicrwydd cychwynnol ynghylch y gofynion, yn benodol ynghylch lefel yr ymrwymiad a'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. Mewn dau achos, soniodd arweinwyr ysgolion fod cyfathrebu'r clwstwr yn gyfyngedig yn y camau cynnar. Fodd bynnag, nododd yr un arweinwyr eu bod wedi dod yn fwy cyfarwydd â gofynion y rhaglen dros amser, a bod y broses wedi dod yn fwyfwy hylaw wrth iddynt ennill profiad gyda'r rhaglen.

“Roedd yr amserlen yn gyflym iawn. Nid bai neb yw hynny, ond fe aeth yn ei blaen yn gyflym. Yn sydyn, roedden ni'n cael yr archwiliad, ac o safbwynt ysgol uwchradd, mae llawer o wybodaeth i'w chasglu. [...] Roedd yna ychydig o bwysau oherwydd yr amserlen, ond fe wnaethon ni ymdopi â hi. Rwy'n ymwybodol bod dyddiad cau gan Lywodraeth Cymru i gael pob archwiliad Diogelu rhag Tlodi gan glystyrau wedi'i gwblhau erbyn y Nadolig, felly roedden ni ychydig yn hwyr i'r broses.” (Arweinydd ysgol)

Roedd y farn ar y cam cyn-archwilio yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r cam hwn yn cynnwys ysgolion yn casglu data am eu gweithrediadau, megis y costau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan ym mywyd yr ysgol, ochr yn ochr â gwybodaeth am eu dysgwyr. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y broses o gasglu data yn hylaw, er gwaethaf y ffaith ei bod yn cymryd llawer o amser, ac ystyriwyd bod yr ymarfer yn ddefnyddiol ynddo'i hun, gan helpu ysgolion i lunio darlun cliriach o'u hamgylchedd ysgol. Nododd un arweinydd, er enghraifft, fod y broses o gasglu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi dod â chysylltiadau i'r amlwg nad edrychwyd arnynt yn fanwl o'r blaen, megis y berthynas rhwng anghenion dysgu ychwanegol a chymhwysra i gael prydau ysgol am ddim.

“Roedden nhw wedi gofyn am bethau penodol, a gwnes i fy ngorau glas i wneud yn siŵr bod ganddyn nhw bopeth. Oherwydd, ar ddiwedd y dydd, os ydych chi'n mynd i gael archwiliad, mae angen yr holl wybodaeth ragarweiniol honno arnoch chi i roi blas o'r ysgol, fel bod yr hyn sy'n dilyn yn effeithiol ac yn ddefnyddiol mewn gwirionedd. Does dim pwynt llenwi'r daflen waith gyntaf yn unig.”
(Arweinydd ysgol)

Ystyriwyd bod data craidd disgyblion, fel canrannau o ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a mesurau cyrhaeddiad, yn symlach i'w darparu, gan dynnu'n uniongyrchol o

systemau gwybodaeth presennol yr ysgol. Ystyriwyd bod ceisiadau mwy manwl, megis cyfranogiad mewn digwyddiadau penodol wedi'i ddadansoddi yn ôl statws prydau ysgol am ddim, neu wybodaeth yn ymwneud â gweithgareddau cwricwlwm nad oeddent wedi'u cofnodi o'r blaen, yn fwy heriol, gan olygu bod angen mewnbwn gan nifer o staff, ac, mewn rhai achosion, ni ellid eu cwblhau lle nad oedd y data yn bodoli yn y ffurf y gofynnwyd amdani. Cwestiynodd un arweinydd hefyd werth darparu gwybodaeth mor fanwl, gan deimlo nad oedd bob amser yn bwydo'n ystyrllon i unrhyw gam dilynol yn y broses.

4.1.2.2 Gweithdy hyfforddi'r hyfforddwr

Mewn trafodaethau ansoddol, roedd y safbwyntiau ar yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Children North East yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r cam hwn yn cynnwys hyfforddi staff yr ysgol i weithredu fel archwilywyr yng ngham nesaf y broses. Canfu arweinydd fod y gweithdai hyfforddi'r hyfforddwr yn ffordd ddefnyddiol o feithrin dealltwriaeth staff o'r hyn y mae Diogelu rhag Tlodi yn ei olygu yn ymarferol. Amlygwyd gweithgareddau penodol fel cryfderau. Er enghraifft, nododd un arweinydd ysgol fod ymarferion yn efelychu'r pwysau ariannol y mae teuluoedd mewn tlodi yn eu hwynebu yn effeithiol wrth wneud realiti tlodi yn fwy diriaethol i staff.


“Dechreuais i ar y rhaglen fel rhywun a oedd eisoes wedi gwneud cryn dipyn o waith ynghylch tlodi yn fy ysgol flaenorol ac wedi ceisio gweithredu strategaethau i fynd i'r afael ag ef. Yr hyn a gefais pan gyrhaeddais yma oedd aelodau staff nad oedd ganddyn nhw'r dyfnder hwnnw o wybodaeth a dealltwriaeth eto. Roedd yr hyfforddiant, a gweithgareddau'r gweithdy yn benodol, yn wirioneddol amlwg wrth helpu pobl i ddeall sut olwg sydd ar fywyd mewn tlodi mewn gwirionedd a sut mae'n effeithio ar ddysgu. Felly er fy mod i efallai eisoes yn gwybod llawer o'r hyn oedd yn cael ei drafod, rhoddodd adnoddau o ansawdd da iawn i mi.”
(Arweinydd ysgol)

“Roedd yr hyfforddiant, y gweithgaredd cyllidebu a'r gweithdy yn wirioneddol amlwg wrth helpu pobl i ddeall y profiad o fyw mewn tlodi a sut mae'n effeithio ar ddysgu.” (Arweinydd ysgol)

Roedd ymatebion i'r arolwg gan bersonél a hyfforddwyd fel archwilywyr yn adlewyrchu'r safbwyntiau cadarnhaol hyn. Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant (n = 18), rhoddodd pob un sgôr gadarnhaol iddo o ran pa mor dda y paratôdd hwy ar gyfer gweithgareddau dilynol y rhaglen. Yn benodol, nododd yr ymatebwyr fod yr hyfforddiant un ai'n "rhagorol" (n = 7; 39%) ynteu'n "dda" (n = 11; 61%) wrth eu paratoi i gefnogi gweithgareddau Diogelu rhag Tlodi (Ffigur 4 below). Nododd y mwyafrif hefyd eu bod yn teimlo'n hyderus yn eu rôl fel archwilywyr o ganlyniad i'r hyfforddiant (n = 13; 72%), gan gynnwys dau a oedd yn teimlo'n "hyderus iawn" ac 11 a oedd yn teimlo "braidd yn hyderus" (Ffigur 5).

Ffigur 4: Pa mor ddefnyddiol y canfuwyd gweithdy hyfforddi'r hyfforddwr (n = 18 – ymatebwyr wedi'u hyfforddi fel archwilydd Diogelu rhag Tlodi)


Cwestiwn: Pa mor effeithiol oedd y gweithdy hyfforddi'r hyfforddwr wrth eich paratoi i gefnogi gweithgareddau Diogelu rhag Tlodi?



Disgrifiad o Ffigur 4: Siart colofnau yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 18) ar ba mor ddefnyddiol y canfuwyd gweithdy hyfforddi'r hyfforddwr. Rhoddodd yr holl ymatebwyr sgôr gadarnhaol i'r gweithdy, gyda'r mwyafrif yn nodi ei fod yn 'dda' a'r gweddill ei fod yn 'rhagorol'. Ni nododd unrhyw ymatebwyr ei fod yn 'weddol', 'gwael' na 'gwael iawn'.

Ffigur 5: Hyder yn rôl yr archwilydd (n = 18 – ymatebwyr wedi'u hyfforddi fel archwilydd Diogelu rhag Tlodi)

Cwestiwn: Pa mor hyderus oeddech chi'n teimlo yn eich rôl fel archwilydd?



Disgrifiad o Ffigur 5: Siart colofnau yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 18) ar hyder yn rôl yr archwilydd. Nododd dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn teimlo

braidd yn hyderus. Nododd lleiafrifoedd bach eu bod yn hyderus iawn, braidd yn ddihyder, ddim yn hyderus nac yn ddihyder, neu'n ansicr.

Ochr yn ochr â'r safbwyntiau cadarnhaol hyn, nodwyd rhai cyfyngiadau ymarferol mewn trafodaethau ansoddol. Adroddodd un arweinydd nad oedd presenoldeb bob amser yn gyson oherwydd pwysau amser ac ymrwymïadau ysgol sy'n cystadlu, a bod colli sesiynau wyneb yn wyneb yn anfantais, oherwydd bod y rhain yn cael eu hystyried yn baratoad mwy effeithiol na dewisiadau amgen ar-lein. Teimlai un arall nad oedd yr hyfforddiant yn mynd i'r afael yn ddigonol ag ymarferoldeb cynnal archwiliadau mewn ysgolion, gyda llawer o'r dysgu ymarferol trwy brofiad uniongyrchol a dysgu gan gymheiriaid o fewn y clwstwr yn lle. Gwnaed sawl awgrym ar gyfer cryfhau'r hyfforddiant, gan gynnwys trefnu cyfranogwyr yn grwpiau clwstwr o'r cychwyn cyntaf, annog cyfranogiad ehangach gan staff o fewn ysgolion, ac ymestyn gweithgareddau drwy brofiadau i fwy o staff i feithrin ymwybyddiaeth ehangach.

“Roedd yn glir iawn gan Children North East yr hyn oedd ei angen arnyn nhw, a gwneuthum yn siŵr bod yr amserlen yn adlewyrchu hynny, felly roedd yr eglurder ynghylch hynny yn dda. Roedd hi'n anodd iawn i'r staff cynradd fod yn bresennol drwy gydol y sesiynau hyfforddi. Daeth rhai i mewn am gyfnod byr, ond nid oedd cysondeb o reidrwydd iddyn nhw, ac roedd hi'n amhosibl eu cael nhw allan o'u hysgolion am yr holl amser.” (Arweinydd ysgol)

“Roedd cael rhywun profiadol yno i arsylwi yn ddefnyddiol iawn – fe wnaethon nhw eistedd yn y grwpiau ffocws, ac rydw i'n meddwl bod hynny o fantais iddyn nhw o ran cynnal eu rhai eu hunain. Ond byddaf yn onest, dysgais fwy o fynd i mewn a gwneud yr archwiliad fy hun nag o unrhyw beth arall.” (Arweinydd ysgol)

4.1.2.3 Archwilio

Roedd yr adborth ar y broses archwilio yn gymysg, gyda phersonél ysgolion yn adlewyrchu'r gwerth a gafodd ysgolion ohoni a'r gofynion ymarferol yr oedd yn eu gosod arnynt.

Datgelodd trafodaethau ag arweinwyr ysgolion sawl ffactor hwyluso a gefnogodd ddarpariaeth effeithiol. Gwerthfawrogwyd y strwythur a'r cymorth a ddarparwyd gan Children North East, gydag amserlenni clir a disgwyliadau wedi'u diffinio'n dda yn helpu ysgolion i lywio'r broses yn hyderus. Ystyriwyd bod presenoldeb personol staff Children North East yn bwysig hefyd, oherwydd eu harbenigedd ac oherwydd y hygrededd yr oedd yn ei roi i'r broses. Er enghraifft, eglurodd un arweinydd ysgol fod rôl Children North East yn ei gwneud hi'n haws fframio newidiadau dilynol fel ymatebion i dystiolaeth allanol yn hytrach na dewis mewnol ysgol.

“Mae cael rhywun allanol i ddod i mewn yn fuddiol o ran codi'r proffil – mae'n rhywbeth roedden ni'n ystyried ei wneud beth bynnag, ond mae cael pâr o lygaid allanol pan fyddwch chi'n edrych i yrru pethau yn eu blaen yn golygu y gallwch chi ddweud eich bod chi'n ymateb i adborth allanol, ac rwy'n credu bod hynny wedi bod o fudd mewn sawl ffordd. Roedd hefyd yn broses drylwyr – roedd nifer sylweddol o staff a dysgwyr yn rhan o'r broses, ac nid oedd yn teimlo fel ymarfer symbolaidd lle mae rhywun yn dod i mewn ac yn siarad am hanner awr.” (Arweinydd ysgol)

Myfyriodd arweinwyr ysgolion hefyd ar werth ehangach yr archwiliad y tu hwnt i'w swyddogaeth weithredol. I ddysgwyr, gwelwyd bod y broses yn meithrin ymdeimlad o berthyn a theimlad bod eu llais yn cael ei glywed. I staff, roedd yn gyfle i fyfyrion. Nododd un arweinydd, er enghraifft, fod cwestiynu allanol wedi ysgogi edrych yn agosach ar arferion fel costau teithiau a allai fel arall fynd heb eu harchwilio.


Ar yr un pryd, disgrifiwyd yr archwiliadau fel rhai heriol yn ymarferol. Roedd cydlyn ar draws adrannau a rhyddhau staff a dysgwyr o wersi yn creu pwysau llwyth gwaith. Cwestiynodd rhai arweinwyr a ellid bod wedi cyflawni'r un canlyniadau trwy ddull ysgafnach, ac ystyriwyd bod yr amserlen ar gyfer cwblhau yn dynn o ystyried blaenoriaethau ysgol sy'n cystadlu.

“Mae llawer o fewn yr archwiliad yr oeddem eisoes yn ei wybod, ac rwy'n credu y gellid crynhoi'r broses yn bendant. Er ei fod yn werthfawr iawn, mae'r amser y mae wedi'i gymryd i staff cynradd ddod allan, i'n staff ni fynd i ysgolion cynradd, ac i gwblhau'r archwiliad ei hun, yn ormod mewn amgylchedd mor brysur.” (Arweinydd ysgol)

Mae ymatebion arolwg gan ysgolion a oedd wedi cwblhau'r archwiliad o leiaf yn rhannol (n = 14) yn cefnogi'r myfyrdodau hyn. Fel y dangosir yn Ffigur 6 below, roedd tua hanner (n = 6) yn ei chael hi'n “eithriadol o heriol” (n = 2) neu'n “gymharol heriol” (n = 4), gyda'r hanner arall (n = 7) yn nodi eu bod wedi'i chael hi'n “ychydig yn heriol”, a dim ond un ymatebydd yn nodi “ddim yn heriol o gwbl”.

Ffigur 6: Anhawster canfyddedig wrth gwblhau'r archwiliadau (n = 14 – ymatebwyr o ysgolion lle cwblhawyd yr archwiliadau)

Cwestiwn: Pa mor heriol oeddech chi'n teimlo bod y broses archwilio ar y cyfan



Disgrifiad o Ffigur 6: Siart colofnau yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n =


14) ar anhawster canfyddedig cwblhau'r archwiliadau. Nododd tua hanner yr ymatebwyr fod y broses ychydig yn heriol, ac yna'n gymharol heriol ac yna'n eithriadol o heriol. Nid oedd lleiafrif bach yn ei chael hi'n heriol o gwbl, ac ni ddewisodd yr un ymatebydd 'Dydw i ddim yn gwybod' nac 'Mae'n well gennyf beidio ag ateb'.

O ran yr amser a gymerodd i gwblhau'r archwiliad (Ffigur 7 below), honnodd dros hanner yr ymatebwyr ($n = 8$) ei bod yn broses "braidd yn anhylaw" ($n = 5$) neu'n "anhylaw iawn" ($n = 3$). Pan ofynnwyd iddynt am ba mor hawdd oedd ymgysylltu â gwahanol randdeiliaid (

Ffigur 8 belowisod), rhieni oedd y grŵp anoddaf, gyda rhyw thraean (n = 6) o'r ymatebwyr yn nodi anhawster cymedrol neu sylweddol. Mewn cyferbyniad, ystyriwyd mai dysgwyr oedd y grŵp hawsaf i ymgysylltu ag ef, gyda thros hanner yr ymatebwyr (n = 9) yn nodi nad oeddent yn cael unrhyw anhawster o gwbl wrth wneud hyn.

Ffigur 7: Addasrwydd canfyddedig hyd yr archwiliadau (n = 14 – ymatebwyr o ysgolion lle cwblhawyd yr archwiliadau)


Cwestiwn: Yn eich barn chi, pa mor hylaw oedd yr ymrwymiad o ran amser oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad?



Disgrifiad o Ffigur 7: Siart colofnau yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 14) ar addasrwydd canfyddedig hyd yr archwiliad. Roedd dros hanner yr ymatebwyr o'r farn bod yr ymrwymiad amser braidd yn anhylaw, gydag ychydig yn llai o'r farn bod yr ymrwymiad amser braidd yn hylaw. Adroddodd niferoedd llai ei fod yn anhylaw iawn, gyda nifer cyfartal yn nodi ei fod yn niwtral ac yn hylaw iawn. Ni ddewisodd unrhyw ymatebwyr 'Dydw i ddim yn gwybod' nac 'Mae'n well gennyf beidio ag ateb'.

Ffigur 8: Heriau canfyddedig wrth gyflawni'r archwiliadau (n = 14 – ymatebwyr o ysgolion lle cwblhawyd yr archwiliadau)

Cwestiwn: Yn fwy penodol, pa mor heriol i chi oedd y broses o gasglu adborth gan y grwpiau canlynol fel rhan o'r archwiliad?



Disgrifiad o Ffigur 8: Siart bar wedi'i bentyrru yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 14) ar yr heriau canfyddedig wrth gasglu adborth yn ystod yr archwiliad. Gan amlaf, roedd casglu adborth gan ddysgwyr, staff ysgol a llywodraethwyr ysgol yn cael ei nodi fel rhywbeth nad oedd yn heriol o gwbl neu ychydig yn heriol. Mewn cyferbyniad, adroddwyd amlaf bod y broses o gasglu adborth gan rieni/gofalwyr ychydig yn heriol, ac yna gymharol heriol a heriol iawn, gyda llai yn nodi nad oedd yn heriol o gwbl.

4.1.2.4 Myfyrdodau cyffredinol ar weithredu'r rhaglen

Y tu hwnt i adborth ar elfennau penodol o'r rhaglen, roedd y trafodaethau â phersonél ysgolion yn ymwneud â phrofiadau ehangach o weithredu'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi.

Ar y cyfan, nododd arweinwyr ysgolion fod y rhaglen Diogelu rhag Tlodi wedi creu amser i fyfyrion ar eu hymarfer proffesiynol, a disgwyliad y byddai hyn yn raddol yn arwain at newidiadau ymarferol. Disgrifiodd arweinwyr ysgolion y broses fel un a oedd yn galluogi ysgolion i gydweithio'n agosach a chydweithio. Yn ogystal, siaradodd arweinwyr ysgolion yn gadarnhaol am y cymorth a ddarparwyd gan Children North East, gan ddisgrifio'r tîm fel un hawdd mynd ato, gwybodus ac ymatebol, tra hefyd yn nodi bod amlygrwydd Children North East ar draws llawer o ysgolion yn eu rhoi mewn sefyllfa ddefnyddiol i godi materion cyffredin ar lefel yr awdurdod lleol neu'r genedl, a bod y rhwydwaith Cymru gyfan y gwnaethon nhw helpu i'w sefydlu wedi rhoi cyfle i ysgolion rannu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Fodd bynnag, tynnodd arweinwyr ysgolion sylw hefyd at y ffaith bod y rhaglen yn gosod gofynion sylweddol ar gapasiti ysgolion, o ystyried y lefelau llwyth gwaith uchel eisoes a'r adnoddau ariannol a staffio cyfyngedig o fewn ysgolion. Codwyd pryderon hefyd ynghylch y

gofynion o ran adrodd sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi. Canfu staff nad oedd yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad bob amser yn cyd-fynd â gofynion y templed ar gyfer yr adroddiad terfynol, gan greu rhywfaint o ddyblygu ymdrech ac ansicrwydd ynghylch ble y dylid gosod deunydd. Ar lefel y clwstwr, nodwyd cydlynu cyfranogiad ar draws ysgolion fel pwynt pwysau hefyd, gyda rhai arweinwyr yn ei chael hi'n anodd cynnal cyfranogiad ochr yn ochr â chyfrifoldebau presennol.

“Ar y dechrau, dydw i ddim yn siŵr a allem fod wedi buddsoddi mwy nag a wnaethom ac fe wnaethon ni fuddsoddi lle gallem. Ond doeddwn i ddim yn hollol glir i ddechrau ynglŷn â lefel yr ymrwymiad oedd ei hangen: maint y broses adolygu gan gymheiriaid, hyd yr adroddiadau, a phopeth oedd angen digwydd. Wedi dweud hynny, cafodd ei addasu a'i wella wrth i ni fynd ymlaen, ac rwy'n credu bod pwy bynnag a gwblhaodd yr [archwiliad] terfynol yn ôl pob tebyg wedi ei chael yn dasg llawer haws. Roedd yn fwy o broblem gyfathrebu o fewn y clwstwr, a aeth ychydig yn waeth ar y dechrau.” (Arweinydd ysgol)


4.1.2.5 Argymhellion gan Children North East

Yn dilyn y broses o gofnodi eu profiadau ar draws gweithgareddau'r rhaglen, y maes nesaf a archwiliwyd oedd yr argymhellion a ddaeth i law gan Children North East. Myfyriodd personél ysgolion ar a oeddent wedi cael argymhellion, pa mor ddefnyddiol oeddent, a'r meysydd penodol yr oedd wedi'u cwmpasu ganddynt.

Ymhlith staff ysgolion a holwyd, rhoddodd yr arolwg fewnwelediad cyfyngedig i'r cynnydd a wnaed ar gael argymhellion. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu amseriad casglu data, gan i'r arolwg gael ei weinyddu ym mis Hydref 2025, ac ar yr adeg honno efallai na fydd llawer o ysgolion wedi cyrraedd y cam hwn o'r broses eto. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cael argymhellion gan Children North East (Ffigur 9below), dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr (n = 23; 38%) eu bod wedi cael argymhellion, tra oedd tua hanner (n = 27; 44%) yn nodi nad oeddent yn gwybod.

Ffigur 9: Darparu argymhellion gan Children North East
(n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi)

Cwestiwn: A yw eich ysgol wedi cael set o argymhellion gan Children North East?




Disgrifiad o Ffigur 9: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 61) ynghylch a gafodd ysgolion argymhellion gan Children North East. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd 'Dydw i ddim yn gwybod' ac yna 'Ydy', 'Nac ydy' ac 'Mae'n well gennyf beidio ag ateb'.

Ymhlith y rhai a nododd eu bod wedi cael argymhellion (Ffigur 10 below), roedd tua hanner (n = 12) o'r farn eu bod yn ddefnyddiol, tra oedd eraill (n = 5) yn mynegi barn niwtral, gyda dim ond un ymatebydd yn darparu adborth negyddol. Nododd yr un gyfran (n = 5) nad ydyn nhw'n gwybod neu y byddai'n well ganddyn nhw beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Ffigur 10: Pa mor ddefnyddiol y canfuwyd bod argymhellion gan Children North East (n = 23 – ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael argymhellion)

Cwestiwn: Yn eich barn chi, pa mor ddefnyddiol oedd yr argymhellion?




Disgrifiad o Ffigur 10: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 23) ar ba mor ddefnyddiol y canfuwyd argymhellion gan Children North East. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd 'Yn ddefnyddiol i ryw raddau' ac yna 'Niwtral', 'Dydw i ddim yn gwybod' ac 'Mae'n well gennyf beidio ag ateb'. Roedd nifer llai o ymatebwyr yn nodi 'Defnyddiol iawn' neu 'Ddim yn ddefnyddiol o gwbl' ac ni ddewisodd unrhyw un 'Ddim yn ddefnyddiol iawn'.

O ran cynnwys yr argymhellion hyn (Ffigur 11 below), roedd yr argymhelliad a ddyfynnwyd amlaf yn ymwneud â newidiadau yng nghostau gwisg ysgol, a adroddwyd gan dros hanner yr ymatebwyr (n = 15), ac yna argymhellion yn ymwneud â bwyd (n = 9). Adroddodd cyfran lai o ymatebwyr argymhellion ynghylch cymorth i fyfyrwyr, adnoddau a gwaith cartref, tra mai dim ond ychydig a soniodd am argymhellion a oedd yn anelu at fynd i'r afael â bwlio, y celfyddydau a thechnoleg, neu ddiwygio'r cwricwlwm.

Ffigur 11: Meysydd a gwmpesir gan argymhellion Children North East (n = 23 – ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael argymhellion)

Cwestiwn: Pa feysydd penodol yr oedd yr argymhellion yn ymdrin â nhw? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.



Disgrifiad o Ffigur 11: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 23) ar y meysydd a gwmpesir gan argymhellion Children North East. Y meysydd a adroddwyd amlaf oedd costau gwisg ysgol ac yna bwyd, dathliadau, gwobrau, ymddygiad a phresenoldeb. Y meysydd a ddewiswyd leiaf oedd diwygiadau i'r cwricwlwm, y celfyddydau a thechnoleg, bwlio, a llais myfyrwyr.

Mae trafodaethau ansoddol â phersonél ysgolion yn taflu goleuni pellach ar farn ysgolion am yr argymhellion. Yn gyffredinol, roedd staff yn eu cael yn ddefnyddiol ac yn berthnasol, gan eu disgrifio fel rhai sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau presennol yn hytrach na chyfeirio at gyfeiriadau cwbl newydd. Gwnaethant nodi bod y gwerth yn ymwneud yn llai â dod â gwybodaeth hollol newydd i'r amlwg a mwy mewn rhoi cyfle i adolygu polisïau ac arferion dyddiol o safbwynt tlodi, ac i ddilysu a phroffesiynoli ymhellach waith sydd eisoes ar y gweill.

“Doedd dim byd yn yr argymhellion nad oedden ni eisoes yn gwybod amdano. Wedi dweud hynny, fe wnaethant ganiatáu inni ffurfioli pethau, gan ddod â phroblemau i'r holl staff mewn ffordd na fyddai efallai wedi digwydd fel arall. [...] Ond roedden ni eisoes yn ymwybodol o rai o'r problemau allweddol, fel bwyd a thripiâu ysgol.” (Arweinydd ysgol)

Roedd staff yn myfyrio amlaf ar argymhellion mewn tri maes: (i) triapiau ysgol, (ii) costau gwisg ysgol, a (iii) darparu bwyd. Ar gyfer triapiau, dywedwyd bod yr archwiliad wedi annog craffu manylach ar gostau drwy lens tlodi cryfach. O ran gwisg ysgol, disgrifiodd ysgolion y broses o adeiladu ar waith presennol i leihau costau a mynd i'r afael â stigma – er enghraifft, drwy gael gwared ar gitiau addysg gorfforol â brandiau drud ac adolygu gofynion gwisg ysgol gyda'r llywodraethwyr. Nodwyd bwyd fel y maes mwyaf heriol, yn bennaf oherwydd rheolaeth yr awdurdod lleol dros arlwy, sy'n cyfyngu ar yr hyn y gall ysgolion ei newid yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd y canfyddiadau'n dal i gael eu hystyried yn ddefnyddiol wrth gryfhau trafodaethau â'r awdurdod lleol a mireinio cymorth wedi'i dargedu fel clybiau brecwast a grantiau bwyd.

“Y tri maes allweddol a ddaeth yn ôl yn yr adborth oedd cyfleoedd ychwanegol o ran triapiau, bwyd a gwisg ysgol. [...] Roedden ni eisoes wedi nodi triapiau fel maes lle, fel ysgol, nad oedden ni'n edrych ar bethau drwy lens tlodi. Mae'r awgrymiadau a ddaeth o'r archwiliad wedi bod yn wirioneddol fuddiol wrth ein helpu i newid ein hymagwedd gyfan at weithgareddau allgyrsiol. [...] Roedd cael hynny fel argymhelliad ffurfiol yn yr adroddiad yn werthfawr iawn, oherwydd roedd yn rhywbeth yr oeddem eisoes yn teimlo bod angen i ni weithio arno.”
(Arweinydd ysgol)

“Rydyn ni wedi dechrau gwneud gwaith am y stigma sy'n gysylltiedig â benthyca gwisg ysgol neu gael gwisg ysgol o frawd neu chwaer hŷn. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau. Er enghraifft, nid oes rhaid cael brand ar ein cit addysg gorfforol mwyach, sy'n ei wneud yn llai drud. Ac rydym yn cael sgysiau parhaus am rannau eraill o'r wisg ysgol: yr hyn sydd angen ei frandio a'r hyn sydd ddim.”
(Arweinydd ysgol)

Er bod yr argymhellion yn cael eu croesawu ar y cyfan, nodwyd rhai cyfyngiadau. Ystyriwyd bod rhai awgrymiadau yn synhwyrol mewn egwyddor ond weithiau roeddent y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol ysgolion, gyda phrydau ysgol, a lywodraethir gan yr awdurdod lleol fel y nodwyd uchod, yn enghraifft dda o hyn. Cododd un arweinydd ysgol bwysigrwydd ystyried canlyniadau anfwriadol hefyd. Gan gyfeirio at argymhelliad yn awgrymu bathodynau y gellir gwnïo ar y wisg fel dewis amgen rhatach yn lle gwisg ysgol gyda bathodyn wedi'i frodio, roeddent yn teimlo y gallai hyn gael effaith i'r gwrthwyneb i'r hyn oedd y bwriad mewn gwirionedd, oherwydd y gallai wahaniaethu dysgwyr o deuluoedd ag incwm is mewn ffordd amlwg, gan dynnu sylw at eu hamgylchiadau yn hytrach na lleihau stigma.

“Roedd rhai o'r argymhellion yn eithaf diddorol. Y ffordd y siaradon nhw am hyrwyddo gwisg ysgol ail-law, er enghraifft. Ond roedd eraill lle gallwn weld problemau. Ni fyddai cynnig bathodynau y gellir eu gwnïo, er enghraifft, yn gweithio gyda'n gwisg; byddai mewn gwirionedd yn tynnu sylw at dlodi yn hytrach na'i leihau. Mae'n rhaid i chi feddwl yn ofalus am wahanol elfennau y pethau hyn, oherwydd ni fydd yr hyn sy'n gweithio mewn rhai ysgolion yn gweithio mewn ysgolion eraill.” (Arweinydd ysgol)

“Ar y cyfan, roedd yr adroddiad yn teimlo'n berthnasol iawn, ond roedd rhai meysydd – er enghraifft, ailgylchu gwisg ysgol – lle rydyn ni wedi gweithio'n galed

iawn mewn gwirionedd ac mae'r gwaith eisoes yn mynd rhagddo. Fyddech chi ddim yn darllen yr adroddiad mewn ffordd rwystredig, ond efallai y byddech chi'n meddwl nad yw rhai pethau mor hawdd eu gwneud ag y maen nhw'n ymddangos ar bapur, oherwydd ei fod yn ymwneud â newid diwylliant ac ethos. Nid diffyg ymdrech yw'r broblem, mae'n rhwystr hanesyddol rydyn ni'n dal i frwydro yn ei erbyn fesul tipyn, a dydw i ddim yn siŵr a gafodd hynny ei adlewyrchu'n llawn yn yr adroddiad. Ond wedyn, dyna'r hyn rydyn ni'n myfyrio arno, gan ddod o hyd i'n ffordd ein hunain o fwrw ymlaen ag ef." (Arweinydd ysgol)

4.1.2.6 Cynlluniau gweithredu ysgolion


Gofynnwyd i bersonél ysgolion a oeddent wedi datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion a ddaeth i law, ac, os oeddent, beth oedd y cynllun hwnnw'n ei gynnwys.

Yn yr arolwg (Ffigur 12 below), pan ofynnwyd iddynt am ddatblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion hyn, dywedodd llai na hanner ($n = 10$) o'r ymatebwyr eu bod wedi datblygu un. Dywedodd cyfran nodedig ($n = 10$), "Dydw i ddim yn gwybod". Mae'n debyg bod y canfyddiadau hyn yn adlewyrchu amseriad yr arolwg, a gynhaliwyd cyn i lawer o ysgolion gyrraedd y cam cynllunio ar gyfer gweithredu'r broses.

Mewn cwestiwn agored am gynnwys y cynllun gweithredu, adroddodd yr ymatebwyr ($n = 7$) am ddiwygiadau yn ymwneud â chostau gwisg ysgol, megis sefydlu canolfannau gwisg ysgol a gwneud gwisg ysgol yn fwy fforddiadwy. Yn ogystal, soniodd rhai ymatebwyr am newidiadau arfaethedig o ran bwyd, teithiau a diwrnodau dathlu.

Ffigur 12: Datblygu cynllun gweithredu ysgol ($n = 23$ – ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael argymhellion)

Cwestiwn: A yw eich ysgol wedi datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion?



Disgrifiad o Ffigur 12: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi ($n = 23$) ynghylch a ddatblygodd ysgolion gynllun gweithredu yn seiliedig ar argymhellion gan Children North East. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd 'Ydy' a 'Dwi ddim yn gwybod', a adroddwyd mewn niferoedd cyfartal. Dewisodd llai o ymatebwyr 'Nac ydy' a'r ymateb a ddewiswyd leiaf oedd 'Mae'n well gennyf beidio ag ateb'.

Darparodd trafodaethau ansoddol â phersonél ysgolion fanylion pellach am gynnwys cynlluniau gweithredu, a oedd yn canolbwyntio ar dri phrif faes: gwisg ysgol, tripiâu ysgol, a chymorth ehangach i ddysgwyr dan anfantais. Cydnabuwyd bod cynlluniau gweithredu yn dal yn gymharol newydd ar adeg yr ymgysylltu ac nad oedd pob ysgol wedi rhoi ar waith yr holl gamau gweithredu a argymhellwyd. O ran gwisg, roedd y camau gweithredu allweddol yn cynnwys sefydlu canolfan gwisg ysgol sy'n darparu eitemau am ddim a newid citiau addysg gorfforol fel nad oes brandiau arnynt, fel y crybwyllwyd yn gynharach. Ar dripiâu, rhoddodd staff o ysgol a oedd yn cymryd rhan wybod i'r tîm ymchwil am oruchwylio costau'n llymach, cyfathrebu prisiau'n gynharach i helpu teuluoedd i gynllunio ymlaen llawn, a negeseuon mwy penodol ynghylch cymorth ariannol i ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn dilyn cydnabod nad oedd pob teulu wedi bod yn ymwybodol bod opsiynau o'r fath yn bodoli. Hefyd, fe wnaeth rhai ysgolion ymgorffori'r argymhellion yn ehangach, gan fabwysiadu safbwynt tlodi ar draws y broses o gynllunio gwelliannau a chyfarfodydd â rheolwyr llinell, a defnyddio grantiau allanol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr dan anfantais.

4.2 Deilliannau'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi

Archwiliodd yr arolwg deilliannau canfyddedig ar draws gwahanol grwpiau o fewn cymunedau ysgolion, gan gynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff ysgol, a'r ysgol gyfan. Yn benodol, edrychodd ar y deilliannau canlynol ar gyfer pob grŵp:

- dysgwyr: newidiadau mewn cyfraddau presenoldeb, ymgysylltu â gweithgareddau ysgol, ymddygiad, a llesiant
- rhieni/gofalwyr: newidiadau mewn ymgysylltu â'r ysgol, ymddiriedaeth yn yr ysgol, a llesiant rhieni
- staff ysgol: ansawdd y cydberthnasau â rhieni/gofalwyr, dealltwriaeth o dlodi a'i effaith ar ddysgu, y gallu i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi, a diwylliant arweinyddiaeth
- yr ysgol (yn gyffredinol): diwylliant yr ysgol, cynhwysiant polisïau, a sefydlu a rhannu'r arferion gorau

Roedd cyfweiliadau a grwpiau ffocws yn ymdrin â'r un themâu wrth roi'r hyblygrwydd i gyfranogwyr drafod y materion hyn yn eu geiriau eu hunain, gydag enghreifftiau penodol yn cael eu defnyddio fel awgrymiadau pan fo angen. Ar draws yr holl ymdrechion ymgysylltu, barn a gododd dro ar ôl tro oedd ei bod hi'n rhy gynnar i asesu deilliannau'r rhaglen. Roedd hyn yn amlwg yn yr arolwg, lle'r oedd yr ymatebion "Rhy gynnar i ddweud" i gwestiynau yn ymwneud â deilliannau yn amrywio o 35 allan o 61 o ymatebwyr (57%) i 23 allan o 51 o ymatebwyr (38%). Cyflwynir y canfyddiadau isod, wedi'u trefnu o'r grwpiau lle adroddwyd am yr effaith ganfyddedig yn fwyaf cyson (staff ysgol a pholisi ehangach yr ysgol) i'r rhai lle'r oedd yn llai sicr (rhieni/gofalwyr a dysgwyr).

4.2.1 Deilliannau i staff ysgol

Siaradodd personél ysgolion yr ymgysylltodd yn ansoddol â nhw yn gadarnhaol am effaith ymgysylltu â'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi ar staff ar draws eu hysgolion. Un deiliant a grybwyllwyd oedd bod staff wedi datblygu dealltwriaeth gyffredin o dlodi, gan roi iaith

gyffredin iddynt a synnwyr cliriach o'r hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol. Roedd fframwaith Children North East yn darparu cyfeirbwynt cyson, ac roedd rhai ysgolion o'r farn bod hyn wedi helpu i wneud tlodi yn ystyriaeth fwy rheolaidd mewn trafodaethau a phrosesau'r ysgol. Disgrifiodd arweinydd ysgol arall newid yn "ethos yr ysgol", gan egluro sut roedd "lens tlodi" wedi dod yn rhan annatod o gyfarfodydd staff, gan annog staff i gwestiynu costau cudd ac effaith polisïau a gweithgareddau ar ddysgwyr dan anfantais.

"Mae'r effaith yn sicr yn amlwg nawr. Pan fyddwn yn cyfarfod â'n harweinwyr canol, mae dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim bob amser ar yr agenda, mae ganddyn nhw broffil uchel yn yr ysgol, ac mae hynny'n treiddio i lawr i feysydd cyfadran. Mewn cyfarfodydd data, rydym yn siarad yn benodol am ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim gydag arweinwyr canol ac athrawon dosbarth." (Arweinydd ysgol)

I arweinyddiaeth ysgolion, gwelwyd bod y rhaglen yn darparu amser a lle defnyddiol i fyfyrion ar arferion, rhywbeth a nodwyd ganddynt y gall cyflymder bywyd ysgol ei gwneud yn anodd dod o hyd iddo. Roedd Diogelu rhag Tlodi hefyd yn gysylltiedig â chryfhau cydberthnasau ar draws clystyrau ysgolion. Nododd un arweinydd hefyd, wrth weithio o fewn eu clwstwr, fod cydweithio ag ysgolion cynradd wedi gwella, gan gefnogi gwell dealltwriaeth ar draws cyfnodau a meddwl mwy cysylltiedig am y cyfnod pontio.

"Un o'r pethau cadarnhaol yn bersonol a ddaeth allan ohono i mi oedd ymweld ag ysgolion cynradd. A dweud y gwir, roedd yn un o'r pethau gorau rydw i wedi'u gwneud o ran datblygiad proffesiynol ers blynyddoedd. Er gwaethaf popeth rydyn ni'n ei ddweud am beidio â chael amser, roedd cael yr amser hwnnw wedi'i neilltuo i fynd i ysgol gynradd a byw ac anadlu'r profiad o ddifrif am gwpl o ddiwrnodau yn wirioneddol werthfawr. [...] Cefais gyfle i siarad â'r disgyblion a gwrando ar yr hyn oedd ganddyn nhw i'w ddweud, a oedd yn wych. Ac fel y dywedwyd, mae wedi dod â'n clwstwr yn agosach at ei gilydd. Rydw i bellach yn gweithio'n llawer agosach gyda chydweithiwr mewn ysgol gynradd, ac fe gawson ni drafodaethau proffesiynol cyfoethog iawn yn y pen draw." (Arweinydd ysgol)

Fodd bynnag, dylid cydnabod bod arweinwyr a staff ysgolion wedi nodi bod eu hysgolion eisoes yn gymharol ymwybodol o faterion yn ymwneud â thlodi ac yn sensitif iddynt cyn ymgysylltu â'r rhaglen. Yn y cyd-destunau hyn, disgrifiwyd y deilliannau uchod yn fwy fel elfennau yn atgyfnerthu ac yn dyfnhau ymdrechion presennol nag fel rhai sy'n arwain at newid sylfaenol mewn agweddau.

"Roedden ni'n eithaf ymwybodol o hynny eisoes, os ydw i'n onest. O weithio yn yr ysgol rydyn ni'n gweithio ynddi, mae ein staff yn ymwybodol ohono hefyd. Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith yn y maes hwnnw, felly fyddwn i ddim yn dweud ei fod wedi codi unrhyw beth nad oedden ni eisoes yn ei wybod." (Arweinydd ysgol)

Mae canfyddiadau'r arolwg yn ategu'r themâu ansoddol a amlinellwyd uchod. Ar y cwestiynau yn ymwneud â deilliannau'r rhaglen ar gyfer staff ysgolion (Ffigur 13 below), y deiliant a adroddwyd amlaf oedd cynnydd mewn ymwybyddiaeth o dlodi, gyda thua hanner personél yr ysgolion (n = 29; 48%) yn nodi bod cymryd rhan yn y rhaglen wedi gwella eu

dealltwriaeth o dlodi a'i effaith ar ddysgu yn sylweddol (n = 5; 8%) neu rywfaint (n = 24; 39%). Adroddodd cyfran debyg (n = 28; 46%) hefyd welliant sylweddol (n = 3; 5%) neu rywfaint (n = 25; 41%) yn eu gallu i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi yn eu lleoliadau ysgol.

Cafodd newidiadau yn y diwylliant arweinyddiaeth eu crybwyll hefyd gan lai na hanner yr ymatebwyr (n = 26; 43%). Daeth ymgysylltu gwell â rhieni/gofalwyr i'r amlwg fel y maes lle'r oedd y dystiolaeth leiaf, gyda dim ond lleiafrif (n = 16; 26%) yn nodi gwelliant, a thua hanner (n = 29; 48%) yn nodi ei bod hi'n rhy gynnar i ddweud.

Ffigur 13: Diogelu rhag Tlodi – deilliannau i staff ysgol (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi)

Cwestiwn: Ar gyfer pob un o'r meysydd canlynol, nodwch sut mae pethau wedi newid ymhlith staff yr ysgol ers i'r rhaglen ddechrau.



Disgrifiad o Ffigur 13: Siart bar wedi'i bentyrru yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 61) ar newidiadau canfyddedig yn y deilliannau i staff ysgolion. Ar draws pob maes (diwylliant arweinyddiaeth, dealltwriaeth o dlodi a'i effaith ar ddysgu, y gallu i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi, a chydberthnasau â rhieni/gofalwyr), yr ymateb mwyaf cyffredin oedd 'Rhy gynnar i ddweud' ac yna 'Wedi gwella rhywfaint'. Adroddodd cyfrannau llai fod meysydd 'Wedi gwella'n sylweddol' neu fod 'Dim newid' neu 'Mae'n well gennyf beidio ag ateb'.

4.2.2 Deilliannau ehangach ar gyfer polisïau ysgolion

Mae dystiolaeth ansoddol yn tynnu sylw at rai ysgolion yn cyflwyno newidiadau sefydliadol neu weithdrefnol yr oedd cyfranogwyr yn eu cysylltu â'u cyfranogiad yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi. Mae'r ffaith bod y rhaglen yn y cyfnod cynnar o gael ei gweithredu a'r ffaith bod mentrau gwella ysgolion ehangach ar waith hefyd yn ei gwneud hi'n anodd priodoli'r newidiadau hyn yn uniongyrchol i'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi.

O ran cynhwysiant arferion yr ysgol, myfyriodd staff o un ysgol, er enghraifft, eu bod wedi dechrau cwestiynu a oedd cosbi dysgwyr am fethu â dod â chit addysg gorfforol yn briodol pan oedd yr achos yn ariannol yn hytrach nag yn fater o agwedd neu ymdrech. Nododd staff

o'r un ysgol hefyd fod eu hysgol wedi gwneud newidiadau i'r ffordd roedd tripiâu ysgol a gweithgareddau eraill yn cael eu cyfleu a'u hariannu, gan gyflwyno cyhoeddi costau'n gynharach, negeseuon ariannol cliriach, a chynlluniau talu mwy hyblyg i leihau'r pwysau ar deuluoedd.

“A ddylai plentyn gael ei gosbi mewn gwirionedd am rywbeth sydd allan o'u rheolaeth, os na all eu rhieni fforddio'r cit addysg gorfforol? Mae wedi gwneud i mi feddwl yn fwy gofalus am hynny. Ac o ran tripiâu ysgol, rwy'n ceisio bod yn fwy ymwybodol o'r cyfle y mae'r profiadau hynny'n ei ddarparu, a sut y gallwn ni helpu ychydig mwy, er bod costau cludiant a ffactorau tebyg allan o fy nwylo i i raddau helaeth. Rydw i'n edrych ar ba gronfeydd ariannu y gallwn eu tynnu at ei gilydd i gefnogi mwy o deuluoedd. Ond, yn gyffredinol, yr hyn y mae'n ei wneud yw tynnu eich sylw mewn ffordd gadarnhaol.” (Staff ysgol)


Ymddengys hefyd fod ymgysylltu â'r rhaglen wedi ysgogi newidiadau strategol a gweithredol ehangach. I un ysgol, roedd hyn yn cynnwys cryfhau seilwaith cymorth fel hybiau gwisg ysgol a phrosesau cymorth ariannol, ochr yn ochr â chyflwyno menter drafnidiaeth beilot i fynd i'r afael â rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl yr ysgol. Adroddodd yr arweinydd o'r ysgol hon hefyd am newid pendant yn ymgysylltu'r awdurdod lleol, gyda'r awdurdod yn cyd-fynd fwyfwy â gwaith diogelu rhag tlodi'r ysgol ac yn mabwysiadu dull diogelu rhag tlodi ehangach i'w ddarpariaeth ei hun. Mewn ysgol arall, nododd arweinydd fod ymwybyddiaeth uwch gan staff wedi arwain at gofnodi pryderon ynghylch lles yn fwy cyson, gyda chynnydd mewn logiau diogelu yn ymwneud ag ymddangosiad a dillad dysgwyr, ac achosion lle roedd dysgwr wedi sôn am fod yn llwglyd.

“Roedden ni am gael mwy o'n dysgwyr i aros ar ôl yr ysgol, a thros y pedwar mis diwethaf rydym ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i gynyddu'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr allanol ar ôl yr ysgol. [...] Ymatebodd yr awdurdod lleol drwy roi bws hwyr fel cynllun peilot, yn rhedeg am 4.30pm bob nos, o ddydd Llun i ddydd Iau, ac rwy'n credu bod hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith rydym ni wedi bod yn ei wneud. Dydw i ddim wedi cael gwybod hynny'n benodol, ond rydw i hefyd yn teimlo bod yr awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull ehangach sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ddiogelu rhag tlodi. Maen nhw â diddordeb mewn sut mae pethau'n gweithio, ac maen nhw wedi cyd-fynd yn agos iawn â ni o ystyried y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud.” (Arweinydd ysgol)

Mae tystiolaeth o'r arolwg yn awgrymu bod yr effaith ar strwythurau ysgolion yn dal i ddod i'r amlwg. Ar y cwestiynau yn ymwneud â deilliannau'r rhaglen ar gyfer yr ysgol yn ehangach (Ffigur 14 below), nododd tua thraean o'r ymatebwyr welliant yn niwylliant cyffredinol yr ysgol ($n = 20$; 33%), yng nghynhwysiant polisïau a gweithdrefnau'r ysgol ($n = 20$; 33%), ac wrth sefydlu a rhannu dulliau arferion gorau o fewn yr ysgol ($n = 21$; 34%). Ar yr un pryd, dywedodd tua hanner yr ymatebwyr ar draws achosion ei bod yn “rhy gynnar i ddweud”.

Ffigur 14: Diogelu rhag Tlodi – deilliannau i ysgolion (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi)

Cwestiwn: Ar gyfer pob un o'r meysydd canlynol, nodwch sut mae pethau wedi newid i'ch ysgol yn gyffredinol ers iddi ddechrau gweithredu'r rhaglen.




Disgrifiad o Ffigur 14: Siart bar wedi'i bentyrru yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 61) ar newidiadau canfyddedig mewn deilliannau cyffredinol i'r ysgol. Ar draws pob maes (sefydlu a rhannu arferion gorau, cynhwysiant polisïau a gweithdrefnau'r ysgol, a diwylliant cyffredinol yr ysgol), yr ymateb mwyaf cyffredin oedd 'Rhy gynnar i ddweud' ac yna 'Wedi gwella rhywfaint', 'Dim newid' ac 'Wedi gwella'n sylweddol'.

Gan droi at newidiadau penodol mewn arferion a adroddwyd gan ysgolion (Ffigur 15 below), nododd tua hanner y personél a holwyd gymorth ar ffurf prydau brecwast (n = 28; 46%), tra oedd tua thraean (n = 22; 36%) yn nodi cymorthdaliadau ar gyfer gwisg ysgol a gostyngiad mewn costau cudd (n = 21; 34%). Adroddodd lleiafrif am fwy o allgymorth teuluol (n = 15; 25%), darparu cyflenwadau ysgol (n = 10; 16%), tiwtora/clybiau ar ôl yr ysgol (n = 10; 16%), mwy o fynediad at dechnoleg yn yr ysgol (n = 8; 13%), disgwyliadau gwaith cartref wedi'u haddasu (n = 7; 11%), a newidiadau mewn polisïau gwisg ysgol (n = 6; 10%).

Mewn ymateb i'r cwestiwn arolwg penagored am y newid mewn polisi gyda'r effaith fwyaf, roedd ymatebwyr yr arolwg yn amlygu'n amlaf newidiadau yn ymwneud â darparu gwisg ysgol (gisg ysgol a ddosberthir gan yr ysgol, wedi'i hail-liwio, neu am ddim), clybiau brecwast a mynediad at fwyd i ddysgwyr sy'n dangos arwyddion o fod yn llwglyd, a dileu costau gweithgareddau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan gynnwys hepgor ffioedd cymryd rhan a rhoi'r gorau i geisiadau am gyfraniadau gwirfoddol.

Ffigur 15: Newidiadau mewn ysgolion o ganlyniad i'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi)

Cwestiwn: Pa rai o'r newidiadau canlynol mewn arferion sydd wedi digwydd yn eich ysgol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.



Disgrifiad o Ffigur 15: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 61) ar newidiadau mewn arferion a weithredwyd gan ysgolion. Y newidiadau a adroddwyd amlaf oedd cymorth brecwast neu brydau bwyd, cymorthdaliadau gwisg ysgol, lleihau costau cudd, a mwy o allgymorth i deuluoedd. Yr ymatebion a ddewiswyd leiaf oedd 'Ddim yn gwybod', 'Arall', a sefydlu banc bwyd brys yn yr ysgol.

4.2.3 Deilliannau i rieni/gofalwyr

Tynnodd personél ysgolion y cyfwelwyd â nhw sylw at sawl newid a fwriadwyd i wella ymgysylltiad â rhieni/gofalwyr, er y dylid nodi bod tystiolaeth o effaith yn y maes hwn yn parhau i fod yn anecdotaidd i raddau helaeth ac, mewn llawer o achosion, roedd ysgolion yn cydnabod bod sawl newid yn digwydd ar yr un pryd, gan ei gwneud hi'n anodd priodoli deilliannau i'r rhaglen yn benodol.

Cyfeiriodd arweinwyr ysgolion at enghreifftiau o welliannau i gyfathrebu ariannol. Disgrifiodd un gyflwyniad calendrau costau a rennir ar ddechrau'r flwyddyn i roi rhybudd ymlaen llaw i deuluoedd o dreuliau sydd ar ddod, ochr yn ochr â chyfeiriadau e-bost ariannol pwrpasol i gyfeirio ymholiadau at yr unigolyn cywir a negeseuon cliriach ynghylch tripiâu ysgol a


diwrnodau dim gwisg ysgol. Adroddodd arweinydd arall gynnydd graddol yn nifer y rhieni/gofalwyr yn dod ymlaen i geisio cymorth ar gyfer triapiau ysgol, gwisg ysgol neu grantiau, gyda staff, mewn rhai achosion, yn helpu teuluoedd i lywio gwaith papur. Fe wnaethon nhw rannu enghraifft o deulu yr oedd eu heglwys wedi cysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol i ofyn am gymorth ychwanegol, a ddisgrifiwyd fel arwydd o'r math o ymddiriedaeth ac ymgysylltu ar lefel y gymuned a oedd wedi datblygu. Mewn ysgol arall, adroddwyd bod rhieni/gofalwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i newidiadau ymarferol fel gwell darpariaeth trafndiaeth, ac roedd adborth unigol wedi dod i law yn mynegi gwerthfawrogiad am y cyfleoedd cynyddol sydd ar gael i'w plant.

“Rydym wedi cyflwyno calendr costau eleni fel y gall rhieni weld o ddechrau'r flwyddyn pryd mae pethau fel diwrnodau elusennol. [...] Fe wnaethon ni hefyd sefydlu cyfeiriad e-bost ariannol pwrpasol, sef syniad a gefais wrth siarad â rhywun yn Children North East, a'i roi ar waith ar unwaith. Yn hytrach nag ymholiadau ariannol yn glanio mewn blwch negeseuon e-bost cyffredinol, maen nhw'n mynd yn uniongyrchol at ein swyddog cyllid [...] Mae'r rhain yn newidiadau cynnil, ond maen nhw'n gwella'r hyn rydyn ni eisoes yn ei wneud.” (Arweinydd ysgol)

Mae tystiolaeth o'r arolwg yn atgyfnerthu'r uchod. Ar y cwestiynau yn ymwneud â deilliannau'r rhaglen i rieni/gofalwyr (Ffigur 16 below), dim ond lleiafrif a nododd welliannau yn llesiant rhieni/gofalwyr (n = 15; 25%), ymddiriedaeth yn yr ysgol (n = 15; 25%), ac ymgysylltiad rhieni â'r ysgol (n = 14; 23%). Ar draws y datganiadau hyn, nododd tua hanner y personél ysgolion a holwyd ei bod hi'n “Rhy gynnar i wybod”.

Ffigur 16: Diogelu rhag Tlodi – deilliannau i rieni (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi)

Cwestiwn: Ar gyfer pob un o'r meysydd canlynol, nodwch sut mae pethau wedi newid i ddysgwyr ers i'r rhaglen ddechrau.



Disgrifiad o Ffigur 16: Siart bar wedi'i bentyrru yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 61) ar y deilliannau canfyddedig i rieni. Ar draws pob maes (llesiant,

ymddiriedaeth yn yr ysgol ac ymgysylltiad rhieni), yr ymateb mwyaf cyffredin oedd ‘Rhy gynnar i ddweud’ ac yna ‘Wedi gwella rhywfaint’ a ‘Dim newid’. Dewisodd cyfrannau llai ‘Mae’n well gennyf beidio ag ateb’ ac ‘Wedi gwella’n sylweddol’.

4.2.4 Deilliannau i ddysgwyr

Mae ymgysylltu ansoddol â phersonél ysgolion yn dangos, ar adeg yr ymgysylltu ym mis Hydref 2025, ei bod hi'n rhy gynnar i ddod i gasgliadau am ddeilliannau i ddysgwyr o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd staff ac arweinwyr yn tueddu i fyfrio ar newidiadau a wnaed i arferion ystafell ddosbarth a pholisi ehangach yr ysgol fel rhai a oedd yn gosod y sylfaen ar gyfer deilliannau gwell, a disgwyliid y byddai'r buddion i ddysgwyr yn dod yn fwy amlwg dros amser.

Fodd bynnag, roedd dwy ysgol yn gallu tynnu sylw at rai enghreifftiau o ddeilliannau cynnar. Mewn un ysgol lle cynhaliwyd cyfweiliad dilynol ym mis Mai 2026, disgrifiodd arweinydd gyflwyniad rhaglen llysgenhadon diogelu rhag tlodi, lle hyfforddwyd pedwar dysgwr trwy raglen strwythuredig chwe wythnos o hyd gyda Children North East, gan gwmpasu sgiliau ymarferol fel cynllunio, trefnu cyfarfodydd, a datblygu mentrau a arweinir gan ddysgwyr. Ers hynny, mae'r dysgwyr wedi ymgymryd â mentrau'n annibynnol, gan gynnwys sefydlu cwpwrdd cymunedol, codi arian, a chysylltu â sefydliadau allanol am gymorth.

“Fe wnaethon nhw [y llysgenhadon diogelu rhag tlodi] gofnodi eu cyfarfodydd eu hunain ac maen nhw ond wedi fy nghynnwys i yn y penderfyniadau strategol ynghylch yr hyn yr hoffen nhw ei wneud a sut rydym ni'n symud ymlaen. [...] Maen nhw hefyd yn y broses o gyflwyno cynllun i'r awdurdod lleol i wneud cais am gyllid ar gyfer y cwpwrdd cymunedol. Mae cyfranogiad y llysgenhadon diogelu rhag tlodi wedi cynyddu cyfranogiad disgyblion yn fawr, ac mae'r effaith wedi bod yn wirioneddol.” (Arweinydd ysgol)

Mewn ysgol arall, amlygwyd tueddiadau cynnar mewn presenoldeb a chyrhaeddiad fel rhai calonogol. Roedd presenoldeb cyffredinol wedi gwella, gyda dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwella ar gyfradd uwch, gan gulhau'r bwlch rhwng dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Er bod arweinydd yr ysgol hon wedi nodi na ellid sefydlu cysylltiad achosol uniongyrchol â'r rhaglen eto, disgrifiwyd y rhain fel arwyddion cynnar addawol yn gyson â'r newid ehangach yn strategaeth yr ysgol.


“Yr hyn a welsom eleni – ac nid wyf yn siŵr a allwn ei briodoli'n uniongyrchol i'r gwaith diogelu rhag tlodi – yw gwelliant sylweddol ym mhresenoldeb dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Gwellodd ein presenoldeb ysgol gyfan 2.8%, ond gwellodd ein presenoldeb gan ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros 5%, a wnaeth leihau'r bwlch. Mae bwlch o hyd, ond mae'n cau. Ac er gwaethaf y ffaith mai dyma'r ysgol fwyaf difreintiedig o ran dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, mae ein presenoldeb bellach yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol.” (Arweinydd ysgol)

Mae tystiolaeth o'r arolwg yn awgrymu bod yr effaith ar ddysgwyr yn parhau i ddod i'r amlwg. Ar y cwestiynau yn ymwneud â deilliannau'r rhaglen i ddysgwyr (Figur 17 below),

dim ond lleiafrif a nododd welliannau mewn llesiant (n = 13; 22%), ymddygiad ac agwedd (n = 13; 22%), ymgysylltiad mewn gweithgareddau a gwersi ysgol (n = 13; 22%), a chyfraddau presenoldeb (n = 10; 16%). Ar draws y datganiadau hyn, nododd mwy na hanner y personél ysgolion a holwyd ei bod hi'n "Rhy gynnar i wybod".

Figur 17: Diogelu rhag Tlodi – deilliannau i ddysgwyr (n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi)

Cwestiwn: Ar gyfer pob un o'r meysydd canlynol, nodwch sut mae pethau wedi newid i ddysgwyr ers i'r rhaglen ddechrau.



Disgrifiad o Ffigur 17: Siart bar wedi'i bentyrru yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 61) ar y deilliannau canfyddedig i ddysgwyr. Ar draws pob maes (llesiant dysgwyr, ymddygiad ac agweddau tuag at gyfoedion sy'n profi tlodi, ymgysylltu â gweithgareddau a gwersi ysgol, a chyfraddau presenoldeb), yr ymateb mwyaf cyffredin oedd 'Rhy gynnar i wybod' ac yna 'Wedi gwella rhywfaint' a 'Dim newid'. Dewisodd cyfrannau llai 'Mae'n well gennyf beidio ag ateb' ac 'Wedi gwella'n sylweddol'.

4.2.5 Canlyniadau anfwriadol a ffactorau cymedroli

Nid oedd canlyniadau anfwriadol yn thema amlwg yn yr ymgysylltu ansoddol na'r arolwg. Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad oedd cyfran sylweddol o ymatebwyr yr arolwg yn gallu dweud a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol wedi digwydd.


Yn y cwestiwn arolwg a oedd yn gofyn am unrhyw ganlyniadau anfwriadol y rhaglen Diogelu rhag Tlodi (

Ffigur 18 below), nododd tua hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn gwybod (n = 23; 48%), tra oedd tua thraean yn nodi nad oedd unrhyw ganlyniadau (n = 23; 38%). Ymhlith y lleiafrif bach a adroddodd am ganlyniadau anfwriadol (n = 3; 4%), roedd y materion a godwyd yn ymwneud â thripiâu allanol lle roedd yn rhaid talu rhai costau o hyd, canfyddiad bod gweithgareddau ysgol wedi dod yn fwy cyfyngedig er mwyn osgoi rhoi pwysau ariannol ar

deuluoedd, ac y bydd y rhai sy'n byw ychydig uwchlaw'r meini prawf ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael llai o gymorth oherwydd ei bod yn anodd eu hadnabod.

Ffigur 18: Canlyniadau anfwriadol y rhaglen Diogelu rhag Tlodi
(n = 61 – ymatebwyr o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi)

Cwestiwn: Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw ganlyniadau anfwriadol o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi
(e.e. myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu dethol yn benodol, neu rai rhaglenni cymorth yn creu rhwystrau i gyfranogiad yn anfwriadol)?



Disgrifiad o Ffigur 18: Siart bar yn dangos ymatebion o'r arolwg Diogelu rhag Tlodi (n = 61) ar ganlyniadau anfwriadol y rhaglen. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd 'Dydw i ddim yn gwybod' ac yna 'Nac ydw'. Dywedodd lleiafrif bach 'Mae'n well gennyf beidio ag ateb' ac 'Ydw'.

Nododd personél ysgolion a arolygwyd amrywiaeth o ffactorau sy'n atal y rhaglen Diogelu rhag Tlodi rhag cael effaith mewn ysgolion. Pan ofynnwyd iddynt am heriau sydd heb eu datrys o hyd, tynnodd yr ymatebwyr sylw at sawl pryder yn yr ymatebion testun agored.

Yr her a nodwyd amlaf yw'r un a gysylltir â chyfyngiadau cyllidebol. Nododd ymatebwyr fod ysgolion yn gweithredu o fewn terfynau ariannol llym, gan wneud rhai newidiadau'n anodd eu gweithredu. Mynegodd rhai bryder ynghylch diffygion a'r effaith bosibl ar staffio pe na bai disgwyl i gostau a oedd yn cael eu talu gan rieni/gofalwyr yn flaenrol gael eu talu mwyach.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at heriau o ran ymgysylltu â gwahanol grwpiau, gan nodi bod sicrhau cefnogaeth yr holl staff a chynnal gweithgarwch ymgysylltu cyson â rhieni yn parhau i fod yn anodd. Soniwyd hefyd am yr angen i gefnogi rhieni/gofalwyr gyda chyllidebu aelwydydd, ochr yn ochr â newidiadau i arferion yr ysgol.

Yn olaf, nodwyd costau byw ehangach fel cyfyngiad na all ysgolion ond mynd i'r afael ag ef yn rhannol, gyda threuliau sy'n gysylltiedig â gwisg ysgol a bwyd yn benodol yn parhau i fod yn anodd eu lleihau waeth beth fo'r ymdrechion ar lefel yr ysgol.

4.2.6 Angen cymorth ychwanegol

Yn olaf, nododd personél ysgolion yr ymgysylltwyd â nhw yn ansoddol nifer o feysydd lle byddai cymorth ychwanegol yn helpu i gynnal effaith y rhaglen Diogelu rhag Tlodi.

Daeth cyllid i'r amlwg fel pryder allweddol. Nododd arweinwyr ysgolion fod adnoddau ariannol parhaus yn hanfodol i gynnal arferion Diogelu rhag Tlodi, gydag ysgolion yn chwilio'n weithredol am grantiau allanol i dalu am weithgareddau cyfoethogi a sicrhau y gall dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gael mynediad at yr un cyfleoedd â'u cymheiriaid.

Ystyriwyd hefyd fod ymdrechion ymgysylltu parhaus â rhwydwaith Children North East yn bwysig ar gyfer cynnal cysondeb a gwelliant dros yr hirdymor. Er enghraifft, pwysleisiodd arweinydd ysgol na all ysgolion fynd i'r afael â thlodi ar eu pen eu hunain, a bod newid gwirioneddol a chynaliadwy yn gofyn am gydweithio ar draws clystyrau ac asiantaethau lluosog, ac aliniad ar lefel genedlaethol.

Yn olaf, nododd staff ysgolion fod angen mynediad cliriach at wybodaeth, canllawiau ac enghreifftiau ymarferol i gefnogi staff i ddatblygu eu hymarfer. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau gweithredu a pholisïau cliriach, dysgu o astudiaethau achos mewn meysydd fel darparu gwisg ysgol, a rhannu mwy o enghreifftiau lleol o ysgolion sy'n gweithredu mewn cyd-destunau economaidd-gymdeithasol tebyg.

5. Casgliadau ac argymhellion

5.1 Casgliadau

5.1.1 Casgliadau o'r gwerthusiad o'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad

Mae canfyddiadau o'r llinyn Pencampwyr Cyrhaeddiad yn rhoi cipolwg ar sut brofiad oedd gan arweinwyr ysgolion a gymerodd ran yn y rhaglen a'r hyn yr oeddent yn teimlo ei fod wedi'i alluogi yn eu hysgolion. Fodd bynnag, o ystyried bod y dystiolaeth yn tynnu i raddau helaeth ar fyfyrddodau'r cyfranogwyr eu hunain a gasglwyd ar ôl i'r rhaglen ddod i ben, mae'n well deall y canfyddiadau fel adroddiadau am y broses weithredu a deilliannau canfyddedig yn hytrach na phrawf pendant o effaith.

Roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn gweithredu mewn cyd-destunau amrywiol iawn, gyda gwahaniaethau o ran maint, demograffeg, a lefelau amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn llywio eu blaenoriaethau a'u dulliau. Mae'r rhan fwyaf yn gwasanaethu cymunedau sy'n profi lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, a adlewyrchir mewn cyfraddau disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim uwchlaw'r cyfartaledd a rhwystrau ychwanegol i ddysgu fel byrhoedledd dysgwyr a symudiad parhaus neu wahaniaethau ieithyddol.

Ymunodd y cyfranogwyr â'r rhaglen am ddau brif reswm. Roedd mentoriaid yn cael eu cymell yn bennaf gan hygyrdded proffesiynol a'r cyfle i rannu eu profiad a'u harbenigedd ag ysgolion eraill. Roedd y rhai oedd yn cael eu mentora yn amlach yn cael eu dylanwadu gan gymorth ariannol, a oedd yn caniatáu iddynt ariannu mentrau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a chreu amser i ganolbwyntio ar gynllunio strategol.

I ddechrau, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn gweld y rhaglen fel cyfle i gydweithio, gan eu galluogi i gysylltu â chydweithwyr ledled Cymru a dysgu o wahanol gyd-destunau. Y tu hwnt i hyn, ychydig iawn oedd â disgwyliadau penodol ynghylch sut y byddai'r rhaglen yn gweithio neu ba agweddau ar rwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi y byddai'n mynd i'r afael â nhw, gyda llawer yn cymryd safbwynt agnostig tuag at ddysgu o'r profiad.

Erbyn diwedd y rhaglen, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi nodi eu bod wedi datblygu dealltwriaeth ddyfnach o rwystrau a heriau systemig y tu hwnt i'w rheolaeth (e.e. mannau byw a rennir, diffyg cefnogaeth gan rieni). Gwnaethant nodi hefyd yr anhawster o gynnal mentrau heb y cyllid a gwneud arferion arloesol o bartneriaethau eraill yn fwy adnabyddus.

Roedd dysgu rhwydweithiol yn cael ei werthfawrogi'n fawr, gyda chydberthnasau'n esblygu o fodel mentoriaid a menteion i bartneriaethau mwy cyfartal, gan ganiatáu myfyrio ar y cyd a rhannu gwybodaeth. Ystyriwyd bod yr amser a'r cymorth pwrpasol yn fuddiol iawn, gan roi lle i ysgolion ganolbwyntio ar flaenoriaethau ac archwilio syniadau newydd, a chawsant eu cryfhau gan gred y cyfranogwyr yn safon uchel a phroffesiynoldeb yr arweinwyr dan sylw. Fodd bynnag, nodwyd rhai heriau, megis gofynion teithio, heriau cyfathrebu, ac aflonyddwch oherwydd pwysau allanol megis arolygiadau o ysgolion.

Datblygwyd cynlluniau gweithredu yn bennaf trwy dystiolaeth a dadansoddi. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar ddata presennol, ymgysylltu â chymuned eu hysgol, neu'r ddau. Yn aml, byddai cynlluniau'n dechrau gydag ymweliadau ag ysgolion ac arolygon sylfaenol o ddysgwyr, staff, ac weithiau rhieni/gofalwyr. Defnyddiodd rhai partneriaethau offer strwythuredig, fel modelu deallusrwydd artifisial o ddata amddifadedd neu ddulliau dadansoddi risg, i lywio penderfyniadau a dyrannu adnoddau. Disgrifiwyd dysgwyr hefyd fel rhai a oedd yn cymryd rhan i raddau helaeth, gan roi mewnbwn drwy arolygon, trafodaethau ac arsylwadau. Dywedodd arweinwyr ysgolion wrth y tîm ymchwil fod safbwyntiau dysgwyr weithiau'n dylanwadu ar benderfyniadau allweddol, fel cyflwyno dysgu yn yr awyr agored neu addasu arferion i gefnogi llesiant a dysgwyr dan anfantais yn well.

Daeth her i'r amlwg wrth bennu deilliannau uniongyrchol a mesuradwy'r rhaglen beilot. Priodolwyd hyn naill ai i'r ffaith nad oedd yr ymyriadau wedi'u cynllunio ar gyfer mesur meintiol neu oherwydd ei bod hi'n rhy gynnar i asesu eu heffaith lawn. O ganlyniad, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn gryfaf ar lefel gweithgareddau a chanfyddiadau uniongyrchol o newid – er enghraifft, mewn perthynas â chydweithio, myfyrio, a newidiadau cynnar i arferion ysgolion – ond yn sylweddol wannach ar lefel y deilliannau canolradd a thymor hwy a amlinellir yn y ddamcaniaeth newid. Er gwaethaf hyn, mynegodd y cyfranogwyr hyder bod y rhaglen wedi cael effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr, staff, a pholisïau ehangach yr ysgol.

I ddysgwyr, yr effaith ganfyddedig a nodwyd amlaf oedd mwy o ymgysylltu. Rhoddodd cymryd rhan mewn mentrau ymdeimlad o berchnogaeth i ddysgwyr a dealltwriaeth ddyfnach o dlodi a'i effeithiau. Gwelodd rhai cyfranogwyr welliant hefyd mewn presenoldeb, llesiant a chymhelliant, gyda rhai yn cysylltu dulliau mentora ag enillion mewn cyrhaeddiad. Nid adroddwyd am unrhyw ganlyniadau anfwriadol, er bod heriau sefydledig yn parhau mewn un achos.

Ymhlith y staff, teimlai'r cyfranogwyr fod y rhaglen beilot wedi codi ymwybyddiaeth o dlodi a'i effeithiau, gan arwain weithiau at addysgu mwy ymatebol a mwy o hyder wrth gefnogi dysgwyr. Mewn ysgolion lle'r oedd yr egwyddorion hyn eisoes wedi'u sefydlu, gwelwyd newid cyfyngedig. Ar lefel yr ysgol, gwelwyd bod y rhaglen beilot wedi dylanwadu ar bolisïau ac arferion, gan gynnwys mentrau i gefnogi iechyd, creu adnoddau cymunedol fel pantri bwyd, a thargedu cymorth at ddysgwyr dan anfantais. Roedd cyfranogiad rhieni yn fach iawn ac fe'i cydnabuwyd gan y cyfranogwyr fel maes ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn hyderus y byddai effeithiau'r rhaglen beilot yn ymestyn y tu hwnt i'w chylch oes, gyda rhai'n nodi y gallai dirwyn y rhaglen i ben gyfyngu ar gynaliadwyedd yr ymdrechion hyn. Roedd y deilliannau hirdymor a ganfyddir yn amrywio. Adroddodd rhai fod ysgolion wedi dod yn fwy ymatebol i anghenion dysgwyr ac yn fwy ymwybodol o ddylanwadau cymdeithasol ehangach ar addysg. Roedd disgwyl i fentrau fel dysgu awyr agored a thrwy brofiadau barhau, wedi'u cefnogi gan hyder staff wrth asesu cynnydd dysgwyr y tu hwnt i ddulliau traddodiadol. Mewn lleoliadau eraill, daeth gofalu am ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gyfrifoldeb ffurfiol, gyda chefnogaeth staff dynodedig a llywodraethiant strwythuredig trwy gymdeithas rhieni ac athrawon newydd. Roedd rhai cyfranogwyr yn disgwyl parhau i ddefnyddio offer a dulliau a ddatblygwyd drwy'r rhaglen beilot a chynnal cydweithrediadau â gwasanaethau iechyd lleol i gefnogi teuluoedd a llesiant y gymuned.

Gwelodd y cyfranogwyr botensial i ehangu dulliau'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad ledled Cymru, gan gydnabod y gallai fod angen i strategaethau addasu i gyd-destunau lleol. Roedd y dulliau a awgrymwyd yn cynnwys fframweithiau ffurfiol ar gyfer defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, cynnwys cymdeithasau rhieni ac athrawon mewn modd strwythuredig, datblygu offer, pecynnau cymorth cenedlaethol o strategaethau profedig, a rhwydweithiau ar-lein i gefnogi cydweithio ymhlith arweinwyr ysgolion.

Ystyriwyd hefyd fod arferion syml, cost isel, fel lleihau stigma i ddysgwyr sy'n profi tlodi a hyrwyddo hygrychedd, yn rhai y gellid eu mabwysiadu'n eang. Soniodd cyfranogwyr fod cefnogaeth systemig ehangach, gan gynnwys gan deuluoedd, cymunedau a gwasanaethau cymdeithasol, yn hanfodol er mwyn i ymyriadau lwyddo, a bod ymgysylltu â dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chymunedau yn bwysig ar gyfer datblygu ymatebion effeithiol i dlodi.

5.1.2 Casgliadau o'r gwerthusiad o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi

Mae canfyddiadau o'r llinyn Diogelu rhag Tlodi yn rhoi cipolwg ar sut y derbyniwyd a gweithredwyd y rhaglen ar draws yr ysgolion a gymerodd ran, a chanfyddiadau cynnar y cyfranogwyr o'i heffeithiau. Ymunodd ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau â chyfraddau tlodi uchel â'r rhaglen i gryfhau arferion presennol, ac roedd profiadau gweithredu yn amrywio ar draws cyfnodau. Croesawyd argymhellion yn gyffredinol gan eu bod yn atgyfnerthu blaenoriaethau hysbys, er bod cynlluniau gweithredu cynnar yn golygu ei bod hi'n rhy gynnar i asesu'r effaith. Ar draws tystiolaeth yr arolwg a'r dystiolaeth ansoddol, canfyddiad cyson oedd ei bod hi'n rhy gynnar i asesu deilliannau gyda hyder. Lle nodwyd effeithiau cynnar, roeddent yn ymwneud yn bennaf ag ymwybyddiaeth staff, prosesau ysgol, a chyflwyno neu fireinio mesurau cymorth ymarferol, gyda thystiolaeth o newid i ddysgwyr a theuluoedd yn fwy cyfyngedig ar y cam hwn.

Roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn gwasanaethu cymunedau â heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â thlodi, gyda chyfraddau cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim yn cael eu defnyddio fel y prif ddangosydd. Roedd rhwystrau cyffredin i gyfranogiad ym mywyd yr ysgol yn cynnwys costau cludiant, costau gwisg ysgol, a chostau tripiâu a gweithgareddau cwricwlwm, gyda gwasgariad daearyddol yn gwaethygu'r heriau hyn mewn lleoliadau gwledig. Roedd stigma sy'n gysylltiedig â thlodi, a'i effeithiau ar hyder, gwydnwch a dyhead disgyblion, yn bryder hefyd.

Ymunodd ysgolion â'r rhaglen yn bennaf oherwydd ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau presennol a phethau yr oeddent yn ceisio'u trwsio. Roedd y cymhellion yn cynnwys awydd i adolygu a chryfhau arferion cyfredol, gyda'r nod o adeiladu dull mwy strwythuredig o ymdrin â heriau hysbys.

Roedd profiadau gweithredu yn gymysg ar draws cyfnodau'r rhaglen:

- cyn yr archwiliad: nododd ysgolion a oedd â mynediad cynnar i'r rhaglen ddisgwyliadau clir o'r cychwyn cyntaf, tra oedd y rhai a ymunodd yn ddiweddarach yn disgrifio ansicrwydd cychwynnol ynghylch gofynion a llwyth gwaith
 - ystyriwyd yn gyffredinol fod y cyfnod casglu data cyn yr archwiliad yn hylaw, gan helpu ysgolion i lunio darlun cliriach o'u hamgylchedd, er bod ceisiadau mwy manwl yn heriol lle nad oedd data yn bodoli yn y ffurf ofynnol

- hyfforddiant: cafodd hyfforddiant a ddarparwyd drwy weithdai hyfforddi'r hyfforddwr dderbyniad cadarnhaol, gydag ymarferion yn helpu staff i ymgysylltu'n fwy gweithredol â realiti ariannol tlodi
- archwiliad: cafodd y cyfnod archwilio adborth cymysg
 - er ei fod yn cael ei werthfawrogi am y myfyrdod strwythuredig yr oedd yn ei alluogi i staff a dysgwyr, fe'i disgrifiwyd hefyd fel ymarfer heriol, gyda gofynion amser, baich cydlynu ac amserlenni tynn yn peri anawsterau ymarferol
 - nododd rhai arweinwyr ysgolion y byddai dull ysgafnach yn fwy dymunol
 - daeth ymgysylltu â rhieni/gofalwyr i'r amlwg fel yr elfen fwyaf heriol, tra oedd dysgwyr yn cael eu hystyried fel y grŵp mwyaf hygyrch
- argymhellion: croesawyd argymhellion gan Children North East yn gyffredinol a'u gweld fel rhai sy'n atgyfnerthu blaenoriaethau presennol yn hytrach na chyflwyno cyfeiriadau cwbl newydd
 - y meysydd a grybwyllwyd amlaf oedd costau gwisg ysgol, darparu bwyd a chynllunio teithiau
 - cydnabuwyd bod rhai argymhellion yn synhwyrol mewn egwyddor ond yn anodd eu gweithredu lle'r oedd penderfyniadau'n cael eu llywodraethu gan gyrff allanol, fel awdurdodau lleol yn rheoli arlwygo ysgolion
 - roedd cynlluniau gweithredu yn parhau i fod yng nghyfnod cynnar eu gweithrediad ar adeg yr ymgysylltu

Barn a gododd dro ar ôl tro ar draws ymdrechion ymgysylltu ansoddol a'r arolwg oedd ei bod hi'n rhy gynnar i asesu deilliannau'r rhaglen yn hyderus. Pan adroddwyd am effeithiau canfyddedig, roeddent yn cael eu priodoli fwyaf cyson at staff yr ysgol ac ar lefel effaith polisi ehangach yr ysgol.

- effaith ar staff: hysbyswyd y tîm gwerthuso fod staff wedi datblygu dealltwriaeth a rennir ac iaith gyffredin ynghylch diogelu rhag tlodi, ac adroddodd rhai arweinwyr am newid diwylliannol ac ymdeimlad o atebolrwydd, lle daeth ystyriaethau tlodi yn nodwedd fwy rheolaidd o fewn trafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau staff
- effaith ar yr ysgol gyfan: roedd newidiadau strwythurol yn cynnwys cyflwyno hybiau gwisg ysgol, arferion cyfathrebu diwygiedig am dripiu, trefniadau talu mwy hyblyg, ac, mewn rhai achosion, ymwybyddiaeth gynyddol o ddiogelu
- effaith ar rieni/dysgwyr: roedd llai o dystiolaeth o effeithiau ar rieni/gofalwyr a dysgwyr ar y cam hwn, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn nodi ei bod hi'n rhy gynnar i ddod i gasgliadau

Ystyriwyd bod cynnal y deilliannau sy'n gysylltiedig â Diogelu rhag Tlodi yn amodol ar gyllid parhaus, gweithgarwch ymgysylltu parhaus â rhwydwaith Children North East, a mynediad at offer ymarferol. O ran ffactorau cymedroli, pwysleisiodd staff ysgolion na all ysgolion fynd i'r afael â thlodi ar eu pen eu hunain, a bod newid gwirioneddol a pharhaol yn gofyn am gydweithio ar draws clystyrau, asiantaethau a systemau cenedlaethol.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn codi cwestiwn sy'n werth ei archwilio wrth i'r rhaglen ehangu: a yw'n darparu'r gwerth ychwanegol mwyaf mewn ysgolion lle mae ymwybyddiaeth o faterion

sy'n gysylltiedig â thlodi yn llai datblygedig. Disgrifiodd rhai arweinwyr ysgolion y rhaglen Diogelu rhag Tlodi fel atgyfnerthu gwybodaeth bresennol yn hytrach na chyflwyno safbwyntiau newydd, gan awgrymu y gallai ei heffaith amrywio yn dibynnu ar ba mor ddatblygedig yw ymarfer presennol ysgol eisoes. Byddai angen rhagor o dystiolaeth i archwilio hyn yn fwy trylwyr.

Yn olaf, gwers fewnol a ddysgwyd o'r cam cyntaf yw y gall cyflymder a chynnydd cyflwyno'r rhaglen ddylanwadu ar weithgareddau gwerthuso, yn enwedig mewn lleoliadau ysgol lle mae amser yn gyfyngedig a lle mae blinder ymchwil yn bryder gwirioneddol. Rydym wedi ystyried y dysgu hwn yn uniongyrchol yn nyluniad ein dull gwerthuso ar gyfer Cam 2, gan sicrhau bod gweithgareddau casglu data yn cyd-fynd â gweithgareddau arfaethedig y rhaglen i leihau'r baich ar gyfranogwyr a hwyluso mwy o ymgysylltu.

5.1.3 Amcanion heb eu cyflawni

Ni chyflawnwyd sawl amcan yn llawn yn y gwerthusiad hwn oherwydd cwmphas a heriau esblygol yr ymchwil, yn ymwneud yn bennaf â lefel gyffredinol yr ymgysylltu a gyflawnwyd ar draws y ddwy raglen. Ni chyflawnwyd yr amcan o archwilio cyd-destunau a mecanweithiau sy'n llywio gweithrediad y rhaglen yn llawn oherwydd bod y llinyn Pencampwyr Cyrhaeddiad yn gweithredu fel gwerthusiad ôl-weithredol, gan gyfyngu ar gyfleoedd i archwilio prosesau a mecanweithiau gweithredu mewn amser real, tra oedd y llinyn Diogelu rhag Tlodi yn cynnwys ymgysylltu cyfyngedig iawn yn ystod y cyfnod gwerthuso. O ganlyniad, nid oedd y gwerthusiad yn gallu asesu'n gynhwysfawr sut roedd ffactorau cyd-destunol yn llunio gweithrediad a deilliannau ar draws lleoliadau.

Yn yr un modd, ni chyflawnwyd yn llawn yr amcan o archwilio effaith y model Diogelu rhag Tlodi wrth leihau rhwystrau sy'n gysylltiedig â chostau i addysg, ynghyd â rhwystrau strwythurol, sefydliadol, diwylliannol ac agweddol, ar gyfer dysgwyr o gartrefi incwm isel. Roedd amseriad a dyfnder yr ymgysylltu yn cyfyngu ar y gallu i asesu newidiadau tymor hwy mewn ymarfer neu brofiad y dysgwr. O ystyried cyfnod cymharol gynnar yr ymgysylltu ag ysgolion a gymerodd ran, roedd hi'n rhy gynnar i effeithiau ystyrlon neu fesuradwy ddod i'r amlwg.

Yn olaf, ni chyflawnwyd yr amcan o gynhyrchu dadansoddiad cymharol cyffredinol o'r ddau fodel a'u cyfraniad at degwch addysgol yn llawn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y gwahaniaethau yng nghyfnod y rhaglen, y dystiolaeth sydd ar gael, a'r lefelau ymgysylltu a ddisgrifiwyd uchod, a gyfyngodd ar y graddau y gellid gwneud cymariaethau traws-raglenni cadarn a chasgliadau strategol.

5.2 Argymhellion Pencampwyr Cyrhaeddiad

Mae'r argymhellion canlynol yn seiliedig yn gyfan gwbl ar ganfyddiadau'r gwerthusiad o'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad. Oherwydd diffyg data, nid oedd yn bosibl darparu argymhellion cadarn a dynnwyd o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi ar yr adeg hon. Felly, bydd argymhellion sy'n ymwneud â hi yn cael eu llunio wrth werthuso estyniad y rhaglen Diogelu rhag Tlodi, a drafodir yn fanylach yn y bennod nesaf.

Argymhelliad 1:

Ymgorffori strwythurau monitro a gwerthuso o ddechrau'r rhaglen.

Dylai cynlluniau peilot a rhaglenni Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys fframweithiau monitro a gwerthuso o'r cychwyn cyntaf. Dylai'r rhain ddiffinio'n glir y deilliannau bwriadedig, dangosyddion o lwyddiant, ac amserlenni ar gyfer asesu cynnydd.

Roedd y rhaglen beilot wedi arddangos dysgu gwerthfawr, ond roedd diffyg gweithgarwch monitro systematig yn cyfyngu ar y gallu i olrhain gweithrediad a dangos tystiolaeth o effaith. Byddai sefydlu dull cyson yn cefnogi atebolrwydd a dysgu ar draws ysgolion sy'n cymryd rhan ac yn ehangach.

Dylai systemau o'r fath hefyd sicrhau bod arferion da a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cofnodi a'u rhannu'n ehangach, gan alluogi gwelliant parhaus drwy gydol cylch oes y rhaglen a chreu cyfleoedd ar gyfer dysgu, mewnbyn a mabwysiadu arloesiadau effeithiol yn ehangach.

Ar yr un pryd, dylai ysgolion a phartneriaid lleol gadw'r rhyddid i weithredu dulliau sy'n adlewyrchu eu cyd-destunau a'u blaenoriaethau penodol. Dylid annog a chroesawu arloesedd ac addasu, ar yr amod eu bod yn cael eu harwain gan gynllun clir sy'n nodi'r dystiolaeth a'r sail resymegol dros weithgareddau arfaethedig, a sut y disgwylir iddynt gyfrannu at newid ystyrlon.

Argymhelliad 2:

Parhau i annog cyfleoedd cydweithio ar draws ysgolion.

Dylai mentrau yn y dyfodol archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion â nodweddion gwahanol, fel y rhai mewn gwahanol awdurdodau lleol, mathau o ysgolion, neu lefelau her.

Gweithiodd y model cydweithredol, seiliedig ar driawdau, yn effeithiol, ac roedd y gydran Cymru gyfan yn arbennig o fuddiol, gan ganiatáu i arweinwyr ysgolion ddysgu gan eraill a chael dealltwriaeth ehangach o sut mae tlodi'n effeithio ar ddysgwyr ar draws cyd-destunau amrywiol. Fodd bynnag, rhaid ystyried yr amser sydd ei angen i deithio rhwng gwahanol rannau o'r wlad mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer ysgolion sy'n cymryd rhan.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, gallai Llywodraeth Cymru gryfhau cydweithio drwy hwyluso rhwydweithiau cenedlaethol neu ranbarthol, hyrwyddo dysgu proffesiynol ar y cyd, a chreu mecanweithiau ar gyfer lledaenu arfer effeithiol yn barhaus.

Argymhelliad 3:

Cymhwyso gwersi i wella dyluniad a chynaliadwyedd rhaglenni.

Roedd cyfuniad o ymreolaeth a chydweithrediad y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad yn ymddangos yn werthfawr i gyfranogwyr. Roedd yr arweinwyr yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a'r adnoddau (amser a chyllideb) a oedd yn caniatáu iddynt ddewis gweithgareddau'n annibynnol. Ymgorfforodd pob ysgol lais y dysgwr yn eu gwaith a gwnaethant adrodd am effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr ac ymarfer yr ysgol. Dylid pwysleisio'r elfennau hyn mewn mentrau yn y dyfodol.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau digon o amser i ysgolion ymgysylltu, gweithredu a myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd. Roedd Pencampwyr Cyrhaeddiad yn rhaglen beilot fer, yn enwedig i ysgolion a ymunodd yn ei hail flwyddyn yn unig, ac roedd amser cyfyngedig i ymgorffori arferion neu arsylwi canlyniadau. Byddai cynllunio clir ar gyfer pob cam o'r rhaglen, o recriwtio a chyflwyno hyd at adolygu, yn helpu i wneud y mwyaf o'i gwerth hirdymor.

Gallai Llywodraeth Cymru chwarae rhan gydlynu gryfach wrth gynnal parhad – er enghraifft, drwy sicrhau bod trafodaethau polisi wedi'u cynllunio'n digwydd a bod rhanddeiliaid allweddol yn parhau i ymgysylltu er gwaethaf newidiadau mewn personél neu flaenoriaethau.

Argymhelliad 4:

Hyrwyddo cynhwysiant a chefnogaeth i bob ysgol ac arweinydd gymryd rhan ym mentrau Llywodraeth Cymru.

Er bod yr arweinwyr a gymerodd ran wedi'u cymell yn fawr i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â thlodi, mae pwysau capasiti a llwyth gwaith ysgolion yn parhau i fod yn rhwystrau sylweddol. Mae mentrau sy'n dibynnu ar ymrwymiad un unigolyn yn llai cynaliadwy na'r rhai a gynlluniwyd i ymgorffori dull ysgol gyfan.

Dylai mentrau yn y dyfodol ystyried cyfyngiadau llwyth gwaith ac adnoddau, gan sicrhau digon o gyllid i alluogi cyfranogiad staff a chyflenwi ar gyfer arweinwyr, a hyrwyddo modelau arweinyddiaeth ddosbarthedig i rannu cyfrifoldeb a meithrin gwydnwch.

Yn ogystal, dylid ystyried sicrhau nad yw ysgolion sy'n wynebu heriau ychwanegol yn cael eu heithrio. Yn y rhaglen beilot hon, tynnodd un ysgol yn ôl ar ôl cael ei rhoi mewn mesurau arbennig. Dylai rhaglenni yn y dyfodol archwilio ffyrdd o gynnig cefnogaeth well i ysgolion sy'n cael trafferthion, gan weithio ochr yn ochr ag Estyn ac awdurdodau lleol fel bod ymdrechion arloesi a gwella yn cael eu cydnabod a'u hatgyfnerthu.

Argymhelliad 5:

Datblygu cysylltiadau rhwng mentrau ehangach Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, gellid cysylltu'r model cydweithio hwn â rhaglenni cenedlaethol eraill, fel y rhaglen Diogelu rhag Tlodi neu ysgolion bro. Er bod ymreolaeth ac arloesedd yn elfennau gwerthfawr o'r cynllun peilot hwn, gall alinio ymdrechion a chreu cyfleoedd ar gyfer dysgu a chefnogaeth ar y cyd helpu i wneud y mwyaf o'r effaith a lleihau dyblygu. Gallai rhwydweithiau traws-fentrau ganiatáu i arweinwyr ysgolion gael mynediad at syniadau profedig a'u haddasu i'w cyd-destunau eu hunain, os yw'r capasiti i ddylunio a gwerthuso prosiectau newydd ac arloesol yn gyfyngedig.

6.Y camau nesaf

Mae rhaglen beilot Diogelu rhag Tlodi wedi cael estyniad drwy gyfol y flwyddyn academiaidd 2026–2027, gan ehangu'r rhaglen i bedwar clwstwr ychwanegol ledled Cymru. Mae Alma Economics wedi cael ei gomisiynu i werthuso'r cyfnod estyniad hwn. Bydd y gwerthusiad yn adeiladu ar y cwestiynau ymchwil a sefydlwyd yn ystod y cam cyntaf, gan gwmpasu'r broses a'r effeithiau. Nod y dull hwn yw mynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau a gafwyd yng nghyfnod cyntaf y gwerthusiad, gan gynnwys yr angen i ymgysylltu'n gynharach ag ysgolion, disgwyliadau cyfranogiad mwy strwythuredig, a chynnwys llais y dysgwyr a'r rhieni yn fwy llawn. Bydd y cwmpas estynedig hefyd yn adlewyrchu'r ystod ehangach o gyd-destunau ysgol dan sylw, gan gynnwys ysgolion arbennig, a bydd hefyd yn ymgorffori llais y dysgwyr a'r rhieni.

Bydd Alma Economics yn cysgodi Children North East drwy gydol y ddarpariaeth ar draws y pedwar clwstwr, gan gyfuno arsylwi gweithgareddau wedi'u cynllunio ag ystod o ddulliau ymchwil gynradd, gan gynnwys arolwg adborth byr, cyfweiliadau, a grwpiau ffocws gyda staff ysgol, rhieni a dysgwyr, yn ogystal ag ymdrechion ymgysylltu dilynol i olrhain gweithrediad dros amser. Nodwedd allweddol o'r cyfnod hwn yw'r gofyniad ffurfiol i ysgolion gymryd rhan yn y gwerthusiad fel amod ymgysylltu, y disgwylir iddo gefnogi casglu data mwy cyson ar draws clystyrau. Mae ymgysylltu ag estyniad y rhaglen beilot hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol, gydag ysgolion yn dangos parodrwydd i gymryd rhan. Edrychwn ymlaen at gynhyrchu tystiolaeth a all lywio dealltwriaeth o sut mae tlodi yn effeithio ar addysg yng Nghymru a chefnogi gwaith parhaus i fynd i'r afael â'i effeithiau.

Atodiad A: Amcanion a methodoleg fanwl yr ymchwil

Amcanion ymchwil

Mae'r adran isod yn cyflwyno amcanion ymchwil gwreiddiol y ddau werthusiad, y diwygiadau a wnaed yn ystod y broses weithredu, a'r sail resymegol y tu ôl iddynt.

Nodau ac amcanion gwreiddiol y prosiect

Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiadau o broses ac effaith gynnar rhaglenni peilot Pencampwyr Cyrhaeddiad a Diogelu rhag Tlodi. Archwiliodd y ddau werthusiad brofiadau timau arweinyddiaeth ysgolion a staff ysgolion i asesu sut mae pob rhaglen yn mynd i'r afael â rhwystrau i addysg sy'n gysylltiedig â thlodi yng Nghymru.

Yn fwy penodol, roedd yr ymchwil yn anelu at wneud y canlynol:

- gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni peilot Pencampwyr Cyrhaeddiad a Diogelu rhag Tlodi wrth fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi i addysg a deall cyfraniadau gwahanol pob rhaglen
- gwerthuso pa mor ymarferol yw pob model, ac i ba raddau y gellir eu haddasu a'u hehangu, gan roi sylw arbennig i ba mor dda y maent yn cyd-fynd â nodau polisi ac ymrwymïadau ehangach Llywodraeth Cymru
- cymhwyso dull gwerthuso realaidd i archwilio'r hyn sy'n gweithio, i bwy, ym mha gyd-destunau, a pham
- nodi'r cyd-destunau lle mae pob ymyriad yn profi fwyaf effeithiol
- cyflwyno dadansoddiad cyffredinol o'r ddau fodel i amlygu eu cryfderau allweddol, eu cyfyngiadau, a'r mewnwediadau a gafwyd, gan gynnig canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer llunio'r gwaith o ddatblygu polisiâu yn y dyfodol

Diwygiadau i gynllun a chwmpas yr ymchwil

Fodd bynnag, yn ystod y broses weithredu, cafodd yr amcanion a ddisgrifiwyd uchod, a'r fethodoleg, eu diwygio'n sylweddol – rhywbeth a gafodd ei drafod a'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru. Cafodd y newidiadau hyn eu sbarduno'n bennaf gan ddau ffactor.

- roedd y cyntaf yn cynnwys newidiadau sylweddol i'r broses o gyflwyno'r rhaglen, gan gynnwys addasiadau i ddyluniad y ddwy raglen a'r broses o'u cyflwyno
 - roedd hyn yn arbennig o arwyddocaol yn achos Pencampwyr Cyrhaeddiad, pan ddaeth y rhaglen i ben yn gynharach na'r disgwyl, a rhoddodd y partner cyflenwi (NAEL) y gorau i'w gweithredu
 - o ganlyniad, symudodd y gwerthusiad o'r rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad o'i ddyluniad gwreiddiol tuag at werthusiad ôl-weithredol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar effeithiau canfyddedig a myfyrdodau cyfranogwyr

- roedd yr ail yn ymwneud â chyfyngiadau gwaith maes a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses ymchwil, gan gynnwys heriau'n ymwneud â recriwtio, amseru ac ymgysylltiad ysgolion, a gyfyngodd ar hyfywedd rhai gweithgareddau a gynlluniwyd
 - roedd gan y cyfyngiadau hyn oblygiadau sylweddol ar gyfer y gwerthusiad o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi, gan olygu bod angen i'r gwerthusiad gynnwys gweithgareddau gwaith maes diwygiedig a sicrhau bod digon o sylw i'r ysgolion a gymerodd ran
 - trafodir cyfyngiadau ymgysylltu ar gyfer y ddwy raglen yn fanylach yn yr adran fethodoleg

O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, nid oedd rhai elfennau o ddyluniad gwreiddiol y gwerthusiad, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â dull gwerthuso realaidd cwbl ymgorfforedig, bellach yn ymarferol i'w gweithredu fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Yn benodol, nid oedd data deilliannau ar gael, ac mae gwerthusiad realaidd yn dibynnu ar ddata o'r fath i archwilio'r hyn sy'n gweithio, i bwy, ac ym mha gyd-destunau. Felly addaswyd y dull methodolegol i flaenoriaethu dichonoldeb wrth gynnal gwydnwch a sicrhau bod y canfyddiadau'n parhau i fod yn berthnasol i bolisi. Mae'r ddwy is-adran ganlynol yn amlinellu amcanion ymchwil diwygiedig pob gwerthusiad.

Methodoleg

Darperir disgrifiad manwl o bob cam a'i weithgareddau cysylltiedig isod.

Cam 1: Casglu a dadansoddi data cychwynnol

Adolygiad pen desg

Dechreuodd y prosiect drwy adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael o amgylch y ddwy raglen i wella dealltwriaeth y tîm ymchwil o gyd-destun polisi, seilio datblygiad deunyddiau ymchwil, a nodi pynciau ychwanegol i'w trafod drwy'r ymchwil hon.

- ar gyfer Pencampwyr Cyrhaeddiad, archwiliodd yr adolygiad pen desg werthusiadau Cam 1 a 2 NAEL o'r rhaglen, ynghyd ag adborth a gasglwyd o ddigwyddiadau Pencampwyr Cyrhaeddiad, er mwyn rhoi trosolwg o amcanion y rhaglen, deinameg partneriaeth, y broses weithredu, ac effaith ganfyddedig
 - fe lywiodd hyn y gwaith o ddrafftio damcaniaeth newid ar gyfer y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad, a drafodwyd yn fyr yn adran canfyddiadau Pencampwyr Cyrhaeddiad ac a ddarperir yn fanylach yn Atodiad B:Damcaniaeth newid Pencampwyr Cyrhaeddiad
- ar gyfer Diogelu rhag Tlodi, defnyddiodd yr adolygiad amrywiaeth o ddogfennaeth y rhaglen, gan gynnwys meini prawf dyfarnu ar gyfer y rhaglen Diogelu rhag Tlodi, cytundebau partneriaeth, gofynion ysgolion, a holiaduron archwilio, ochr yn ochr â llenyddiaeth berthnasol ar weithredu'r dull ledled y DU

- parhaodd yr adolygiad drwy gydol y gwerthusiad, gan ymgorffori'r adroddiadau thematig a gynhyrchwyd gan Children North East wrth i'r rhaglen beilot fynd rhagddi

Wrth gynnal yr adolygiad pen desg, fe gynhaliwyd ymarfer mapio rhanddeiliaid ar yr un pryd, lle nodwyd rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu â nhw wrth gynnal y prosiect.

Cyfweliadau cwmpasu

Er mwyn rhoi cyd-destun pellach i'r ddwy raglen, mireinio'r dull ymchwil, a chwblhau'r offer gwaith maes, cynhaliwyd pedwar cyfweiliad cwmpasu gyda chyfanswm o chwe rhanddeiliad. Roedd y rhain yn cynnwys tri swyddog Llywodraeth Cymru a oedd yn rhan o'r ddwy raglen, un cynrychiolydd o NAEL ar gyfer Pencampwyr Cyrhaeddiad, a dau gynrychiolydd o Children North East ar gyfer y rhaglen Diogelu rhag Tlodi.

Cam 2: Gweithgareddau gwerthuso Pencampwyr Cyrhaeddiad

Aeth y tîm ymchwil i ddigwyddiad Pencampwyr Cyrhaeddiad a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2025. Hwylusodd y tîm sesiwn a oedd yn cynnwys ymarferion myfyriol ar lwyddiannau, heriau a dysgu, yn ogystal ag adolygiad cydweithredol o ddamcaniaeth newid y rhaglen Pencampwyr Cyrhaeddiad.

Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfweiliadau hefyd ag arweinwyr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen rhwng mis Medi a mis Hydref 2025. At ei gilydd, cyfwelwyd ag wyth arweinydd ysgol, tri mentor, a phump unigolyn a oedd yn cael eu mentora ar draws pum partneriaeth. Cynhaliwyd y gwaith maes ym mis Medi 2025. Darparwyd manylion cyswllt gan NAEL, a chysylltodd y tîm ymchwil â'r cyfranogwyr o fis Gorffennaf 2025 ymlaen a'u hysbysu am yr ymchwil.

Roedd trafodaethau â chyfranogwyr yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys cymhellion cychwynnol cyfranogwyr dros ymuno â'r rhaglen, eu disgwyliadau cynnar ynghylch sut y byddai Pencampwyr Cyrhaeddiad yn ysgogi newid, datblygu cynlluniau gweithredu, a'r deilliannau canfyddedig ar gyfer dysgwyr, staff ysgolion a pholisïau ysgolion. Archwiliwyd hefyd safbwyntiau ar y graddau y gellir ehangu'r rhaglen ac argymhellion ar gyfer mentrau yn y dyfodol. Yn ogystal, defnyddiwyd mewnwelediadau o adroddiad heb ei gyhoeddi gan NAEL i ategu bylchau mewn cwmpas ar gyfer y partneriaethau hynny lle na chyfwelwyd ag unrhyw gyfranogwyr.

Llywiodd canfyddiadau'r gweithgareddau hyn adroddiad interim a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025. Wedi hynny, cwblhawyd gwerthusiad y Pencampwyr Cyrhaeddiad, gyda gweddill y prosiect yn canolbwyntio ar y gwerthusiad o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi.

Cam 3: Gweithgareddau gwerthuso Diogelu rhag Tlodi

Roedd y gwerthusiad o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi yn cynnwys dwy brif elfen: (i) arolwg yn targedu personél ysgolion oedd yn rhan o'r rhaglen Diogelu rhag Tlodi ac ysgolion eraill, a (ii) ymgysylltu ansoddol trwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda thimau arweinyddiaeth a staff ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi.

Arolwg a gynhaliwyd mewn ysgolion oedd yn cymryd rhan y rhaglen Diogelu rhag Tlodi ac ysgolion rheolydd

Targedodd yr arolwg staff ysgolion ac uwch-arweinwyr ar draws ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi a'r rhai nad oeddent yn cymryd rhan. O fewn yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan, fe'i hanelwyd at staff a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno'r rhaglen a'r rhai nad oeddent yn ymwneud â hi. Bwriadwyd i ysgolion nad oeddent yn cymryd rhan wasanaethu fel grŵp cymharu a dim ond is-set o gwestiynau a ofynnwyd iddynt yn ymwneud â'u canfyddiadau o'r ffordd mae tlodi'n dylanwadu ar gyrhaeddiad addysgol.

Dosbarthwyd yr arolwg ar draws pob un o'r 42 o ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi, ochr yn ochr â set o 80 o ysgolion rheolydd cyfatebol a ddewiswyd ar sail rhanbarth, maint yr ysgol, a chyfran y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Dosbarthwyd yr arolwg drwy ddwy sianel. Ar gyfer ysgolion a oedd yn cymryd rhan, fe'i hanfonwyd gan y tîm ymchwil at y cysylltiadau ymhlith arweinwyr ysgolion clwstwr a ddarparwyd gan Children North East, a gofynnwyd iddynt ei ailddosbarthu o fewn eu clystyrau. Ar gyfer ysgolion nad oeddent yn cymryd rhan, nododd y tîm ymchwil gyfeiriadau e-bost canolog yr ysgolion a dosbarthu'r arolwg yn uniongyrchol, gan wahodd penaethiaid a staff yr ysgolion i ymateb. Drwy ymgysylltu â staff ysgolion mewn ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi ac ysgolion rheolydd, y nod oedd taflu goleuni ar y pynciau canlynol:

- canfyddiadau ac ymwybyddiaeth o rwystrau sy'n gysylltiedig â tlodi i gyrhaeddiad addysgol: safbwyntiau a dealltwriaeth o'r ffordd mae tlodi'n effeithio ar ddysgu a chyfleoedd myfyrwyr
- cymryd rhan mewn mentrau sydd â'r nod o leihau effaith tlodi ar addysg, gan gynnwys Diogelu rhag Tlodi
- profiadau wrth weithredu Diogelu rhag Tlodi
- canlyniadau cynnar canfyddedig y rhaglen Diogelu rhag Tlodi ar gyfer dysgwyr, staff, rhieni/gofalwyr a chymuned yr ysgol ers ei chyflwyno

Cynlluniwyd yr arolwg i gymryd dim mwy na 15 munud i'w gwblhau ac fe'i cynhaliwyd ar Microsoft Forms, gyda'r ymatebion yn cael eu casglu rhwng mis Medi a mis Hydref 2025. Bwriadwyd yn wreiddiol i'r arolwg fod yn hydredol, gydag ail don wedi'i chynllunio ar gyfer mis Ebrill i fis Mai 2026 i gofnodi unrhyw newidiadau mewn agweddau tuag at dlodi dros amser ac i asesu gwahaniaethau rhwng yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan ac ysgolion rheolydd. Fodd bynnag, roedd cyfraddau ymateb isel ar y cyfan a diffyg ymatebion gan ysgolion rheolydd yn benodol yn golygu bod ail don yn ddiangen.

Cwblhawyd yr arolwg gan 80 o unigolion o 23 o ysgolion, ac roedd 22 ohonynt yn ysgolion a oedd yn ymwneud â Diogelu rhag Tlodi (52% o'r ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi), a dim ond un ymateb a ddaeth o ysgol reolydd (cyfradd ymateb o 1.25%), a gafodd ei heithrio o'r sampl, gan arwain at gyfanswm sampl effeithiol o $n = 79$. Roedd y 21 ysgol hyn wedi'u lleoli ar draws pum awdurdod lleol: Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, a Wrecsam. Ysgolion meithrin, babanod ac iau oedd y rhan fwyaf ($n = 14$), ac yna ysgolion uwchradd (11–16 oed) ($n = 5$) ac ysgolion babanod ac

iau cyfun (n = 2). O ran cyfrwng iaith, roedd 11 ysgol yn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd pedair yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd pedair yn ysgolion dwy ffrwd, roedd un yn ddwyieithog (Math B), ac roedd un yn ysgol cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Roedd cyfran gyfartalog y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn 26%, gydag amrediad o 3% i 66%. Maint cyfartalog yr ysgol oedd 393 o ddisgyblion, gyda maint cyffredinol yr ysgol yn amrywio o 21 i 1,543 o ddysgwyr.

O'r 79 o ymatebwyr, nododd 36 (43%) eu bod yn athrawon, nododd 25 (30%) eu bod yn benaethiaid, penaeithiaid lleoliadau, neu aelodau eraill o'r uwch-dîm arweinyddiaeth, a nododd 14 (17%) eu bod yn gynorthwyyr addysgu, cynorthwyyr addysgu lefel uwch, neu gynorthwyyr cymorth dysgu. Nododd wyth ymatebydd (10%) rolau eraill, gan gynnwys rheolwr safle, staff gweinyddol, swyddog presenoldeb, CADY a swyddog diogelu, tra oedd yn well gan un ymatebydd (1%) beidio â dweud.

Gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion ([CYBLD](#)), llwyddodd y tîm ymchwil i nodi nodweddion 21 o'r ysgolion hyn, gan gynnwys rhanbarth, math o ysgol, cyfrwng iaith, canran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a chyfanswm nifer y disgyblion.

Adroddir ar gyffredinrwydd wrth adrodd ar ganlyniadau arolygon gan ddefnyddio'r ystodau disgrifiadol canlynol:

- mwyafrif helaeth = mwy nag 85% o'r ymatebwyr
- mwyafrif = 70% i 84%
- dros hanner = 55% i 69%
- tua hanner = 46% i 54%
- llai na hanner / tua thraean = 30% i 45%
- lleiafrif = 15% i 29%
- lleiafrif bach = is na 15%

Ymgysylltu ansoddol â thimau arweinyddiaeth a staff ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi

Yn dilyn yr arolwg, cynhaliwyd ymdrechion ymgysylltu ansoddol gyda'r nod o gynhyrchu chwe astudiaeth achos, un fesul cymuned ddysgu. Dewiswyd ysgolion a oedd yn arweinwyr clwstwr ar gyfer pob un o'r chwe chlwstwr Diogelu rhag Tlodi i wasanaethu fel sail ar gyfer pob astudiaeth achos, gyda'r bwriad o archwilio sut roedd y rhaglen Diogelu rhag Tlodi yn cael ei gweithredu'n ymarferol, profiadau staff o roi'r rhaglen ar waith, ac unrhyw ddeilliannau cynnar a welwyd.

Recriwtiwyd cyfranogwyr trwy allgymorth cychwynnol gan Children North East, ac yna ymgysylltu uniongyrchol gan y tîm ymchwil. Cynlluniwyd cyfweiliadau ag uwch-arweinwyr i bara hyd at 45 munud, a grwpiau ffocws gyda staff yr ysgol hyd at 60 munud. Cynhaliwyd yr holl ymgysylltu ar-lein drwy gyfrwng Microsoft Teams.

Yn ymarferol, roedd cyfyngiadau o ran capasiti a blaenoriaethau sy'n cystadlu yn cyfyngu ar y graddau y gallai ysgolion ymgysylltu â'r gwerthusiad. Felly casglwyd data o ddwy yn unig o'r chwe ysgol a ddewiswyd, ac ni chwblhawyd yr holl weithgareddau bwriadedig yn y naill achos na'r llall. Mewn ymgais i wneud y mwyaf o ymgysylltiad, ehangwyd y recriwtio i gynnwys ysgolion eraill oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Diogelu rhag Tlodi, a arweiniodd at un cyfweiliad ychwanegol â thîm arweinyddiaeth ysgol. Mae **Error! Reference source not found.** isod yn cyflwyno'r ymgysylltiad disgwylidiedig o'i gymharu â'r ymgysylltiad gwirioneddol a gyflawnwyd ar draws ysgolion yr astudiaethau achos.

O ganlyniad i'r sylw cyfyngedig hwn, ac yn dilyn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, rhoddwyd y gorau i'r dull astudiaeth achos ym mis Ionawr 2026. Nid oedd y data oedd ar gael yn ddigonol i gefnogi astudiaethau achos ar lefel ysgol ar gyfer unrhyw un o'r ysgolion a ddewiswyd. Felly, dadansoddwyd data ansoddol a gasglwyd drwy'r llinyn hwn o weithgarwch yn thematig ar draws yr holl ysgolion a gymerodd ran ac fe'i cyflwynir ochr yn ochr â chanfyddiadau'r arolwg fel canfyddiadau cydgasgledig ar brofiadau gweithredu a deilliannau cynnar.

Tabl 2. Gweithgarwch ymgysylltu wedi'i gynllunio yn erbyn ymgysylltu gwirioneddol ar draws ysgolion yr astudiaethau achos

Sampl	Gweithgarwch ymgysylltu wedi'i gynllunio	Gweithgarwch ymgysylltu gwirioneddol
Astudiaeth Achos 1	Cyfweiliadau â thimau arweinyddiaeth ysgolion $n < 3$ Grŵp ffocws gyda staff yr ysgol $n = 1$ Adolygiad o gynlluniau gweithredu $n = 1$ Cyfweiliadau dilynol â thîm arweinyddiaeth yr ysgol $n = 1$ Grwpiau ffocws dilynol gydag staff ysgol $n=1$	Cyfweiliadau â thîm arweinyddiaeth yr ysgol $n = 2$ Grŵp ffocws gyda staff yr ysgol $n = 1$
Astudiaeth Achos 2–6	Cyfweiliadau â thimau arweinyddiaeth ysgolion $n < 3$ Grŵp ffocws gyda staff yr ysgol $n = 1$ Adolygiad o gynlluniau gweithredu $n = 1$ Cyfweiliadau dilynol â thîm arweinyddiaeth yr ysgol $n = 1$ Grwpiau ffocws dilynol gydag staff ysgol $n=1$	Cyfweiliadau â thîm arweinyddiaeth yr ysgol $n = 1$ Grŵp ffocws gyda staff yr ysgol $n = 1$ Cyfweiliadau dilynol â thîm arweinyddiaeth yr ysgol $n = 1$
Ymgysylltu ychwanegol	-	Cyfweiliadau â thîm arweinyddiaeth yr ysgol $n = 1$

Dadansoddiad

Cynhaliwyd dadansoddiad ar wahân ar gyfer pob rhaglen.

- Pencampwyr Cyrhaeddiad: yn bennaf, roedd y dadansoddiad yn defnyddio canfyddiadau cyfweiliadau ag arweinwyr ysgolion, wedi'u hategu gan dystiolaeth o'r adolygiad pen desg a thrafodaethau digwyddiadau
 - dadansoddwyd pob cyfweiliad ag arweinwyr ysgolion gan ddefnyddio dadansoddiad thematig, a oedd yn cynnwys nodi themâu allweddol o fewn yr wybodaeth a gasglwyd ac ar ei thraws
 - o ystyried amrywiaeth gweithgareddau'r rhaglen sy'n deillio o gynllun gweithredu pob partneriaeth ysgol, fe wnaethom hefyd gymhwyso dadansoddiad o gynnwys i ddogfennu'r gweithgareddau, ochr yn ochr â llunio themâu ehangach
 - nod y canfyddiadau yw taflu goleuni ar safbwyntiau arweinwyr ysgolion ar eu cymhelliant i gymryd rhan, yr hyn a weithiodd yn dda, a'r heriau a wynebwyd, y rhesymeg y tu ôl i ddewis gweithgareddau, a'r effaith ganfyddedig ar ddysgwyr, staff yr ysgol a'r ysgol ehangach
 - gan ei fod wedi'i gadarnhau na fyddai'r fenter yn parhau, rhoddwyd sylw i ddysgu gwersi ar gyfer rhaglenni tebyg yn y dyfodol
- Diogelu rhag Tlodi: roedd y dadansoddiad yn defnyddio data arolwg a gweithgarwch ymgysylltu ansoddol â thimau arweinyddiaeth ysgolion a staff ysgol
 - dadansoddwyd data'r arolwg gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol, tra oedd data o gyfweiliadau a grwpiau ffocws yn cael ei ddadansoddi'n thematig, gan nodi themâu allweddol o fewn y deunydd a gasglwyd ac ar ei draws
 - roedd dau linyn y dadansoddiad yn ymdrin â phynciau tebyg, gan gynnwys adborth ar weithgareddau Diogelu rhag Tlodi a phrofiad cyffredinol o'r rhaglen, galluogwyr a heriau, i ba raddau y canfyddir bod y dull yn ddefnyddiol, newidiadau a welwyd oherwydd cyfranogiad, a'r effaith ganfyddedig ar ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff yr ysgol

Atodiad B: Damcaniaeth newid Pencampwyr Cyrhaeddiad

Sefyllfa

- **Bwlch cyrhaeddiad** parhaus rhwng dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt yn ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim
- Cynrychiolaeth anghymesur o blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn data **presenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau**
- Mae nifer yr achosion o **anfantais gudd** hefyd yn effeithio ar lawer o ddysgwyr nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim
- **Mynediad anghyfartal** i addysg oherwydd cost, stigma
- **Dealltwriaeth** amrywioi/wallus **mewn ysgolion** o'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi
- Dirywiad yn **ymgysylltiad rhieni/dysgwyr** ag ysgolion ar ôl COVID-19
- **Cyfleoedd** ar gyfer dysgu ar y cyd rhwng arweinwyr ysgolion

Tybiaethau

- Mae **cydberthnasau** rhwng cymheiriad **yn gadarnhaol**, ac yn hwyluso ymddiriedaeth, bod yn agored, a myfyrio beirniadol
- Mae gan bartneriaid yr **amser a'r gallu** i gyflawni eu hymrwymiad amser disgwylledig, ac mae lle i hyn fod yn hyblyg
- Mae partneriaid yn parhau i fod **yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig** i'r rhaglen drwy gydol y cyfnod peilot
- Darperir **digon o gyllid** i dalu am amser staff ac arweinyddiaeth er mwyn caniatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal
- Mae gan arweinwyr ysgolion yr **ymreolaeth i weithredu newidiadau** yng nghyd-destun eu hysgol, a chefnogaeth gan randdeiliaid eraill i wneud hynny
- Mae mentora a phartneriaeth rhwng cymheiriad yn **ddull effeithiol** o leihau tuedd ddarlwybod athrawon ac arferion stigmateiddio
- Yn y tymor hwy, bydd newidiadau mewn ymwybyddiaeth ac ymarfer arweinyddiaeth yn arwain at **brofiadau a deilliannau gwell** i ddysgwyr dan anfantais

Mewnbynnu

Cyllid: Cyllid i dalu am amser staff ac arweinyddiaeth i alluogi cyfranogiad

Staffio: Amser ac arbenigedd y penaethiaid sy'n cymryd rhan

Cydllynu gan NAEL: Adolygu, monitro a chydllynu gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

Canllawiau a hyfforddiant: Wedi'u darparu gan NAEL (rhaglen sefydlu deuddydd)

Gweithgareddau

Recriwtio a phenodi ysgolion: Dewis ysgolion gydag arweinwyr ymroddedig i gymryd rhan yn y rhaglen

Ffurio partneriaethau a thriawdau: Creu rhwydweithiau cydweithredol bach o hyd at ddwy ysgol (yn y cyfnod peilot cychwynnol) neu dair ysgol (yn yr ail gyfnod peilot)

Mentora rhwng cymheiriad: Mae partneriaid o'r un anian yn rhannu arbenigedd ac yn cydweithio ar faterion a rennir

Trafodaethau bwrdd crwn (Cam 1 yn unig): Mae penaethiaid yn mynychu trafodaethau bwrdd crwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg i roi gwybod am y gwersi a ddysgwyd

Allbynnau

Dysgu cydweithredol: Mae partneriaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymwybyddiaeth, sgiliau a hyder wrth fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi

Arweinwyr wedi'u hyfforddi: Mae penaethiaid sy'n cymryd rhan yn cael eu hyfforddi trwy sesiynau profiad dysgu profesiynol dan arweiniad NAEL

Cynlluniau gweithredu: Mae partneriaethau'n datblygu strategaethau penodol i'r cyd-destun sy'n mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi a nodwyd ac yn adeiladu ar arferion llwyddiannus a brofwyd

Rhannu gwybodaeth o fewn y rhaglen: Dysgu a thystiolaeth a rennir o fewn triawdau a rhyngddynt

Deilliannau: tymor byr

Newidiadau cychwynnol mewn ymddygiad ac agwedd: Newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau ymhlith arweinwyr tuag at dloidi a'i effeithiau ar addysg

Arweinyddiaeth sydd wedi'i huwchsgillo: Trwy ddysgu cydweithredol rhwng cymheiriad

Ymdeimlad cryfach o hunan-ffeithiolrwydd: Wrth ddefnyddio'r strategaethau cywir i fynd i'r afael ag effaith tloidi ar gyrhaeddiad

Addasiadau arfer cychwynnol: Newidiadau cynnar mewn sut mae ysgolion yn cefnogi dysgwyr o gartrefi ag incwm is

Cydberthnasau profesiynol cryfach: Datblygu rhwydweithiau cymorth cymheiriad rhwng arweinwyr ysgolion ac ar draws awdurdodau lleol

Effeithiau: hirdymor

Ymddygiad parhaus a newidiadau diwylliannol: Tystiolaeth o newidiadau parhaus mewn diwylliant ac arferion ysgolion sy'n fwy cynhwysol a sensitif i faterion sy'n gysylltiedig â thlodi

Newidiadau mewn arweinyddiaeth addysgol: Diwylliant o gefnogaeth gan gymheiriad a gwelliant cydweithredol mewn detholiad o ysgolion Cymru

Arferion gorau sefydledig: Dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn llywio strategaethau gwella ysgolion ehangach

Dysgu ar draws y system: Rhannu arferion arloesol ar draws system addysg Cymru

System addysg Gymru lle nad yw cefndir economaidd-gymdeithasol bellach yn rhagfynegi cyrhaeddiad, wedi'i chynnal gan rhwydweithiau arweinyddiaeth a arweinir gan gymheiriad sy'n ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar degwch ar draws ysgolion